# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Ionawr 2021

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.45)

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.45)

## 2 Papurau i'w nodi

### 2.1 Llythyr gan Brif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru ynghylch y dystiolaeth a gafwyd yng nghyfarfod y pwyllgor ar 18 Tachwedd

(Tudalennau 1 - 6)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-02-21 - Papur 1 i'w nodi

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i Gynulliad Gogledd Iwerddon ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU**

(Tudalennau 7 - 8)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-02-21 - Papur 2 i'w nodi (Saesneg yn unig)

## 3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22: Sesiwn dystiolaeth gyda Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

(09.45-10.45) (Tudalennau 9 - 83)

Ken Skates AS Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Simon Jones, Cyfarwyddwr Seilwaith yr Economi

Sioned Evans, Cyfarwyddwr Busnes a Rhanbarthau

Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau

Huw Morris, Cyfarwyddwr Grwp SAUDGO

Andrew Gwatkin, Cyfarwyddwr - Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-02-21- Papur Briffio

EIS(5)-02-21 - Tystiolaeth gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

## Egwyl (10.45-10.55)

## 4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22: Sesiwn dystiolaeth gyda Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

(10.55-11.55)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.55)

## 6 Preifat

(11.55-12.15)

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22: Ystyried tystiolaeth

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
james.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Russell George AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd  CF99 1SN
SeneddESS@senedd.cymru

07 Ionawr 2020

Annwyl Russell

Diolch am fy ngwahodd i siarad yng nghyfarfod Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 18 Tachwedd 2020, a rhoi cyfle pellach i mi ateb cwestiynau nad oedd aelodau'n gallu eu cyrraedd.

Yn ystod fy ymddangosiad, dywedais hefyd y byddwn yn ysgrifennu atoch gyda rhagor o fanylion. Gweler isod am ragor o wybodaeth am y meysydd hyn.

**Cytundeb Bwrdd TrC i fwrw ymlaen â threfniant rheilffyrdd newydd**

Cafwyd trafodaethau ym mis Ebrill 2020 ynghylch yr angen i edrych ar opsiynau posibl ar gyfer dyfodol gwasanaethau rheilffyrdd pan fyddai'r Cytundeb Mesur Brys yn dod i ben ym mis Tachwedd. Cyflwynwyd Gweithredwr Dewis Olaf (OLR) fel yr opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Rhoddwyd cymeradwyaeth ffurfiol i fwrw ymlaen ag OLR ym mis Hydref 2020. Fe'i trafodwyd yn fanwl yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn y cyfamser rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref, gan gynnwys un cyfarfod eithriadol dros dro o'r Bwrdd ym mis Gorffennaf.

**Newidiadau posibl i gynlluniau TrC yn dilyn y cytundeb rheilffyrdd newydd**

Rydym yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i gyflawni gweledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer y rheilffyrdd yng Nghymru. Mae cyflawni gwelliannau allweddol, megis creu Metro De Cymru, darparu cerbydau newydd sbon ar gyfer rhwydwaith rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a gweithgareddau niferus eraill, yn parhau i fod yn ffocws pendant i Trafnidiaeth Cymru a'i bartneriaid. Fodd bynnag, y realiti yw y bydd angen i ni gyflawni'r weledigaeth hon mewn gwahanol ffyrdd oherwydd y pandemig Covid-19. Mae ein model cyflenwi newydd yn ein galluogi i fod yn y sefyllfa orau i barhau i gyflawni drwy gyfnod o gryn ansicrwydd, wrth i ni ailystyried y ffordd orau o gyflawni'r weledigaeth uchelgeisiol hon.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013. Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Address: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Mae cost y newid hwn yn cael ei reoli drwy gyllidebau presennol Trafnidiaeth Cymru yng nghyd-destun yr 'EMA'. Mae pob parti wedi ymrwymo i sicrhau bod y newidiadau'n cael eu rheoli mewn ffordd mor gost-effeithiol â phosibl, gan sicrhau bod diogelwch, cwsmeriaid a chydweithwyr yn cael eu cefnogi gymaint â phosibl gydol y newid. Yn y tymor hwy, o ganlyniad i'r gostyngiad yn y galw gan deithwyr sy'n gysylltiedig â Covid-19, disgwylir y bydd angen gwelliant parhaus yn y ffordd y caiff gwasanaethau a phrosiectau eu datblygu a'u darparu, a nod y berthynas gytundebol newydd yw cyflawni hyn. Ar hyn o bryd mae costau manwl yn rhan o drafodaethau parhaus fel rhan o gytundebau contract terfynol.

Disgwyliwn y bydd bron pob cydweithiwr yn trosglwyddo i'r model masnachfraint / contract newydd ar y telerau ac amodau sydd ganddynt yn barod. Daw'r cytundeb grant a weithredir gan KAO ar hyn o bryd i ben ar 7 Chwefror 2021 a bydd y gwasanaethau'n cael eu gweithredu gan is-gwmni Trafnidiaeth Cymru sy'n eiddo i'r cyhoedd, 'Transport for Wales Rail Limited'. O'r herwydd, rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o rolau drosglwyddo o dan drefniadau TUPE. Rhagwelir y gall rhai rolau rheoli allweddol a rolau clercol y pencadlys, a ystyrir yn rolau AKI, drosglwyddo o KAO i AKI. Drwy ein fframwaith ymgynghori, byddwn yn cadarnhau sut y bydd y rolau sy'n perthyn i KAO ac AKI yn trosglwyddo.

**<u>Gweithrediadau TrC heb lythyr cylch gwaith ffurfiol</u>**

Fel y gwyddoch, roedd Llythyr Cylch Gwaith diwethaf Llywodraeth Cymru ar gyfer TrC yn cwmpasu'r cyfnod tan fis Mawrth 2020. Fodd bynnag, mae TrC wedi gallu parhau i weithredu o dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru a chyda llywodraethu priodol. Mae Byrddau'n parhau fel arfer ac mae TrC wedi derbyn llythyr darpariaeth dros dro gan Lywodraeth Cymru.

Nid yw'r mwyafrif sylweddol o weithgareddau cylch gwaith TrC yn cyd-fynd â dyddiadau'r llythyrau cylch gwaith ac felly mae gweithgareddau'n cael eu cyflwyno ar draws amserlenni'r llythyr cylch gwaith. Mae hyn yn cynnwys gwaith seilwaith mawr, fel Trawsnewid Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd, ochr yn ochr â'n gwaith ymgynghori, fel teithio llesol. Mae gweithgareddau 'treigl' fel goruchwylio gweithrediadau rheilffyrdd a Thrawsnewid Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd yn cyfrif am dros 95% o'n cyllid, er enghraifft roedd ein gwariant ar reilffyrdd ym mis Hydref yn £38.5 miliwn o gyfanswm o £40 miliwn.

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo TrC i gyflawni gweithgarwch newydd, rydym yn gofyn am gais ffurfiol, naill ai'n ysgrifenedig neu wedi'i nodi mewn tystiolaeth ar ffurf cofnodion cyfarfodydd, gan gynnwys cadarnhad o'r cyllid. Nid yw'r broses hon wedi newid heb Lythyr Cylch Gwaith.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Mae TrC wedi gallu cynllunio eleni hefyd gan fod llythyrau cylch gwaith drafft wedi'u rhannu ers dechrau'r haf. Mae'r fersiwn derfynol wedi'i hatodi. Mae Cynllun Busnes drafft, yn seiliedig ar y llythyr cylch gwaith hwn, wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Mae ein hatebolrwydd yn seiliedig ar nifer o fecanweithiau a threfniadau, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru:

- Bwrdd Llywio TrC – Cyfarfod misol lle mae Llywodraeth Cymru yn fy nal i a Chadeirydd TrC i gyfrif. Mae'r aelodaeth yn cynnwys yr Ysgrifennydd Parhaol ddwywaith y flwyddyn, Andrew Slade, Cyfarwyddwr Anweithredol Llywodraeth Cymru, a Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth bedair gwaith y flwyddyn. Mae Bwrdd TrC yn cyfarfod wythnos cyn y Bwrdd Llywio i ganiatáu i unrhyw eitemau o Fwrdd TrC gael eu huwchgyfeirio.

- Bwrdd Gweithrediadau – cyfarfodydd misol rhwng Uwch Dîm Arwain TrC ac Uwch Dîm Llywodraeth Cymru i drafod cynnydd yn erbyn y cylch gwaith, yn seiliedig ar gynnwys adroddiad manwl a gyflwynir ym mhob cyfarfod yn nodi cynnydd ym mhob maes o'r busnes.

- Matrics Dirprwyaethau – yn nodi penderfyniadau y mae angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru arnynt – naill ai drwy'r Bwrdd Gweithrediadau, y Bwrdd Llywio ac, os oes angen, drwy Gymeradwyaeth Gweinidogol

- Cytundeb Rheoli ac Erthyglau Cymdeithas gydag eitemau a gadwyd yn ôl

**1. Mae'r Pwyllgor wedi nodi o'r blaen y dylai adrodd ar fuddsoddiad fod o leiaf mor dryloyw ag adroddiadau blaenorol Network Rail, a bod y trosglwyddiad yn rhoi cyfle i ddarparu mwy o dryloywder. Gyda hyn mewn golwg, a allwch nodi'r trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith i adrodd ar y buddsoddiadau sy'n cael eu gwneud yn Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd? A allwch gynnwys trefniadau manwl ar gyfer:**

- **Buddsoddi mewn gwelliannau; a**
- **Buddsoddiad Cynnal a Chadw ac Adnewyddu Gweithredol.**

Mae AmeyKeolis Infrastructure ("AKI") yn fenter bwrpasol arbennig ar y cyd a ffurfiwyd i drawsnewid Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd a rheoli a chynnal a chadw seilwaith Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd. Y partner arweiniol yn y fenter hon ar y cyd yw Amey, un o ymgynghorwyr peirianneg a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus mwyaf blaenllaw'r DU. Bydd AKI yn parhau i

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

ddarparu gwasanaethau rheoli asedau, cynllunio trafnidiaeth integredig ac atebion peirianyddol sy'n hyblyg ac sydd wedi'u cynllunio ar gyfer anghenion cymunedau lleol nawr ac yn y dyfodol yn ogystal â chyflawni'r gofynion seilwaith ar gyfer trawsnewid rhwydwaith Rheilffyrdd y Cymoedd.

Adroddir ar y gweithgaredd Gweithrediadau, Cynnal a Chadw ac Adnewyddu ar gyfer Rheolwr Seilwaith Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd o bryd i'w gilydd yn unol â'r broses rheoli asedau ac adrodd a nodir yn y contract. Mae hyn yn cynnwys perfformiad gweithredol megis effaith ar wasanaethau trên, cydymffurfiaeth o ran cynnal a chadw a pheirianneg a chyflawni gwaith adnewyddu asedau a bydd hyn yn parhau o dan y trefniadau newydd.

Adlewyrchwyd y gofyniad ariannu fel rhan o'r cymeradwyaethau ar gyfer prynu asedau yn erbyn cynllun pum mlynedd (a elwir yn gyfnodau rheoli) sy'n cefnogi'r gweithgaredd Gweithrediadau, Cynnal a Chadw ac Adnewyddu ar gyfer Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd. Mae prisiad asedau Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd yn digwydd yn flynyddol a chaiff ei adlewyrchu ar gyfer diwedd y flwyddyn hon.

2. **A allwch nodi'n fwy cyffredinol hefyd pa fesurau fydd ar waith i adrodd ar berfformiad gweithredol y llinellau; a gweithgareddau AKIL mewn perthynas â'r pwyntiau bwled uchod?**

Bydd gennym gytundeb gwasanaethau rhwng Gweinidogion Cymru a TfW Rail Ltd – i gyflawni ein dyletswyddau statudol i ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd a chyflawni ein hamserlen – bydd hyn yn disodli'r Cytundeb Grant presennol. Bydd TrC yn parhau i weithredu fel asiant ar ran Gweinidogion Cymru ar gyfer y cytundeb gwasanaethau hwn, yn yr un modd ag y mae TrC wedi'i wneud dros y ddwy flynedd ddiwethaf ar gyfer y Cytundeb Grant.

Bydd contract rhwng TrC a Llywodraethau Cymru a'r DU. Bydd gan wasanaethau Cymru gytundeb gwasanaeth, a fydd yn cael ei gyhoeddi a bydd Llywodraeth Cymru yn fy nal i a bwrdd TrC i gyfrif. Bydd y Cytundeb Asiantaeth gydag Adran Drafnidiaeth y DU yn parhau i gefnogi darparu gwasanaethau trawsffiniol a bydd ein perthynas a'n trefniadau llywodraethu gyda'r Adran Drafnidiaeth yn parhau o dan y trefniadau newydd. Bydd dangosyddion perfformiad allweddol etc yn parhau, ac rydym yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol i helpu i ddatblygu'r drefn rheoli perfformiad newydd hon rhwng TrC a Llywodraeth Cymru, gan adeiladu ar y trefniadau presennol. Bydd y dangosyddion perfformiad allweddol hyn yn monitro ac yn mesur y pethau sy'n bwysig i deithwyr, Llywodraeth Cymru a TrC.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Bydd gennym ffordd lawer mwy integredig o ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd o dan y trefniadau hyn hefyd, gyda Byrddau a threfniadau adrodd a llywodraethu wedi'u halinio, gan wneud ein ffordd o ddarparu gwasanaethau trenau'n llawer mwy cynwysedig ym mhob cam gweithredu gan bob aelod staff – gan ei gynnwys yn amcanion personol pobl ac yn llai o ddull seiliedig ar reoli contractau.

Nod cymhellion perfformiad oedd annog contractwr preifat i berfformio'n dda, ond yn fewnol byddwn yn cael ein harwain gan werthoedd TrC: Bod y gorau, rhannu llwyddiant, bod yn deg etc. O dan y model newydd mwy integredig, ni fyddai rheoli ar sail contract yn briodol, ond bydd model mwy sefydliadol a arweinir gan reolwyr gydag atebolrwydd i gwsmeriaid, perchnogion ac aelodau etholedig yn briodol.

Mae'r cytundeb grant gwreiddiol yn nodi'r gwasanaethau Rheolwr Seilwaith sydd i'w darparu gan Amey Keolis Infrastructure fel Rheolwr Seilwaith a reoleiddir. Mae'n diffinio gweithrediadau a gofynion cynnal a chadw a rôl TrC o ran llywodraethu'r gwasanaethau hynny. Bydd y gofynion hyn yn cael eu cadw fel rhan o gam i mewn yn y contract presennol.

Mae nifer o gymhellion sy'n rhan o'r contract AKI presennol sy'n cymell cyflawni'r trawsnewid. Byddant yn parhau o dan y model cyflawni newydd.

3. **Mae gan aelodau ddiddordeb yn nhrefniadau rheoleiddio Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd hefyd. Allwch chi egluro sut y caiff y rheilffyrdd eu rheoleiddio, ac yn benodol y rolau sydd gan AKIL, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru, Network Rail a'r Office of Road and Rail a sut y maent i gyd yn rhyngweithio o fewn y gofod rheoleiddio?**

AKIL yw'r Rheolwr Seilwaith a reoleiddir fel y nodir yn y Cytundeb Grant a deddfwriaeth y DU. Bydd hyn yn parhau o dan y model newydd.

Bydd yr Office of Road and Rail yn parhau i fod yn Rheoleiddiwr Diogelwch rhwydwaith Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd a bydd AKIL yn parhau fel y Rheolwr Seilwaith penodedig. Bydd TrC yn darparu llywodraethu economaidd ar gyfer Rheolwr Seilwaith Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd drwy'r gofynion a nodir yn y contract gydag AKIL ac a reolir gan dîm Perchennog Seilwaith TrC.

Network Rail yw'r Rheolwr Seilwaith ar gyfer gweddill rhwydwaith Cymru a'r Gororau ac eithrio Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd. Gan fod y gwasanaethau trên yn mynd ar draws ffin Seilwaith Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd mae ganddynt gytundeb rhyngwyneb gyda NR i sicrhau parhad. Maent yn darparu rhai gwasanaethau i AKIL drwy gytundeb gwasanaethau Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys rhai gwasanaethau gweithredol pontio

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

tra bod Canolfan Rheoli Integredig newydd Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd yn cael ei hadeiladu ond hefyd rhai gwasanaethau tymor hwy oherwydd rôl NR fel gweithredwr system y diwydiant rheilffyrdd (e.e. amserlennu).

4. **Yn olaf, a allech amlinellu natur y contract disgwyliedig gydag AKIL, yn benodol a fydd hyn yn canolbwyntio ar gyflawni'r prosiect seilwaith neu a ydych yn disgwyl y bydd AKIL yn gweithredu fel rheolwr seilwaith yn y tymor hir.**

   Hyd y contract fydd 7 mlynedd a fydd yn caniatáu ar gyfer comisiynu'r Seilwaith Metro newydd, ynghyd â chyfnod o roi'r seilwaith yn ôl i TrC a'i drosglwyddo i Reolwr Seilwaith newydd.

Gobeithio bod hyn yn ateb eich pryderon yn ddigonol. Edrychaf ymlaen at glywed gennych gydag unrhyw gwestiynau ychwanegol fydd gennych ynglŷn â throsglwyddo Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd.

Yn gywir

James Price
Prif Weithredwr / Chief Executive

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Dr Caoimhe Archibald MLA
Chairperson
Committee for the Economy

13 January 2021

Dear Caoimhe

**UK Shared Prosperity Fund**

Thank you for your letter of 14 December 2020, regarding the UK Shared Prosperity Fund ("the Fund").

While we have not undertaken a specific piece of work on the Fund, we are aware of the issues you have highlighted in your letter. The broader issue of financial assistance powers was raised during our scrutiny of the Welsh Government's Legislative Consent Memorandum (the LCM) on the United Kingdom Internal Market Bill (the Bill). We noted the lack of clarity as to whether such powers were meant to replace, implement or were entirely separate from the Fund. At the time, the Welsh Government's Counsel General informed us that he had raised the issue with UK Government Ministers more than once and had not received a response. In our **report** on the LCM, we expressed our concern at the inclusion of such powers in the Bill.

We are aware that the Senedd's Finance Committee has **written** to you, setting out its understanding of the position arising from its scrutiny of the Welsh Ministers and from an exchange of correspondence with the Secretary of State for Wales. We were disappointed to see the Minister for Finance inform the Finance Committee that, within the context of the announcement of the UK Government's Spending Review in November last year, the UK Government has "said almost nothing at all" on the Fund and has "shared no meaningful information with the Welsh Government".

We understand that the Secretary of State for Wales will provide evidence to the House of Commons' Welsh Affairs Committee this week, on 14 January, and that the Shared Prosperity Fund is an area likely to be covered in that **session**.

Should the Fund require any legislative elements, it is likely that we will consider such aspects given the standard remit of our Committee.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

I am copying this letter to Llyr Gruffydd MS, Chair of the Finance Committee, as well as Russell George MS, the Chair of the Senedd's Economy, Infrastructure and Skills Committee, for information.

I hope this letter is helpful to your work and I send best wishes for 2021.

Yours sincerely

**Mick Antoniw AM**
Chair

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## 1.0 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth am y cynigion yng nghyllideb yr Economi a Thrafnidiaeth, fel yr amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22 a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2020. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

## 2.0 Cyd-destun Strategol / Effeithiau COVID-19

Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, sy'n cyd-fynd â Ffyniant i Bawb a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yw'r polisi arweiniol a'r ddogfen strategaeth ar gyfer holl weithgareddau Llywodraeth Cymru. Mae cynllun 2021-22 yn adeiladu ar y cynnydd sylweddol sydd wedi cael ei wneud wrth weithredu a gwreiddio elfennau allweddol o'r cynllun, gan gynnwys ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid, yn enwedig y gymuned fusnes a phartneriaid cymdeithasol.

Mae'r llwybr tuag at adferiad economaidd Cymru yn sgil pandemig COVID-19 yn adeiladu ar Ffyniant i Bawb: y Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Llywiodd raglen datblygu economaidd sy'n buddsoddi mewn pobl a busnesau, gan hyrwyddo ffyniant a lleihau anghydraddoldeb ledled Cymru. Mae'r genhadaeth yn adeiladu ar y cynnydd cynnar rydym wedi'i wneud yn codi proffil a heriau'r Economi Sylfaenol, gan gydnabod bod mwy i'w wneud i ehangu a phwysoli'r dull gweithredu.

Mae mentrau allweddol eraill, gan gynnwys Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, Cymraeg 2050, y Cynllun Cyflenwi Cyflogadwyedd a'n hagenda Gwaith Teg, yn rhedeg drwy'r holl ymyriadau. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i fframwaith ehangach yn parhau i gynnig ffordd Gymreig unigryw o fynd i'r afael â'r heriau hirdymor sy'n wynebu ein pobl a'n planed. Mae wedi llywio ein dull ailadeiladu, gan sicrhau adferiad seiliedig ar werthoedd. Mae cysylltiad agos rhwng ein cenhadaeth a'n Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol, gan ddysgu gwersi dros 20 mlynedd o bolisi cydlyniant yr UE a nodi llwybrau i wneud y defnydd gorau o gyllid amnewidiol oddi wrth Lywodraeth y DU yn rhanbarthol.

Ein bwriad yw creu Cymru sy'n gosod gwella llesiant a lles fel ei phrif ddiben, a sicrhau adferiad economaidd ffyniannus, gwyrdd a chyfartal sy'n cydnabod pa mor bwysig ydyw i fuddsoddi mewn pobl a lle.

Mae Llwybr Newydd - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, a gyhoeddwyd at ddiben ymgynghori fis diwethaf, yn cyflwyno gweledigaeth hirdymor ar gyfer system drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy. Ynddi mae pedair uchelgais 20 mlynedd drawsbynciol lefel uchel a all sicrhau buddiannau ehangach i bobl a chymunedau, yr amgylchedd, yr economi a lleoedd, a diwylliant ac iaith. Cyflawnir yr uchelgeisiau hyn drwy set o flaenoriaethau pum mlynedd, lle targedir ffyrdd o leihau'r angen i deithio ac annog newid dulliau teithio.

Mae'n newid ein dull o wneud penderfyniadau a buddsoddi. Mae'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy yn rhoi blaenoriaeth i ateb y galw i deithio drwy gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus cyn cerbydau modur preifat. Mae'r hierarchaeth fuddsoddi yn canolbwyntio ar fesurau i reoli'r galw, gwneud gwell defnydd o seilwaith presennol (gan gynnwys uno'r gwaith o gynllunio trafnidiaeth a defnydd tir), ac ehangu a hyrwyddo dewisiadau teithio cynaliadwy.

Caiff y dull newydd hwn ei gefnogi hefyd gan adroddiad terfynol Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru sy'n argymell rhwydwaith o ddewisiadau amgen i annog pobl i deithio mewn ffyrdd mwy cynaliadwy.

Bydd y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn diffinio prif feysydd gwariant trafnidiaeth yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf. Bydd yn adeiladu ar Gynlluniau Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol blaenorol, ond caiff ei lywio gan Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru. Caiff y ddogfen ei pharatoi gan Trafnidiaeth Cymru.

Yn ogystal â chyllid ychwanegol, rydym hefyd wedi ailwampio'r ffordd y caiff gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus eu darparu er mwyn adlewyrchu'r realiti masnachol newydd a sicrhau'r buddiannau a'r canlyniadau gorau posibl yn gyfnewid am y lefel uwch o gyllid a ddarparwyd gennym. Bydd y cytundeb sy'n sail i gyllid drwy'r cynllun brys ar gyfer y sector bysiau yn sicrhau partneriaeth barhaus rhwng gweithredwyr a chyrff cyhoeddus, gan gynnig mwy o reolaeth yn gyfnewid am ein cyllid fel bod modd ailwampio rhwydwaith bysiau Cymru, cefnogi'r gwaith o reoli dulliau teithio a'r rhyngweithio rhyngddynt, gan gynnwys systemau tocynnau clyfar, rhwydwaith cyfeirio sy'n cyflawni amcanion ehangach, ac amserlennu cydgysylltiedig rhwng dulliau teithio.

Gwelwyd effaith ddifrifol ar nifer y bobl sy'n teithio ar drenau ac, ym mis Hydref, cyhoeddwyd y byddai Masnachfraint rheilffyrdd bresennol Rhwydwaith Cymru a'r Gororau yn pontio drwy gytundeb wedi'i reoli i reolaeth gyhoeddus. O fis Chwefror 2021, is-gwmni newydd o Trafnidiaeth Cymru sydd o dan berchenogaeth gyhoeddus fydd yn gyfrifol am wasanaethau rheilffyrdd beunyddiol, gan alluogi'r llywodraeth i chwarae rhan hyd yn oed yn fwy yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru a'r gororau.

Mae cysylltedd wedi bod yn hanfodol er mwyn galluogi pobl i weithio gartref, aros mewn cysylltiad a theimlo'n llai ynysig. Lliniarwyd effaith COVID-19 am fod Llywodraeth y DU wedi dynodi telathrebu yn 'wasanaeth hanfodol', a wnaeth alluogi'r gwaith o gyflwyno rhaglenni band eang i barhau. Ni fu fawr ddim effaith ar gyflawni prosiectau sydd hefyd yn golygu mai effaith fach a welir ar gyllidebau, yn y byrdymor a'r hirdymor. Efallai y bydd oedi cyn dechrau'r Gronfa Band Eang Leol, sy'n dibynnu ar geisiadau llywodraeth leol a chymunedol, yn effeithio ar ofynion cyllido prosiectau yn yr hirdymor.

Ar gyfer yr adferiad, mae rôl Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod digon o safleoedd sy'n barod am fuddsoddiad ac eiddo i gefnogi busnesau sy'n tyfu yng Nghymru yn mynd i'r afael â'r heriau o ran eiddo sy'n atal cyflawni polisïau'r llywodraeth o dan Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi, a Chymru fwy ffyniannus a thecach. Ar y cyfan, mae'r rhesymeg ganolog dros ymyrryd yn y farchnad yn gryf o hyd, ac mae'n debygol o gael ei hatgyfnerthu gan yr argyfwng presennol, yn enwedig lle y bo ansicrwydd eang. Fodd bynnag, wrth i'r economi ddechrau adfer,

bydd angen i'r sector cyhoeddus chwarae rôl amlycach na'r un a allai fod wedi ei rhagweld. Bydd darparu eiddo masnachol priodol yn rhan bwysig o'r arlwy. Yn y tymor hwy, gallai dod â gwaith gweithgynhyrchu yn ôl i Gymru gael effaith gadarnhaol ar alw. Gallai hyn gynnwys dymuniad ymhlith gweithgynhyrchwyr i sicrhau cadernid y gadwyn gyflenwi, a hynny drwy sicrhau bod capasiti cynhyrchiol yn cael ei ddosbarthu'n ehangach, a allai fod o fudd i Gymru o ystyried ei chryfderau gweithgynhyrchu presennol.

Mae'r pandemig wedi cael effaith fawr ar amserlenni cyflenwi a phroffiliau cost cynlluniau trafnidiaeth lleol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, oherwydd y cyfyngiadau symud cychwynnol a'r newidiadau gofynnol i arferion gwaith. Gwnaeth dyrannu cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gyflwyno mesurau i'w gwneud hi'n ddiogel i gerdded a beicio mewn ymateb i'r pandemig ddargyfeirio peth capasiti o reidrwydd, gan arwain at ailflaenoriaethu a gohirio cynlluniau a oedd i'w rhoi ar waith yn wreiddiol yn 2020-21, gan arwain at weld mwy o brosiectau yn yr arfaeth ar gyfer 2021-22.

## 3.0 Crynodeb o'r Newidiadau i'r Gyllideb

Mae Cyllideb Ddrafft 2021-22 yn darparu cynllun gwariant blwyddyn ar gyfer adnoddau a chyfalaf. Mae'r tablau isod yn rhoi trosolwg o'r newidiadau i wariant adnoddau a chyfalaf arfaethedig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ar gyfer gweithgareddau Economi a Thrafnidiaeth. Cymherir y gyllideb â chyllidebau 2021-21 yn ôl y gofyn. Dylid nodi bod y llinell sylfaen gyfalaf yn adlewyrchu gofynion y portffolio ar gyfer rhaglenni a phrosiectau sydd ar waith, gyda pheth addasu. Bu angen gwneud yr addasiadau hyn er mwyn adlewyrchu natur untro peth cyllid a ddyrannwyd rhwng nifer o bortffolios er mwyn mynd i'r afael ag effaith pandemig COVID-19.

Darperir y newidiadau ar gyfer 2021-21 gan fod cyllidebau atodol 2021-21 yn amlinellu ymatebion brys i COVID-19. Canolbwyntiodd y Gyllideb Atodol Gyntaf ar ailbennu cyllidebau a fodolai eisoes er mwyn ymateb i'r pandemig yn syth. Cyfrannwyd £50m o'r portffolio ar gyfer rhaglenni amrywiol. Yn yr Ail Gyllideb Atodol cyflwynwyd mesurau pellach ac roedd y dyraniadau yn cefnogi trafnidiaeth gyhoeddus a busnesau yn bennaf, gan gynnwys £113m ar gyfer bysiau a £95m ar gyfer trenau.

Cyfanswm y gyllideb adnoddau ar gyfer 2021-22 yw £580.468m (ac eithrio Gwariant Anghyllidol a Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)). Mae'r gyllideb adnoddau gyllidol wedi cynyddu £35.971m o gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig. Mae cyfanswm y gyllideb adnoddau wedi cynyddu £36.007m, gan gynnwys £0.036m ychwanegol ar gyfer y gyllideb anghyllidol o £192.436m. Mae'r gyllideb AME wedi cynyddu £97.990m i £127.515m, gan ddarparu ar gyfer taliadau sydd y tu hwnt i reolaeth y portffolio, megis amhariadau ar y portffolio eiddo, cyd-fentrau, y rhwydwaith ffyrdd a mathau eraill o seilwaith. Rhoddir trosolwg yn nhabl 1 fel a ganlyn:

| TABL 1: Trosolwg o'r Gyllideb Adnoddau | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000** | **Newid £'000** | **Newid %** |
| **Adnoddau Cyllidol** | | | | |
| Yr Economi | 43,120 | 56,091 | 12,971 | 30% |
| Trafnidiaeth | 327,836 | 346,436 | 18,600 | 6% |
| Sgiliau | 173,541 | 177,941 | 4,400 | 3% |
| **Is-gyfanswm** | **544,497** | **580,468** | **35,971** | **7%** |
| **Adnoddau Anghyllidol** | | | | |
| Yr Economi | 2,309 | 2,309 | 0 | 0% |
| Trafnidiaeth | 188,691 | 188,691 | 0 | 0% |
| Sgiliau | 1,400 | 1,436 | 36 | 3% |
| **Is-gyfanswm** | **192,400** | **192,436** | **36** | **0%** |
| **CYFANSWM** | **736,897** | **772,904** | **36,007** | **5%** |
| **AME** | | | | |
| **CYFANSWM AME** | **29,525** | **127,515** | **97,990** | **332%** |

Yn y Gyllideb ddrafft roedd rhai buddsoddiadau wedi'u targedu yn unol â blaenoriaethau uniongyrchol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus a chynllun cymunedau am waith. Bydd penderfyniadau ariannol pellach ar gyfer busnesau, neu gymorth sgiliau a thrafnidiaeth, yn cael eu hasesu wrth inni feithrin gwell dealltwriaeth o effaith misoedd y gaeaf ar ledaeniad y clefyd.

Ar gyfer 2021-22 cyfanswm y gyllideb gyfalaf yw £790.929m, fel y'i crynhoir yn Nhabl 2 isod:

| **BEL** | **Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000** | **Cyllideb Llinell Sylfaen 2021-22 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynllunia u Newydd 2021-22 £'000** | **Newid £'000** | **Llinell Sylfaen Newid %** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfalaf Traddodiadol** | | | | | |
| Yr Economi | 107,514 | 86,336 | 95,336 | 9,000 | 10% |
| Trafnidiaeth | 597,952 | 397,650 | 681,827 | 284,177 | 71% |
| **Is-gyfanswm** | **705,466** | **483,986** | **777,163** | **293,177** | **61%** |
| **Trafodiadau Ariannol** | | | | | |
| Yr Economi | 72,960 | 0 | 612 | 612 | 100% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Trafnidiaeth | 12,300 | 0 | 13,154 | 13,154 | 100% |
| **Is-gyfanswm** | **85,260** | **0** | **13,766** | **13,766** | **100%** |
| **Cyfanswm Cyfalaf Traddodiadol a Thrafodiadau Ariannol** | | | | | |
| Yr Economi | 180,474 | 86,336 | 95,948 | 9,612 | 11% |
| Trafnidiaeth | 610,252 | 397,650 | 694,981 | 297,331 | 75% |
| **CYFANSWM** | **790,726** | **483,986** | **790,929** | **306,943** | **63%** |

## 3.1 Adnodd

Amlinellir y cynnydd yn y gyllideb adnoddau o £36.007m, gan gynnwys £0.036m ar gyfer adnodd anghyllidol, yn Nhabl 3 isod:

| **TABL 3: Symudiadau yn y Gyllideb Adnoddau** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Prosiect** | **Economi £'000** | **Trafnidiaeth £'000** | **Sgiliau £'000** | **Cyfanswm £'000** |
| ***Dyraniadau Ychwanegol*** | | | | |
| Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi | 3,000 | | | **3,000** |
| Cynllun Allforio | 1,600 | | | **1,600** |
| Economi Sylfaenol | 3,000 | | | **3,000** |
| Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus | 2,796 | | | **2,796** |
| Cymorth Bysiau | | 18,600 | | **18,600** |
| Cymunedau am Waith a Mwy | | | 6,000 | **6,000** |
| Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol | 4,900 | | | **4,900** |
| ***Cyfanswm*** | **15,296** | **18,600** | **6,000** | **39,896** |
| ***Symudiadau Eraill*** | | | | |
| Cyllid afreolaidd mewn perthynas â'r cyfnod pontio o'r UE | (2,325) | | (1,600) | **(3,925)** |
| **Cyfanswm** | **(2,325)** | **0** | **(1,600)** | **(3,925)** |
| **Cyfanswm yr Adnoddau Cyllidol** | **12,971** | **18,600** | **4,400** | **35,971** |
| ***Adnoddau Anghyllidol*** | | | | |
| Dibrisiant Cymunedau am Waith | | | 36 | **36** |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **36** | **36** |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **12,971** | **18,600** | **4,436** | **36,007** |

## 3.2 Cyfalaf

Y gyllideb gyfalaf yw blwyddyn olaf setliad cyfalaf blaenorol Llywodraeth Cymru. Arweiniodd hyn at ailddatgan gwariant cyfalaf rheolaidd yn y Prif Grŵp Gwariant a dyraniadau penodol newydd am flwyddyn yn unig. Amlinellir y cynnydd net bach mewn cyllidebau cyfalaf o £0.203m yn Nhabl 4 fel a ganlyn:

| TABL 4: CYLLIDEBAU CYFALAF | | | |
|---|---|---|---|
| **Prosiect** | **Economi £'000** | **Trafnidiaeth £'000** | **Cyfanswm £'000** |
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | |
| Rheilffyrdd a Metro | | 249,680 | **249,680** |
| Cronfa Teithio Llesol | | 20,000 | **20,000** |
| Ôl-groniad Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | | 15,000 | **15,000** |
| Tasglu'r Cymoedd | 9,000 | | **9,000** |
| Ad-daliad I2S Goleuadau LED Cefnffyrdd | | (503) | **(503)** |
| **Is-gyfanswm** | **9,000** | **284,177** | **293,177** |
| Addasiadau i'r Llinell Sylfaen Gyllidebol | (21,178) | (200,302) | **(221,480)** |
| **Symudiadau Net Cyfalaf Traddodiadol** | **(12,178)** | **83,875** | **71,697** |
| ***Cyfalaf Trafodiadau Ariannol*** | | | |
| Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig | | 3,154 | **3,154** |
| Cronfa Ad-daladwy BBaChau | 5,000 | | **5,000** |
| Trawsnewid Cerbydau Trydan | | 10,000 | **10,000** |
| Ad-daliadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | (4,388) | | **(4,388)** |
| **Is-gyfanswm** | **612** | **13,154** | **13,766** |
| Addasiadau i'r Llinell Sylfaen Gyllidebol | (72,960) | (12,300) | **(85,260)** |
| **Symudiadau Net Cyfalaf Trafodiadau Ariannol** | **(72,348)** | **854** | **(71,494)** |
| **Symudiadau Net Cyfanswm Cyfalaf** | **(84,526)** | **84,729** | **203** |

Mae'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BELs) sy'n darparu dadansoddiad llawn o gyllidebau refeniw a chyfalaf y portffolio wedi'u rhestru fesul Cam Gweithredu yn adrannau 5, 7 a 9.

## 4.0 Cydraddoldeb, Cynaliadwyedd, y Gymraeg ac Ystyriaethau Demograffig

Wrth lunio ein cynlluniau, mae'r tueddiadau demograffig allweddol canlynol o'r adroddiad mwyaf diweddar, a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), ar ragamcanion poblogaeth cenedlaethol (2018) wedi eu hystyried, sy'n awgrymu'r canlynol:

- Rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu 2.7% o 2018 i 3.22 miliwn erbyn 2028, a 3.7% i 3.26 miliwn erbyn 2043. Rhagwelir y bydd nifer y plant dan 16 oed yn gostwng 4.7% i 536,300 rhwng 2018 a 2028.
- Rhagwelir y bydd nifer y bobl 16-64 oed yn cynyddu 0.2% i 1,927,700 rhwng 2018 a 2028.
- Rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd yn cynyddu 16.3% i 758,600 rhwng 2018 a 2028.
- Rhagwelir y bydd nifer y bobl 75 oed a throsodd yn cynyddu 29.3% i 378,100 rhwng 2018 a 2028.

Yn ôl yr ystadegau Tlodi Incwm Cymharol diweddaraf ar gyfer y cyfnod 3 blynedd hyd at fis Mawrth 2019.

- Roedd 23% o'r holl bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol rhwng 2016-17 a 2018-19. Mae'r ffigur hwn wedi aros yn gymharol sefydlog (rhwng 22 a 24%) dros yr 16 o gyfnodau amser blaenorol. Mae'r ffigur, sef 23%, ychydig yn is na'r llynedd.
- Plant oedd y grŵp oedran a oedd yn fwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol rhwng 2016-17 a 2018-19 (28%), ac mae hyn wedi bod yn wir ers peth amser. Hwn yw'r pedwerydd gwaith yn unig i'r ffigur hwn fod islaw 30% ers y cyfnod hyd at 2005-06.
- Roedd 22% o oedolion o oedran gweithio mewn tlodi incwm cymharol rhwng 2016-17 a 2018-19. Mae hyn yn is na'r ffigur a gofnodwyd y llynedd, sef 23%. Mae'r ffigur wedi aros rhwng 21 a 23% yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnodau amser ers diwedd y 1990au.
- Roedd 19% o bensiynwyr yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol rhwng 2016-17 a 2018-19. Yn 19%, mae'r ffigur yr un peth â'r hyn a gofnodwyd y llynedd ac mae'n dal yn is na'r ffigurau o ganol y 1990au i ddiwedd y 1990au.
- Roedd byw mewn aelwyd lle nad oedd neb yn gweithio yn cynyddu'r siawns o fyw mewn tlodi incwm cymharol i oedolion o oedran gweithio a phlant.
- Roedd plant a oedd yn byw mewn teuluoedd un rhiant yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol na'r rheini a oedd yn byw mewn aelwydydd â chwpl.
- Roedd pobl a oedd yn byw mewn cartrefi lle’r oedd pennaeth yr aelwyd yn perthyn i grŵp ethnig heb fod yn wyn yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol, o gymharu â’r rheini lle’r oedd pennaeth yr aelwyd yn perthyn i grŵp ethnig gwyn.
- Roedd byw mewn aelwyd gyda pherson ag anabledd yn cynyddu'r tebygolrwydd o fyw mewn tlodi incwm cymharol i blant ac oedolion o oedran gweithio, ond nid i bensiynwyr.

Mae asesiadau effaith integredig bellach yn sail i'r holl benderfyniadau buddsoddi a wneir gan y Gyfarwyddiaeth Seilwaith Economaidd. Mae Asesiadau Effaith y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2015 yn dal wrth wraidd penderfyniadau trafnidiaeth. Fodd bynnag, mae'r rhain yn cael eu diweddaru bellach drwy'r canlynol sydd ar ffurf ddrafft:

- Strategaeth Drafnidiaeth Cymru – Asesiad Effaith Integredig

- Asesiad Effaith Integredig Diwygio Bysiau
- Asesiad Effaith Integredig Diwygio Trenau
- Hedfanaeth – Asesiad Effaith Integredig Strategol

Mae'r gyllideb yn parhau i roi cefnogaeth gref i'r cyfle i swyddi, gwasanaethau iechyd, addysg a hamdden drwy ddulliau o drafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyn yn effeithio'n arbennig ar y rhai nad oes ganddynt gar preifat, fel arfer gan adlewyrchu'r rhai o rannau tlotach o Gymru a/neu grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Yn arbennig mae'r gyllideb hon yn parhau i alluogi pobl sydd dros 60 oed neu bobl anabl i deithio ar fws am ddim, ac mae hefyd yn hyrwyddo byw'n iach drwy deithio llesol lle y bo'n briodol.

Hefyd, mae asesiadau effaith mewn meysydd seilwaith economaidd eraill, gan gynnwys

- Seilwaith Digidol – Asesiad Effaith Integredig Strategol (drafft)
- Drwy ymestyn Contract Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus a'r gyllideb bu modd gwella'r rhwydwaith, gan gynnwys y systemau a ddefnyddir gan weithwyr iechyd i gofnodi gwybodaeth am gleifion yn y cartref, sydd wedyn ar gael i staff iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cynorthwyo pobl fregus a phobl hŷn na allant adael eu cartrefi.
- Seilwaith Eiddo
- Rheoli Eiddo – Asesiad Effaith Integredig (drafft)
- Cynllun Cyflenwi Eiddo – Asesiad Effaith Integredig Strategol (drafft)

Cyflenwir eiddo a safleoedd newydd yn unol â Pholisi Adeiladau cynaliadwy Llywodraeth Cymru ac egwyddorion arferion gorau datblygu cynaliadwy, fel yr amlinellir yn Creating Sustainable Places Together. Paratoir Asesiadau Effaith ar gyfer swyddogaethau cyflenwi a rheoli eiddo, a byddant yn llywio penderfyniadau. Mae'r Cynllun Cyflenwi Eiddo yn gosod targedau cyflenwi rhanbarthol er mwyn sicrhau bod cyfleoedd economaidd ar gael ledled Cymru.

Paratowyd ein cynlluniau gan ddefnyddio dull integredig o wneud penderfyniadau yn unol â Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb, ystyriwyd ein penderfyniadau allweddol ynghylch y gyllideb er mwyn deall yn well yr effaith gyffredinol ar wahanol grwpiau o bobl. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn ystyriaeth sylfaenol wrth asesu effaith penderfyniadau.

Mae ein cyllidebau'n cefnogi'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi sy'n amlinellu newidiadau o ran polisïau, dulliau cyflawni ac ymddygiad i gefnogi ac adlewyrchu ein hamcanion Llesiant. Nod y Cynllun Gweithredu ar yr Economi yw cefnogi lefelau gwell o gyfoeth a llesiant, gan leihau anghydraddoldebau a brofir gan unigolion a chymunedau ledled Cymru. Mae hefyd yn cynnwys gweledigaeth ar gyfer twf cynhwysol, yn seiliedig ar sylfeini cadarn, diwydiannau cryf iawn yn y dyfodol a rhanbarthau cynhyrchiol. Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn hyrwyddo'r ddau nod o dyfu'r economi a lleihau anghydraddoldeb. Mae ein dull o Ailadeiladu'r Economi yn adeiladu ar sylfeini ac egwyddorion cryf y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, a'r weledigaeth yw creu Cymru sydd â gwella llesiant yn brif ddiben iddi.

## 5.0 YR ECONOMI – CYLLIDO'R CAMAU GWEITHREDU

O gymharu â chyllideb derfynol 2021-22, cynyddir y dyraniad adnoddau £12.971m i £58.1m. Cyfanswm y dyraniad cyfalaf ar gyfer 2021-22 yw £95.948m, sy'n ostyngiad o £84.526m o'i gymharu â chyllideb derfynol 2020-21.

| **Yr Economi** | **Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000** | **Newid £'000** | **Newid %** |
|---|---|---|---|---|
| Refeniw | 43,120 | 56,091 | 12,971 | 30% |
| Heb Fod yn Arian Parod | 2,309 | 2,309 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **45,429** | **58,400** | **12,971** | 29% |

| **BEL** | **Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000** | **Cyllideb Llinell Sylfaen 2021-22 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000** | **Newid £'000** | **Llinell Sylfaen Newid %** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfalaf Traddodiadol | 107,514 | 86,336 | 95,336 | 9,000 | 10% |
| Cyllid Trafodiadau Ariannol | 72,960 | 0 | 612 | 612 | 100% |
| **CYFANSWM** | **180,474** | **86,336** | **95,948** | **9,612** | **11%** |

Rhoddir esboniad o'r dadansoddiad manwl o'r Camau Gweithredu fesul BEL yn yr adrannau canlynol.

## 5.1 Cam Gweithredu Twf Cynhwysol a Diogelu Economi Cymru at y Dyfodol

| **BEL** | **Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000** | **Newid £'000** | **Newid %** |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol | 6,798 | 6,648 | (150) | (2%) |
| Entrepreneuriaeth | 5,639 | 5,639 | 0 | 0% |
| Mentrau Cymdeithasol a'r Economi | 730 | 730 | 0 | 0% |
| Busnes Cymru | 5,577 | 10,747 | 5,170 | 93% |
| Cymoedd Technoleg | 2,250 | 2,250 | 0 | 0% |
| Tasglu'r Cymoedd | 100 | 100 | 0 | 0% |
| Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol | 0 | 4,900 | 4,900 | 100% |
| Allforio, Masnachu a Mewnfuddsoddi | 4,437 | 4,692 | 255 | 6% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **25,531** | **35,706** | **10,175** | **40%** |

| BEL | Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000 | Cyllideb Llinell Sylfaen 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £’000 | Newid £’000 | Llinell Sylfaen Newid % |
|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | | |
| Datblygu Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol | 41,678 | 40,000 | 40,000 | 0 | 0% |
| Cymoedd Technoleg | 7,750 | 7,750 | 7,750 | 0 | 0% |
| Tasglu'r Cymoedd | 19,500 | 0 | 9,000 | 9,000 | 100% |
| **Is-gyfanswm** | **68,928** | **47,750** | **56,750** | **9,000** | **19%** |
| ***Trafodiadau Ariannol*** | | | | | |
| Datblygu Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol | 2,560 | 0 | 612 | 612 | 100% |
| **Is-gyfanswm** | **2,560** | **0** | **612** | **612** | 100% |
| **CYFANSWM** | **71,488** | **47,750** | **57,362** | **9,612** | **20%** |

Yn gyffredinol mae'r newid o £10.175m yn adlewyrchu dyraniadau ychwanegol ar gyfer y cynllun allforio newydd £1.6m, y ganolfan ddigidol £4.9m a mentrau sylfaenol / canol tref £6m a wrthbwysir gan gyllid afreolaidd mewn perthynas â'r cyfnod pontio o'r UE ar gyfer Cronfa Cydnerthedd Brexit o £2.325m.

Mae'r cyllid refeniw Datblygu Busnes a Datblygu Rhanbarthol o £6.648m yn cefnogi partneriaethau, gwaith ymgysylltu a mentrau i gyflawni uchelgeisiau'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a chyflogadwyedd ar gyfer twf cynhwysol ac adeiladu'r economi ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor. Mae'r newid yn y gyllideb o £0.150m ar gyfer cyllid afreolaidd mewn perthynas â'r cyfnod pontio o'r UE. Yn 2021-22 bydd Cronfa Dyfodol yr Economi o £40.612m ar gael i gefnogi busnesau. Mae hyn yn cynnwys dyraniad cyfalaf trafodiadau ariannol ychwanegol o £5m ar gyfer Cronfa Ad-daladwy BBaChau wedi'i wrthbwyso gan ad-daliadau cyfalaf trafodiadau ariannol o £4.388m (net £0.612m).

Mae cyllidebau Entrepreneuriaeth, Busnes Cymru a Mentrau Cymdeithasol gwerth £17.116m yn cefnogi entrepreneuriaeth ymhlith pobl ifanc, busnesau newydd, microfusnesau, BBaChau, eiriolwyr pobl anabl, mentrau cymdeithasol ac arferion busnes cyfrifol.  Mae'r gwasanaethau yn cefnogi'r rhai sy'n wynebu rhwystrau cudd a pharheir i gynnig cymorth wedi'i dargedu i bobl fel entrepreneuriaid sy'n fenywod ac yn bobl ifanc, a grwpiau BAME.

Yn 2021-22 blaenoriaethwyd cyllid ychwanegol o £3m i adfer yr economi sylfaenol gan arwain at greu swyddi sydd wrth wraidd cymunedau lleol mewn sectorau fel iechyd a gofal; bwyd; tai; ynni; twristiaeth; adeiladu a manwerthu.  Bydd £3m arall yn targedu mentrau canol tref sy'n gydnaws â chyfeiriad polisi Trawsnewid Trefi i greu cyfleoedd cyflogaeth a diogelu swyddi mewn trefi strategol ledled Cymru. Gwrthbwysir y dyraniad ychwanegol o £6m ar gyfer Busnes Cymru gan £0.830m afreolaidd o Gronfa Cydnerthedd Brexit yr UE. Rhoddir rhagor o fanylion yn adrannau 6.4 a 6.5.

Mae'r gyllideb allforio, masnachu a buddsoddi o £4.692m yn galluogi'r *Blaenoriaethau Ail-greu* i ddiogelu a chynyddu cadernid economi Cymru yn wyneb COVID-19 a diwedd y cyfnod pontio o'r UE. Gwrthbwysir y cyllid ychwanegol o £1.6m

i gyflawni'r Cynllun Allforio newydd gan £1.345m afreolaidd o Gronfa Cydnerthedd Brexit (net £0.255).

Ymrwymiad o £100m dros gyfnod o 10 mlynedd yw Cymoedd Technoleg i greu 1,500 o swyddi cynaliadwy ym Mlaenau Gwent a'r cyffiniau drwy fanteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o'r pedwerydd chwyldro diwydiannol, annog busnesau i fabwysiadu technolegau digidol a datblygu uwch-dechnolegau gwerth uchel sy'n cefnogi diwydiannau arloesol.  Mae cyllid refeniw'r Ganolfan Ecsbloetio Ddigidol Genedlaethol o £2.250m yn darparu rhaglen refeniw Cymoedd Technoleg. Ceir rhagor o wybodaeth yn 6.12.  Mae'r gyllideb gyfalaf ar gael i gefnogi gwaith datblygu seilwaith megis Parc Cyflogaeth Lime Avenue

Cafodd Ein Cymoedd, Ein Dyfodol ei gefnogi â £32m o gyllid cyfalaf ar gyfer blynyddoedd ariannol 2019-20 a 2020-21, gan gynnwys £7m ar gyfer Parciau Rhanbarthol y Cymoedd. Caiff y fenter hon ei hymestyn i 2021-22 gyda dyraniad o £9m o ganlyniad i'r ffaith bod COVID-19 wedi effeithio ar weithgareddau yn 2020-21. Bydd ailddyrannu gwariant a ohiriwyd yn 2021-22 yn helpu i gwblhau'r rhaglen. Ceir rhagor o wybodaeth yn 6.13.

Bydd y dyraniad ychwanegol o £4.9m ar gyfer Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cymru yn galluogi pobl i weithio neu astudio gartref, gan sicrhau mwy o chwarae teg i bob cyflogai. Mae'r Ganolfan yn allweddol i gyflawni Strategaeth Ddigidol Cymru er mwyn diwallu anghenion hyfforddi, rhannu arferion da a help arbenigol i drawsnewid gwasanaethau.

## 5.2 Cam Gweithredu Banc Datblygu Cymru

| BEL | Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000 | Cyllideb Llinell Sylfaen 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000 | Newid £'000 | Llinell Sylfaen Newid % |
|---|---|---|---|---|---|
| ***Trafodiadau Ariannol*** | | | | | |
| Cronfeydd Cyllid Busnes | 47,000 | 0 | 0 | 0 | 0% |
| **CYFANSWM** | **47,000** | **0** | **0** | **0** | **0%** |

Mae Banc Datblygu Cymru yn gwella gallu BBaChau i gael mynediad at gyllid ac yn helpu i greu a diogelu swyddi gyda Chronfeydd dynodedig sy'n ceisio datgloi potensial economi Cymru drwy sicrhau bod mwy o gyllid effeithiol a chynaliadwy yn y farchnad. Gwneir gwaith cynllunio hirdymor at y dyfodol ar gyfer cyllido Banc Datblygu Cymru ar hyn o bryd, gan gynnwys ei rôl allweddol yn y ffordd mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r pandemig presennol. Nid yw cyllid cronfeydd dynodedig yn 2020-21 yn rheolaidd.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Banc Datblygu yn adran 6.6.

## 5.3 Cam Gweithredu Datblygu Seilwaith Economaidd

| BEL | Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £’000 | Newid £’000 | Newid % |
|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | | |
| Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus | 8,704 | 11,500 | 2,796 | 0% |
| Datblygu Seilwaith Strategol | 990 | 990 | 0 | 0% |
| Gweithrediadau Seilwaith TGCh | 1,527 | 1,527 | 0 | 0% |
| Seilwaith Eiddo | 4,026 | 4,026 | 0 | 0% |
| **Is-gyfanswm** | **15,247** | **18,043** | **2,796** | **0%** |
| **Heb Fod yn Arian Parod** | | | | |
| Gweithrediadau Seilwaith TGCh - Nad yw'n Arian Parod | 2,309 | 2,309 | 0 | 0% |
| **Is-gyfanswm** | **2,309** | **2,309** | **0** | **0%** |
| **Cyfanswm Refeniw** | **17,556** | **20,352** | **2,796** | **0%** |

| BEL | Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000 | Cyllideb Llinell Sylfaen 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £’000 | Newid £’000 | Llinell Sylfaen Newid % |
|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | | |
| Gweithrediadau Seilwaith TGCh | 26,000 | 26,000 | 26,000 | 0 | 0% |
| Datblygu Seilwaith Strategol | 4,200 | 4,200 | 4,200 | 0 | 0% |
| Seilwaith Eiddo | 8,386 | 8,386 | 8,386 | 0 | 0% |
| **Is-gyfanswm** | **38,586** | **38,586** | **38,586** | **0** | **0%** |
| ***Trafodiadau Ariannol*** | | | | | |
| Seilwaith Eiddo | 23,400 | 0 | 0 | 0 | 0% |
| **Is-gyfanswm** | **23,400** | **0** | **0** | **0** | **0%** |
| **CYFANSWM** | **61,986** | **38,586** | **38,586** | **0** | **0%** |

Mae'r gyllideb seilwaith TGCh yn cefnogi uchelgeisiau'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi ar gyfer seilwaith modern a chysylltiedig drwy ddarparu cyllid i wella mynediad at fand eang cyflym a dibynadwy ar gyfer eiddo yng Nghymru lle nad oes mynediad ar hyn o bryd. Y prif feysydd cyllid sy'n cefnogi hyn yw:

- **Mynediad at Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf Cymru** – prosiect i gysylltu 39,000 o eiddo er mwyn cael mynediad at ffeibr sy'n addas i'r dyfodol gan alluogi cyflymderau band eang gigabit

- **Cronfa Band Eang Leol** – cynllun grant i awdurdodau lleol a mentrau cymdeithasol er mwyn helpu cymunedau lleol i gael mynediad at fand eang cyflym.
- **Allwedd Band Eang Cymru** – cynllun grant 'pan fetho popeth arall' sy'n helpu eiddo technegol agnostig i gysylltu
- **Prosiect Rhwydwaith Ffeibr Llawn Lleol ar Gefnffyrdd** – cynllun uwchraddio ac ymestyn ar gyfer rhwydwaith asgwrn cefn cyfathrebu ffeibr optig cefnffyrdd yn y de.

Mae cyllideb Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus o £11.5m yn darparu cyllid ar gyfer rhwydwaith cyflenwi llwyfan digidol gwasanaethau a rennir sy'n darparu cysylltedd a gwasanaethau digidol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhwydwaith yn gwasanaethu dros 120 o sefydliadau yn y sector cyhoeddus â thua 5,000 o gysylltiadau. Mae'r dyraniad ychwanegol o £2.796m yn cefnogi'r cydweithio hwn.

Mae'r cyllid seilwaith datblygu strategol o £0.990m yn galluogi dulliau arloesol â phwyslais masnachol sy'n hwyluso mynediad at gyllid o'r sector preifat a phartneriaid eraill i ddarparu buddsoddiadau â blaenoriaeth o fewn y portffolio seilwaith trafnidiaeth ac economaidd cyfan. Ymhlith y prosiectau mae hyrwyddo Hyb Teithio Integredig yng Nghaerdydd, uwchraddio Gorsaf Gyffredinol Wrecsam, a dyfodol gwasanaethau bysiau yn Rhanbarth Dinas Caerdydd.

Mae cyllideb net Seilwaith Eiddo o £4.026m yn cefnogi portffolio cytbwys o safleoedd ac adeiladau modern sy'n bodloni gofynion cynaliadwyedd ar gyfer ein cenedlaethau i ddod, ac a all fodloni amserlenni cwmnïau o ran eu meddiannu. Mae'r Cynllun yn tanlinellu pwysigrwydd sicrhau bod digon o eiddo a safleoedd cyflogaeth ar gael i gynnig mantais gystadleuol wrth ddenu busnesau i Gymru. Nod y Cynllun yw cyflenwi 900,000 o droedfeddi sgwâr o eiddo busnes modern dros raglen dreigl tair blynedd, gan adlewyrchu blaenoriaethau rhanbarthol Cymru gyfan. Yn 2020-21 roedd dyraniad afreolaidd o £23.4m ar gyfer y portffolio eiddo o £5m a Tirion Homes o £18.4m er mwyn cyflawni tri chynllun preswyl ym Melin Trelái, Caerdydd; Whiteheads yng Nghasnewydd, a Pharc Eirin yn Nhonyrefail.

## 5.4 Cam Gweithredu Rhaglenni Corfforaethol

| BEL | Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000 | Newid | Newid % |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu Polisïau Strategol | 450 | 450 | 0 | 0% |
| Cymru Iach ar Waith | 831 | 831 | 0 | 0% |
| Rhaglenni a Gwasanaethau Corfforaethol | 861 | 861 | 0 | 0% |
| Digwyddiadau Busnes Strategol a Chyfathrebu | 200 | 200 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **2,342** | **2,342** | **0** | **0%** |

Mae cyllideb Cymru Iach ar Waith o £0.831m yn cynnal mentrau yn y gweithle i gefnogi'r uchelgeisiau iach ac egnïol a nodir yn *Ffyniant i Bawb*. Mae'r cyllid yn cynnwys £0.052m ar gyfer llinyn cyflogwyr Cam 3 o raglen Amser i Newid Cymru

Mind Cymru, sy'n herio agweddau ac ymddygiadau negyddol yn y gweithle tuag at broblemau iechyd meddwl.

Mae gweddill y gyllideb refeniw yn cefnogi dadansoddiadau economaidd, adolygiadau a gwaith ymgysylltu strategol.

## 6.0 YR ECONOMI – POLISÏAU ALLWEDDOL

Darparwyd gwybodaeth ychwanegol mewn ymateb i'r meysydd penodol a amlygwyd gan y Pwyllgor fel a ganlyn:

### 6.1 Cynllun Gweithredu ar yr Economi (yn cynnwys ystyried Brexit a'r Pandemig)

Mae COVID-19 wedi effeithio ar yr economi a'r farchnad lafur mewn ffordd nas gwelwyd o'r blaen, gan greu gryn gythrwfl, ac arwain at leihad sylweddol yn nifer y bobl gyflogedig, nifer yr oriau y maent yn eu gweithio a nifer y swyddi gwag sydd ar gael. Ar ben hyn, daw'r cyfnod pontio o'r UE i ben ar 31 Rhagfyr 2020. O 1 Ionawr 2021, bydd y DU wedi gadael Marchnad Sengl yr UE ac ni fydd modd manteisio mwyach ar y fasnach ddi-dor mewn nwyddau a gwasanaethau ag aelod-wladwriaethau'r UE. Mae'r effeithiau yn fawr iawn i fusnesau a gweithwyr yn y sector gweithgynhyrchu, sy'n cynrychioli cyfran fwy o faint o economi Cymru na rhannau eraill o'r DU. Bydd archwiliadau ar y ffin a gofynion gweinyddol newydd – yn ogystal â phatrymau mewnfudo gwahanol a newidiadau i ddulliau cyllido dros amser sydd wedi bod o fudd i fusnesau a'r economi ehangach.

Mae COVID-19 ac Ymadael â'r UE yn bygwth gwrthdroi'r cynnydd a wnaed gennym i leihau diweithdra ac anweithgarwch economaidd yng Nghymru dros y degawd diwethaf, gyda'r effaith fwyaf ar yr unigolion hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, megis pobl anabl.

Caiff cyfran fawr o'n cymorth i fusnesau ei ddarparu gan ddefnyddio cyllid yr UE ac nid yw gwarant Llywodraeth y DU ar gyfer rhaglenni a ariennir gan yr UE (os bydd Brexit heb gytundeb yn digwydd) ond yn cwmpasu cyllid dros oes prosiect os caiff cais llwyddiannus ei wneud cyn diwedd 2020. Mae popeth yn ansicr ar ôl hynny ac rydym yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i gadarnhau cyllid olynol i gymryd lle ein Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

Wrth i ni symud ymlaen, rydym yn canolbwyntio fwyfwy ar farchnad fewnol y DU ar ôl Brexit a chytundebau masnach yn y dyfodol. Rydym yn gweithio i ddatblygu blaenoriaethau ar gyfer y negodiadau hyn sy'n seiliedig ar dystiolaeth economaidd a blaenoriaethau polisi yn y dyfodol.

Mae'r llwybr tuag at adferiad economaidd Cymru yn adeiladu ar y Cynllun. Llywiodd raglen datblygu economaidd sy'n buddsoddi mewn pobl a busnesau, ac yn hyrwyddo ffyniant ac yn lleihau anghydraddoldeb ledled Cymru. Rydym wedi gwneud cynnydd cynnar yn codi proffil a heriau'r Economi Sylfaenol, gan flaenoriaethu cyllid o £3m, ond cydnabyddwn fod mwy i'w wneud i ehangu a phwysoli'r dull gweithredu. Mae mentrau allweddol eraill yn hanfodol i gefnogi'r agenda ar gyfer yr economi, gan gynnwys *Cymru Carbon Isel*, *Cymraeg 2050*, y Cynllun Cyflogadwyedd a'n hagenda Gwaith Teg, sy'n rhedeg drwy'r holl ymyriadau. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i fframwaith ehangach yn parhau i gynnig ffordd Gymreig unigryw o fynd i'r afael â'r heriau hirdymor sy'n wynebu ein pobl a'n planed. Mae'n llywio ein dull ailadeiladu, gan sicrhau adferiad seiliedig ar

werthoedd. Mae'r *Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol*, sy'n seiliedig ar wersi a ddysgwyd dros 20 mlynedd o bolisi cydlyniant yr UE, yn nodi llwybrau i wneud y defnydd gorau o gyllid amnewidiol oddi wrth Lywodraeth y DU yn rhanbarthol.

Ein bwriad yw creu Cymru sy'n gosod llesiant a lles fel ei phrif ddiben, a sicrhau adferiad economaidd ffyniannus, gwyrdd a chyfartal sy'n cydnabod pa mor bwysig yw hi i fuddsoddi mewn pobl a lleoedd.

Mae'r nod o sicrhau llesiant pawb yng Nghymru wedi bod yn sail i'n hymateb i'r pandemig, a dyma fydd egwyddor sylfaenol ein hadferiad economaidd a'r ymdrech i ailadeiladu. Mae'r cymorth penodol a roddwyd i helpu busnesau drwy'r pandemig, a'u helpu i adfer wedyn, wedi cynnwys:

- Ein Cronfa Cadernid Economaidd i Gymru yn unig sy'n werth miliynau o bunnoedd ac sydd bob amser wedi ceisio nodi bylchau cynlluniau Llywodraeth y DU ac yna geisio eu llenwi yma yng Nghymru.

- Gan ddilyn egwyddorion darparu gwell cymorth, cyhoeddwyd [£140m ychwanegol o gymorth i fusnesau] i'w helpu i ateb heriau economaidd COVID-19 ac ymadael â'r UE. Darparwyd mwy o gymorth wedyn i helpu busnesau drwy'r cyfnod atal byr diweddar a'r cyfyngiadau cyn y Nadolig.

- Mae egwyddorion y Contract Economaidd wrth wraidd ein Cronfa Cadernid Economaidd, ac mae ein hymrwymiad pendant i sicrhau buddsoddiadau â diben cymdeithasol wedi arwain at weld mwy o ymrwymiad gan fusnesau i egwyddorion y Contract – gyda mwy na 4,000 bellach wedi ymrwymo i'r egwyddorion, o gymharu â 385 cyn COVID-19.

- Yn arbennig, rydym yn awyddus i ganolbwyntio ar helpu busnesau, yn enwedig y rhai yn yr economi carbon isel, i ddiogelu a chreu swyddi da, mewn cymunedau lleol. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol ag undebau llafur a chyflogwyr er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar ein contract economaidd – dull 'rhywbeth am rywbeth' sydd â chyfiawnder cymdeithasol wrth ei wraidd.

- Cydnabyddir bod hwn yn gyfnod anodd i fusnesau ac mae'r galw mawr am y Grantiau Datblygu Busnes, gwerth cyfanswm o £100m, a ddarparwyd fel rhan o drydydd cam ein Cronfa Cadernid Economaidd yn tanlinellu hyn. Er y bu angen cau'r broses gwneud cais ar gyfer y grantiau hyn oherwydd yr holl geisiadau a gafwyd, mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi neilltuo cyllid ar gyfer pedwerydd cam y Gronfa Cadernid Economaidd i gefnogi busnesau a chyflogeion. Rydym wrthi'n datblygu dull i fusnesau fynegi diddordeb yn y gronfa honno yn yr wythnosau nesaf a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb drwy wefan Busnes Cymru.

## 6.2 Datblygu Economaidd Rhanbarthol

Cafodd tri thîm rhanbarthol eu creu yn 2019 ac, ar y cyd â rhanddeiliaid rhanbarthol, maent yn datblygu'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol er mwyn helpu i hwyluso gwaith ar y cyd a nodi cyfres o flaenoriaethau economaidd cyffredin ar gyfer y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Y bwriad yw y bydd y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol cael eu cynllunio a'u gweithredu ar y cyd

â'r partneriaid rhanbarthol ac a fydd yn gallu llywio datblygiad a gwaith y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol arfaethedig.

### Rhanbarth y Canolbarth a'r De-orllewin

Mae partneriaethau cryf ag awdurdodau lleol, arweinwyr busnes, y trydydd sector, y byd academaidd a chyrff cyhoeddus eraill wedi hwyluso cyd-gynllunio a llunio fframweithiau economaidd rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru a Dinas Ranbarth Bae Abertawe.

Mae timau busnes wedi cael eu had-drefnu ar sail olion troed rhanbarthol er mwyn sicrhau mwy o gydweithio a chysoni gweithgarwch at ddiben twf economaidd er mwyn creu cymunedau busnes cadarn. Wrth i'r cydweithio ar y fframweithiau rhanbarthol ddatblygu, byddwn yn manteisio'n llawn ar y cyfle i gysoni gweithgarwch, adnoddau a, lle y bo'n bosibl, waith ar y cyd fel rydym yn ei wneud gyda Chyngor Sir Powys i gydleoli adnoddau. Mae datblygu bargeinion dinesig a thwf yn greiddiol i'r cydweithio hwn.

### Rhanbarth y De-ddwyrain

Mae'r tîm rhanbarthol wrthi'n llunio dogfen fframwaith gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan ystyried goblygiadau Cydbwyllgorau Corfforaethol ar gyflawni economaidd ar yr un pryd a'r diffyg eglurder ynghylch cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Bydd y ddogfen hon yn amlinellu ein dull o gyflawni uchelgeisiau a rennir ar gyfer y de-ddwyrain. Hefyd, cafwyd cytundeb â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a phartneriaid rhanbarthol i gydgynllunio a chyd-ddatblygu cynllun adfer economaidd rhanbarthol ar y cyd, sy'n seiliedig ar le, ynghyd â fframwaith economaidd rhanbarthol dilynol.

### Gogledd Cymru

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, mae'r gwaith o gydgynllunio Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn canolbwyntio ar bedwar pecyn ysgogi sy'n rhychwantu'r byrdymor a'r hirdymor:

- **Ymateb Cyflym** - cydweithio rhwng ALlau a Llywodraeth Cymru (gan gynnwys gwneud hynny drwy dasglu) i sicrhau y cynigir cymorth priodol ac unedig i fusnesau, gan gynnwys sgiliau a chyflogaeth.
- **Bargen Twf y Gogledd** - fe'i harweinir gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n brydlon, gan ddisgwyl cael cytundeb bargen llawn erbyn diwedd 2020.
- **Gwaith Cynllunio Adfer Rhanbarthol** - ffocws y grŵp gwaith adfer economaidd rhanbarthol yw diffinio, yn seiliedig ar dystiolaeth leol a rhanbarthol o effeithiau COVID-19, flaenoriaethau i lywio pecynnau cymorth cenedlaethol ar y cyd ag anghenion rhanbarthol penodol.
- **Fframwaith Economaidd Rhanbarthol** - ar y cyd, mireinio Gweledigaeth Twf bresennol y gogledd, a chydgynllunio a chyd-ddatblygu Fframwaith Economaidd Rhanbarthol.

## 6.3 Cronfa Dyfodol yr Economi a Chymorth Busnes Arall

Gwnaeth Cronfa Dyfodol yr Economi gydgrynhoi'r cronfeydd canlynol:

- Buddsoddi Cyfalaf a Chymorth i Greu Swyddi
- Cyllid Cynhyrchu Creadigol
- SMART Cymru
- Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth
- Cynllun Amddiffyn yr Amgylchedd
- Cronfa Ad-daladwy i BBaChau

Dylid nodi bod y cyllid ar gyfer cynhyrchu creadigol a’r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth wedi’i gynnwys yn y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg. Ystyrir cyllid megis Grantiau Datblygu Eiddo i'w gydgrynhoi yn y dyfodol.

Ers ei lansio yn 2018 a hyd at ddiwedd mis Tachwedd 2020, mae 326 o gynigion gwerth cyfanswm o £76.7m wedi cael eu derbyn o dan Gronfa Dyfodol yr Economi.

Yn y portffolio ceir rhaglenni ategol megis y Rhaglen Sgiliau Hyblyg, sydd wedi'i theilwra i gefnogi busnesau ledled Cymru ac sydd wedi'i chynllunio i ategu gwaith datblygu busnes a datblygu economaidd. Mae'n cefnogi prosiectau datblygu busnes a phrosiectau mewnfuddsoddi ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth lefel uchel a llwybrau gyrfa datblygiadol ar gyfer cyflogeion mewn meysydd fel Peirianneg Uwch a Sgiliau Gweithgynhyrchu a'r Clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd.

## 6.4 Cynlluniau Economi Sylfaenol

Yn ystod y pandemig, dangosodd yr Economi Sylfaenol y rôl hanfodol y mae'n ei chwarae wrth gefnogi cadernid lleol yn wyneb effeithiau allanol. Fel blaenoriaeth ar y cam adfer, mae'n darparu'r swyddi sydd wrth wraidd cymunedau lleol ymhob sector megis gwasanaethau gofal ac iechyd; bwyd; tai; ynni; twristiaeth; adeiladu a manwerthwyr ar y stryd fawr gan gyfrif am bedair o bob deg swydd, a £1 am bob £3 a gaiff ei gwario.

Yn 2021-22 defnyddir cyllid ychwanegol o £3m i ariannu prosiectau a fydd yn cynnig canlyniadau cyflym ar draws ein blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Sylfaenol, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol, adeiladu a chaffael. Er enghraifft, mesur prosiectau a fydd yn mynd i'r afael â phroblemau recriwtio a chadw o fewn gofal cymdeithasol, gan alluogi'r gweithlu hwnnw i fwynhau gwell amodau cyflogaeth a gwell cyflogau; datblygu model rheoli gwasanaethau meddygon teulu cydweithredol gofal cymunedol, sydd wedi arwain at welliannau clir i brofiad a llesiant cleifion, ac sydd wedi lleihau atgyfeiriadau brys yn sylweddol; prosiectau hybiau cymunedol er mwyn helpu i adfywio'r stryd fawr a phrosiectau sydd wedi helpu i gynyddu gwerth cymdeithasol caffael i'r eithaf, gyda'r nod o gynyddu nifer y cwmnïau sydd â'u gwreiddiau mewn cymunedau lleol.

Bydd y cyllid hwn yn ategu £3m arall i adfywio canol trefi er mwyn creu a diogelu swyddi. Bydd datblygiadau digidol, pecynnau cymorth ac asesiadau o ganol trefi yn hanfodol i waith datblygu polisi.

## 6.5 Cronfa Her yr Economi Sylfaenol

Y 52 o brosiectau o fewn y Gronfa Her a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019, gyda digwyddiad lansio y mis canlynol i ddwyn yr holl brosiectau ynghyd, cyn cychwyn eu cynlluniau cyflawni.

Mae COVID-19 wedi cael effaith ar nifer mawr o brosiectau, ac mae llawer wedi gorfod addasu i weithredu'n ddigidol. Cafodd y Gymuned Ymarfer ei gohirio hefyd, ac fe'i sefydlwyd ym mis Gorffennaf. Cyn hyn, cefnogodd swyddogion fesurau cydweithio a rhannu profiad drwy ddwyn prosiectau tebyg ynghyd mewn meysydd fel caffael, gofal cymdeithasol, manwerthu a datblygu sgiliau.

Er gwaethaf effaith andwyol COVID-19, mae canlyniadau cadarnhaol bellach yn cael eu gweld, gan gynnwys er enghraifft:

- Menter gymdeithasol wedi'i sefydlu yn Rhondda Cynon Taf i gynnig y gallu i dendro i fusnesau micro a bach sydd am dendro am waith gofal cymdeithasol – mae 60 o fusnesau lleol yn cael budd o'r gwasanaeth hwn;

- Mae llwyfan digidol, agored wedi cynnwys 1,600 o BBaChau, gan arwain at bron 1,800 o syniadau i ateb heriau'r Economi Sylfaenol i BBaChau. Hefyd, mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi cadarnhau bod dros £6.5m o gynhyrchion wedi cael eu caffael gan y GIG oddi wrth gyflenwyr sy'n defnyddio'r llwyfan hwn. Mae hyn yn cynhyrchu tua £34m o werth ychwanegol gros i Gymru;

- Mae menter gymdeithasol sy'n darparu gwasanaethau sganio dogfennau wedi ennill nifer o gontractau cyhoeddus newydd. O'r herwydd, mae ei throsiant uwchlaw'r lefel a welwyd yr amser hwn y llynedd;

- Mae 75 o bobl ifanc wedi cael cymorth i gael profiad gwaith fel rhan o raglen prentisiaethau adeiladu a rennir, ac mae cwmpas y gwaith hwn wedi'i ymestyn fel y bydd mwy na 120 o bobl ifanc wedi cael budd o'r prosiect pan ddaw i ben.

Am weddill 2020-21, byddwn yn canolbwyntio ar rannu arferion da o'r prosiectau fel bod modd eu hail-greu ledled Cymru.

## 6.6 Banc Datblygu Cymru

Mae Banc Datblygu Cymru yn sefydliad conglfaen ar gyfer buddsoddiadau a chymorth busnes. O ystyried ei faint a'i arbenigedd, gyda mwy na £500 miliwn i gefnogi busnesau yng Nghymru, mae mewn sefyllfa dda i ateb yr heriau ac achub ar y cyfleoedd y mae'r economi yn eu hwynebu, a gwneud Cymru yn fwy ffyniannus a diogel. Yn ystod 2020-21, mae'r Banc wedi chwarae rhan allweddol yn yr ymateb i argyfwng COVID-19, gan weithredu Cynllun Benthyciadau Busnes Cymru COVID-19, sydd wedi helpu dros 1,300 o fusnesau yng Nghymru, gan rannu £92 miliwn. Bydd hyn yn parhau fel rhan o Gynllun Ail-greu ac Adfer COVID-19 2021-22. Mae'n adolygu amodau'r farchnad yn barhaus a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag ef i archwilio cynhyrchion a chymorth, a fydd yn cynnig y budd mwyaf posibl i fusnesau yng Nghymru yng nghyd-destun cymorth ehangach COVID-19 gan Lywodraeth y DU.

Yn 2019-20, cyflawnodd Banc Datblygu Cymru y canlynol:

- gwneud 457 o fuddsoddiadau, y nifer mwyaf erioed, a oedd yn gyfanswm o £103.3 miliwn

- sicrhau £76m o fuddsoddiad ychwanegol gan fanciau a chyllidwyr eraill yn y sector preifat
- cyfalaf twf o £179m yn economi Cymru
- creu neu ddiogelu 3,964 o swyddi yng Nghymru
- rhannu buddsoddiad yn gytbwys ledled Cymru, gyda £38.7m wedi'i fuddsoddi yn y de, £34.3m yn y canolbarth a'r gorllewin, a £30.4m yn y gogledd.

Ers ei sefydlu yn 2001 hyd at ddiwedd 2019-20 (ffigurau 31 Mawrth 2020), mae Cyllid Cymru / Banc Datblygu Cymru wedi cyflawni:

- £0.7bn o fuddsoddiad uniongyrchol mewn busnesau yng Nghymru
- £0.9bn o drosoledd yn y sector preifat
- £1.6bn o fuddsoddiad yn economi Cymru
- 56,629 o swyddi wedi'u diogelu neu eu creu

Hefyd yn 2020-21, mae Gweinidogion Cymru wedi gwella Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru i helpu busnesau i oresgyn unrhyw anawsterau hylifedd yn deillio o ddiwedd y Cyfnod Pontio o'r UE o 1 Ionawr 2021, drwy gytuno i:

- Gynyddu maint y Gronfa i £167m.
- Cynnig hyblygrwydd newydd i fusnesau, gan gynnwys cynyddu'r uchafswm benthyciad o £5 miliwn i £10 miliwn; ac ymestyn cyfnodau benthyciadau o 10 i 15 mlynedd.
- Bydd y cyfalaf mwy amyneddgar hwn yn helpu llif arian parod rhai busnesau sydd angen ailstrwythuro eu dyledion a lleihau costau gwasanaethu dyledion parhaus.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Banc Datblygu Cymru.

### 6.7 Y Banc Cymunedol/cefnogi Banc Cambria

Mae polisi'r Banc Cymunedol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Yr amcanion polisi yw:

- sefydlu Banc Cymunedol Cymru gyda'i aelodau yn berchen arno, ar sail un aelod un bleidlais.
- cynnig cyfrifon cyfredol i drigolion lleol, ni waeth beth fo'u hincwm na'u cyfoeth, gan fynd i'r afael â'r premiwm tlodi.
- lleoli pencadlys y Banc, a'i ganghennau, yng Nghymru. Daw'n brif sefydliad yng Nghymru, sydd yma heddiw ac yn y dyfodol.
- cynnig gwasanaeth bancio wyneb yn wyneb i gwsmeriaid lleol a busnesau bach. Gwneir penderfyniadau am fenthyciadau gan staff medrus a phrofiadol, nid ffurflen gyfrifiadurol
- bod yn gyflogwr cyflog byw, gydag uchafswm cymhareb sefydlog rhwng y gweithwyr ar y cyflog mwyaf a lleiaf.
- gweithredu cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn, gan gwmpasu Cymru gyfan ar ôl etholiad nesaf y Cynulliad.

Ers 2019-20, mae Cambria Cydfuddiannol Limited (CCL) wedi cael dau grant sbardun gwerth cyfanswm o £0.165m. Disgwylir y cynnig diweddaraf yn fuan.

### 6.8 Ardaloedd Menter, Ardaloedd Twf Lleol ac Ardaloedd Gwella Busnes

Mae'r wyth Ardal Fenter a leolir ledled Cymru yn sbarduno datblygu rhanbarthol ac yn gwneud economi Cymru yn fwy cystadleuol. Mae pob ardal yn ymatebol i economïau lleol ac yn canolbwyntio ar gyfleoedd tymor hwy sy'n gysylltiedig â chreu cyfleoedd gwaith cynaliadwy.

Mae cyllid refeniw o £0.77m yn cael ei ddarparu yn 2021-22 ar gyfer y rhaglen Ardaloedd Menter. Mae hyn yn cynnwys cyllid i gefnogi'r gweithgareddau a amlinellir yn y cynlluniau strategol a gynhyrchir ar gyfer pob Ardal Fenter, gan gynnwys astudiaethau dichonoldeb a datblygu achosion busnes, yn ogystal â chyllido prosiectau refeniw bach i gyflawni amrywiaeth o brosiectau sy'n gysylltiedig â phob Ardal. Nid oes dyraniad cyfalaf dynodedig i'r rhaglen ei hun, gan fod unrhyw fentrau wedi'u hymgorffori yn y broses gyflawni gan ddefnyddio cyllidebau Datblygu Busnes a Datblygu Seilwaith Strategol.

Caiff diweddariad ar gynnydd prosiectau allweddol yn yr Ardaloedd Menter ei gyhoeddi ac mae adroddiad arall wrthi'n cael ei lunio ar hyn o bryd.

### 6.9 Cymorth Allforio a Mewnfuddsoddi

Mae'r *Strategaeth Ryngwladol* a'r *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* yn atgyfnerthu'r ymrwymiadau i dyfu economi Cymru drwy gynyddu allforion a denu mewnfuddsoddi. Mewn blynyddoedd diweddar, mae perfformiad allforio cadarnhaol wedi gwneud cyfraniad sylweddol at yr economi, gydag allforion nwyddau Cymreig yn werth £17.8bn yn 2019; yn 2018, roedd allforion nwyddau yn cyfateb i 23% o gynnyrch domestig gros Cymru. Yn yr un modd, arweiniodd y gallu i ddenu buddsoddiad uniongyrchol o dramor dros y pum mlynedd diwethaf at 352 o brosiectau, gan greu a diogelu dros 30,000 o swyddi o ganlyniad i fuddsoddi o dramor yng Nghymru.Yn ystod y cyfnod hwn, mae o leiaf £3.7bn wedi'i fuddsoddi yng Nghymru gan gwmnïau o dramor, gyda tua 1,345 o gwmnïau o dramor yng Nghymru bellach, sy'n cyflogi mwy na 169,000 o bobl. Er hyn, mae effaith COVID-19 ar yr economi fyd-eang, ynghyd ag ansicrwydd ynghylch cydberthnasau masnachu â'r UE yn y dyfodol wedi cael effaith sylweddol ar allforion a mewnfuddsoddi.

Mae ffigurau dros dro diweddaraf Cyllid a Thollau EM ar gyfer y flwyddyn hyd at C3, 2020 yn dangos bod gwerth allforion nwyddau Cymreig wedi lleihau 19.7%, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Er i holl wledydd y DU weld y fasnach mewn nwyddau yn crebachu, allforion o Gymru a welodd y lleihad mwyaf o blith unrhyw ran o'r DU. Mae'r argyfwng hwn, ynghyd â'r gwaith parhaus o baratoi busnesau i fasnachu â'r Undeb Ewropeaidd (ein marchnad allforio fwyaf) yn dilyn y cyfnod pontio, yn creu 'storm berffaith' i allforwyr yng Nghymru. Fodd bynnag, mae allforion yn allweddol i dwf ac adferiad economaidd, o ystyried ein bod yn gwybod eu bod yn rhoi hwb i dwf economaidd drwy gyfrannu'n uniongyrchol ar gynnyrch domestig gros; mae busnesau sy'n allforio nwyddau tua 20% yn fwy cynhyrchiol na busnesau nad ydynt yn masnachu'n rhyngwladol; ac mae gwella cynhyrchiant yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy o fewn busnesau a'r economi ehangach. Mae allforion hefyd yn hanfodol i economi gadarn, gan helpu i wrthbwyso dirywiad yn y farchnad ddomestig. Dyrannwyd £1.6m ychwanegol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Allforio newydd, a gyhoeddwyd ar 15 Rhagfyr (yn: Cynllun Allforio ) .

O ran mewnfuddsoddi, mae sefydliadau byd-eang (gan gynnwys UNCTAD ac OECD) yn rhagweld effaith sylweddol iawn ar lifau buddsoddi byd-eang, gan leihau rhwng 40% a 50% yn ystod y flwyddyn, gydag effaith debygol ar flynyddoedd dilynol hefyd. Mae hyn yn digwydd ar adeg pan fo mewnfuddsoddi i'r DU eisoes wedi

lleihau ers y penderfyniad i ymadael â'r UE yn 2016. Bydd parhau i ddenu buddsoddiadau yn cyfrannu'n sylweddol ar yr economi o ystyried y bydd buddiannau trosglwyddo gwybodaeth, arwain arloesedd, datblygu sgiliau a'r gadwyn gyflenwi yn arwain at fwy o gadernid wrth inni ymadfer. Mae ein dull o hyrwyddo Cymru o ran mewnfuddsoddi wedi ailganolbwyntio ar fuddsoddi a arweinir gan gyfleoedd, a'r rhannau hynny o'r economi lle y gall Cymru ddangos ei bod o'r radd flaenaf, gan gynnwys o ran lled-ddargludyddion cyfansawdd, technoleg ariannol, seiberddiogelwch, ynni morol, ac agweddau penodol ar wyddor bywyd megis meddygaeth aildyfu, niwrowyddoniaeth a thechnoleg feddygol. Fel rhan o hyn, cyflawnir rhaglen ymgysylltu helaeth â'n swyddfa dramor, rhwydweithiau ehangach (yn cynnwys yr Adran Masnach Ryngwladol), clystyrau diwydiant hanfodol a rhanddeiliaid er mwyn addysgu a chodi proffil cyfleoedd buddsoddi yng Nghymru.

## 6.10 Cefnogi clystyrau diwydiant hanfodol megis awyrofod, modurol, dur a thechnolegau datblygol

Ystyrir ceisiadau o dan delerau ac amodau Cronfa Dyfodol yr Economi ac fe'u gwerthusir ar sail gwerth am arian. Nid oes cyllid ar gyfer diwydiannau penodol. Rhoddir diweddariad yn y cyd-destun a'r cyfraniad at y pandemig.

### Awyrofod

Yn sgil COVID-19, bu 66% yn llai o Gilometrau Teithwyr Refeniw oherwydd pryderon iechyd a chyfyngiadau'r llywodraeth. Mae'r sgil-effaith wedi achosi cryn amharu drwy'r gadwyn gwerth, gan effeithio ar gwmnïau awyrennau, gweithgynhyrchwyr a'u cadwyni cyflenwi, a'r ôl-farchnad. Mae hefyd wedi cael effaith ddifrifol ar y diwydiant twristiaeth. Yn ôl y rhagolygon, ni welir lefelau cynhyrchu cyn COVID-19 yn dychwelyd cyn 2025.

### Modurol

Yn Ch3 2020, lleihaodd cynhyrchiant ceir yn y DU -35.9% y tu ôl i lefelau 2019, gyda 632,834 o gerbydau yn cael eu hadeiladu. Mae'r rhagolwg annibynnol diweddaraf yn disgwyl i'r DU gynhyrchu llai na 885,000 o geir eleni – y tro cyntaf i'r niferoedd fod o dan filiwn ers 2009.

Yn anffodus, mae'r heriau y mae'r sector wedi'u hwynebu ers 2018 wedi cael effaith anghymesur ar Gymru (o gymharu â rhannau eraill o'r DU) – llai o alw byd-eang, effaith Brexit, y sgandal diesel, hyder defnyddwyr ynghylch newid o ffynonellau confensiynol i allyriadau carbon is, a COVID-19. Mae Fforwm Modurol Cymru yn amcangyfrif bod neu y bydd o leiaf 4,110 o swyddi crefftus, sy'n talu'n dda, wedi'u colli o'r is-sector gweithgynhyrchu strategol bwysig hwn. Mae'n bartner allweddol sy'n gweithio gyda Llywodraeth y DU a chyrff cynrychioliadol diwydiant y DU i gefnogi'r sector, yn enwedig achub ar gyfleoedd trydaneiddio.

### Dur

Mae'r sector dur yn dal i brofi llai o weithgarwch yn sgil y pandemig, o ganlyniad i'r dirywiad modurol. Mae'r diwydiant adeiladu wedi parhau i fod yn gymharol gryf er gwaethaf y lleihad ledled Ewrop. Rydym yn ymgorffori Siarter Dur y DU i sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl. Llywodraeth Cymru oedd y cyntaf i lofnodi Siarter Dur y DU, sy'n ategu ein Nodyn Cyngor cynharach ar Gaffael drwy annog prosiectau yng Nghymru i ddefnyddio dur o Brydain o'r ansawdd uchaf, a mwynhau buddiannau

gwneud hynny, lle bynnag y bo modd. Yn ogystal â chydymffurfio â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus, rydym wedi cynnwys amod cyfreithiol gorfodol ychwanegol yn ein holiadur cyn cymhwyso ar gyfer tendrau na ddylid defnyddio unrhyw ddur wedi'i ddympio mewn unrhyw gontract a roddir gan gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae datgarboneiddio yn her allweddol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU drwy'r Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol, clwstwr Diwydiannol De Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ystyried dulliau datgarboneiddio diwydiannol rhanbarthol.

## Adeiladu

Yn 2018, roedd y sector adeiladu yng Nghymru yn cyfrif am 7% o'r gweithlu yng Nghymru, ac roedd yn gyfrifol am 6% o werth ychwanegol gros. Mae'n cyflogi dros 100,000 o bobl ledled Cymru, ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn BBaChau neu'n ficrofusnesau. Mae hefyd yn brif ddarparwr prentisiaethau.
Yn ystod gwanwyn 2020, cafodd Fforwm Adeiladu Gweinidogol parhaus ei sefydlu ac mae wedi darparu llwyfan i randdeiliaid o'r diwydiant a Llywodraeth Cymru ymdrin â Chynllun Adfer ar gyfer y sector yn dilyn COVID-19, ei gefnogi a'i gyflawni. Bydd y Fforwm yn dwyn y ddau sector ynghyd i wella perfformiad o dan arweinyddiaeth un o Weinidogion Cymru. Nid yw'r Fforwm yn disodli nac yn ail-greu gwaith unrhyw grŵp, rhaglen na chyfarfod Gweinidogol sy'n bodoli eisoes.

## Lleoli Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) (Cadernid y Gadwyn Gyflenwi)

Yn sgil COVID-19, a'r gefnogaeth gadarnhaol a gynigiwyd gan ddiwydiant, cydnabyddir bod y gadwyn gyflenwi, yn enwedig yn y GIG, yn fregus. Mae'r grŵp Peirianneg Gofynion Cyfarpar Hanfodol, wedi'i arwain gan Diwydiant Cymru, wedi bod yn hanfodol wrth gydgysylltu gweithgarwch i gael gafael ar nifer o eitemau PPE hanfodol yn lleol.

## Technolegau Datblygol

Ym maes technoleg, mae angen i Gymru gadw i fyny â datblygiadau ledled y DU ac Ewrop. Mae sawl enghraifft o brosiectau yn cael eu datblygu i gefnogi hyn, megis Seiberddiogelwch Prifysgol Caerdydd sy'n arwain consortiwm i ddatblygu Hwb Seiberarloesedd. Bellach, caiff cynigion prosiect sy'n perthyn i feysydd 'digidol' a 'thechnoleg ddatblygol' eu cynnig i'w hardystio a'u cefnogi i'r Bwrdd Economi Ddigidol a ffurfiwyd yn ddiweddar.

## Diwydiant Cymru

Bu Diwydiant Cymru (DC) yn bartner allweddol yn ystod y pandemig, drwy nodi ffynonellau lleol amgen ar gyfer eitemau roedd eu hangen ar y GIG a oedd yn brin, megis PPE, peiriannau anadlu ac ocsifesuryddion. Gwnaethom weithio'n agos gyda'r byrddau iechyd, diwydiant, academia, timau meddygol, yr hwb gwyddorau bywyd, cyflenwyr a chyrff rheoleiddio iechyd i ddatblygu opsiynau amgen ar gyfer dod â'r gwaith o weithgynhyrchu PPE a datblygu unedau anadlu pwysedd positif

parhaus yn y llwybr anadlu yn ôl i Gymru. Ar y cyd â hyn, gweithiodd y fforymau'n agos gyda'u priod ddiwydiannau i ddeall effaith y pandemig ar eu sector, diwallu eu hanghenion, a rhoi gwybodaeth amserol am y farchnad a datblygiad y Cynllun Gweithredu ar Weithgynhyrchu i Lywodraeth Cymru.

Cafodd yr Athro Keith Ridgway ei benodi'n Gadeirydd interim Diwydiant Cymru ym mis Medi 2020.

## 6.11 Croeso i Gymru – Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025

Nod y strategaeth yw 'tyfu twristiaeth er budd Cymru' drwy uchelgais i gyflawni twf economaidd sy'n sicrhau budd i bobl a lleoedd gan gynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol a buddiannau iechyd. Mae'r sector twristiaeth a lletygarwch yn allweddol i'r economi sylfaenol, gan gynrychioli 6% o werth ychwanegol gros: mae hyn wedi tyfu'n sylweddol mewn blynyddoedd diweddar. Mae'r sector yn cyflogi mwy na 130,000 o bobl, gan gyfrannu at 10% neu fwy o swyddi mewn sawl ardal awdurdod lleol. Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddifrifol ar y sector, ond mae ganddo'r potensial i ymadfer mewn ffyrdd newydd a mwy cynaliadwy yn y dyfodol.

Mater i’r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yw penderfyniadau cyllidebol ym maes twristiaeth.

## 6.12 Bargeinion Dinesig a Thwf

Caiff cyllid Llywodraeth y DU ar gyfer pob Bargen ei reoli o fewn y MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, y mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn gyfrifol amdano.

### Bargeinion Twf ar y Cam Datblygu

### Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Mae cyllid Bargen Ddinesig Caerdydd yn £1.2bn dros 20 mlynedd. O hyn, neilltuir cyllid i gyfrannu at gyflawni prosiect Metro De-ddwyrain Cymru gwerth £734m, a chaiff ei reoli gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyllid Llywodraeth Cymru (£500m), Llywodraeth y DU (£100m) ac Ewropeaidd (£134m), sy'n gysylltiedig â thrydaneiddio Llinellau'r Cymoedd a chyllid Llywodraeth Cymru i gyflawni Cam 2 y Metro yn ehangach.

Mae cyllid Prifddinas Ranbarth Caerdydd o £495m yn cynnwys £375m o gyllid y Trysorlys a £120m o gyfraniadau awdurdodau lleol. Rhydd hyn gyllid Cronfa Fuddsoddi o dan reolaeth y rhanbarth i gefnogi ymyriadau mewn pum maes (seilwaith trafnidiaeth, arloesedd a seilwaith digidol, sgiliau, cymorth busnes, a thai ac adfywio).

Mae'r cyllid o £375m a ddarperir gan Drysorlys EM dros 20 mlynedd wedi'i broffilio;

- 2016-17 i 2020-21 cyllid refeniw o £10m y flwyddyn
- 2021-22 i 2030-31 cyllid refeniw o £22m y flwyddyn
- 2031-32 i 2035-36 cyllid refeniw o £21m y flwyddyn

Yn ddiweddar mae Bargen Ddinesig Caerdydd wedi cofnodi bod £144m o fuddsoddiad wedi'i addo hyd yn hyn, gyda buddsoddiad pellach o £144m ar gam datblygedig o'r broses arfarnu. Ar hyn o bryd, mae'r Fargen yn destun adolygiad cyntaf y porth pum mlynedd, ac mae'n bwynt lle gallai cyllid y Llywodraeth gael ei dynnu'n ôl. Bydd canlyniad yr adolygiad yn hysbys erbyn mis Mawrth

### Bargen Ddinesig Dinas Ranbarth Bae Abertawe

Dros y 15 mlynedd nesaf, mae Bargen Ddinesig Dinas Ranbarth Bae Abertawe, sy'n werth £1.2bn, yn anelu at roi hwb o £1.8bn i'r economi leol a chreu bron 10,000 o swyddi newydd. Caiff y Fargen ei hategu gan £125.4m o gyllid gan Lywodraeth Cymru, £115.6m o gyllid gan Lywodraeth y DU, a swm amcangyfrifedig o £591.79m o arian arall y sector cyhoeddus a £330.2m gan y sector preifat. Hyd yn hyn, mae Gweinidogion wedi rhyddhau £18m o gyllid rhaglen y Fargen Ddinesig, gyda £18 miliwn arall ar gael i brosiectau eraill o fewn y Fargen, ar yr amod bod y rhanbarth yn bodloni telerau ac amodau'r cam cyntaf.

Mae tri phrosiect wedi cael eu cymeradwyo, sef Yr Egin, yr Ardal Ddigidol ac Ardal Forol Doc Penfro, ac mae cynnydd da yn parhau i gael ei wneud ar Fargen Ddinesig Bae Abertawe, gyda 6 phrosiect arall yn cael eu datblygu, ac achosion busnes ar gamau amrywiol o aeddfedrwydd.Mae argymhellion Adolygiad Annibynnol Actica, a thelerau ac amodau'r cam cyntaf, wrthi'n cael eu paratoi gan Weinidogion. Hefyd, cwblhaodd y rhanbarth ddadansoddiad o effaith COVID-19 ar Raglen y Fargen Ddinesig.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni Bargen Ddinesig lwyddiannus ar gyfer Bae Abertawe, ac i weithio'n agos ac yn adeiladol â Llywodraeth y DU a'r rhanbarth yn hyn o beth.

### Bargen Twf y Gogledd

Mae Bargen Twf y Gogledd yn elfen bwysig o adferiad y rhanbarth yn y dyfodol, er mwyn inni allu gweld llif buddsoddi yn dechrau yn y rhanbarth yn 2021. Mae'n cynnig y cyfle i fuddsoddi £1bn, gan gynnwys y £120m a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Gwneir cynnydd da mewn perthynas â chytundeb y Fargen Derfynol, a disgwylir cymeradwyaeth derfynol ar y cyd â Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr eleni.

Mae'r economi wedi newid yn sgil COVID-19. Er bod prif gryfderau'r rhanbarth mewn meysydd fel carbon isel, uwch weithgynhyrchu a thwristiaeth yn parhau, efallai y bydd angen i'r gwaith o gyflwyno prosiectau a rhaglenni bargen newid.

Yr her yw manteisio i'r eithaf ar yr hyn sy'n debyg rhwng y rhaglenni fel bod modd sicrhau'r elw mwyaf am bob punt a fuddsoddir.

### Bargen Twf y Canolbarth

Yn yr haf, ymatebodd Gweinidogion y Llywodraeth yn ffurfiol i'r Cynllun Economaidd Strategol a'r Map Bargen Twf, gan ailategu eu hymrwymiad i'r Fargen yn y canolbarth. Mae'n gosod y Fargen Twf yng nghyd-destun strategaeth economaidd ranbarthol ehangach ar gyfer y canolbarth, gan gydnabod bod y Fargen Twf yn

sbardun twf. Mae'n debygol y cytunir ar Brif Delerau yn fuan, gan amlinellu ymrwymiad y ddwy Lywodraeth i gydweithio â'r partneriaid rhanbarthol i sicrhau cynnydd y Fargen Twf ar gyfer y canolbarth. Mae'n debygol y daw'r Cytundeb Bargen Terfynol i ben yn 2021. Bydd angen rhoi sicrwydd i lywodraethau mewn tair ffordd, sef bod systemau llywodraethu a sicrwydd priodol ar waith, bod achos busnes portffolio yn cael ei ddatblygu sy'n amlinellu'r hyn y mae'r rhanbarth yn bwriadu ei gyflawni a'r canlyniadau i'w cyflawni yn sgil camau ymyrryd, yn ogystal â chynllun ymgysylltu a chyfathrebu cynhwysfawr.

## 6.13 Mentrau Tasglu'r Cymoedd a Chymoedd Technoleg

Mae Ein Cymoedd Ein Dyfodol yn ymrwymiad maniffesto sy'n helpu cymunedau Cymoedd De Cymru i ddod yn fwy ffyniannus a chadarn drwy fentrau gwahanol, yn cwmpasu tai, addysg, iechyd a llesiant, treftadaeth, yr economi sylfaenol ac entrepreneuriaeth. Gwyddom fod cryn dipyn o amddifadedd a thlodi yn yr ardaloedd hyn, ac nid yw'r pandemig wedi helpu yn hynny o beth.

Disgwylir i Raglen Tasglu'r Cymoedd ddod i ben ym mis Mawrth 2021. Fodd bynnag, oherwydd effeithiau COVID-19 ar rai o'r prif gynlluniau cyfalaf, ni chyflawnir gwariant i roi'r Cynllun Grant Tai Gwag ar waith yn ei holl ffyrdd cymeradwy. Mae'r dyraniad o £9m yn 2021-22 yn sicrhau bod cannoedd o gartrefi yn cael eu hailddefnyddio ledled Cymoedd De Cymru. Mae'r Cynllun yn rhoi cyfleoedd i unigolion a theuluoedd ailwampio eu cartrefi eu hunain, eu gwneud yn fwy ynni effeithlon a thrwy hynny gyfrannu at y targedau carbon cyffredinol, a hefyd am ein bod yn annog defnyddio cwmnïau bach lleol i wneud y gwaith adfer, mae hefyd yn helpu'r economi sylfaenol leol.

Mae'r Rhaglen Mynediad wedi bod yn cynorthwyo unigolion yn Ardal Tasglu'r Cymoedd ers 3 blynedd ar ffurf beilot. Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn unol â ffocws newydd Tasglu'r Cymoedd, a gall nawr ehangu'r arlwy o dan frand hirsefydledig ReAct a'i gynnig ledled Cymru ar adeg mor dyngedfennol i'r economi. Ni fydd y newid yn rhoi neb dan anfantais, yn wir mae'n gwella rôl ReAct fel Rhaglen Cyflogadwyedd allweddol.

Ar hyn o bryd, o fewn menter Cymoedd Technoleg, mae nifer bach o brosiectau seilwaith o bwys ar gamau datblygu amrywiol, gan gynnwys prosiectau ym mharc Cyflogaeth Lime Avenue ac ar Ystad Ddiwydiannol Rassau.

## 6.14 Cymorth ar gyfer Awtomeiddio a Deallusrwydd Artiffisial

Mae’r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn cydnabod bod mwy o fusnesau a chyrff gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud defnydd cynyddol o dechnolegau digidol wrth ddarparu eu gwasanaethau ond bod angen i’r newid hwnnw ddigwydd yn gyflymach. Mae awtomeiddio a digidoleiddio ymhlith y ffactorau allweddol sy’n ysgogi cystadleurwydd a chynhyrchiant ac rydym yn gweithio gyda busnesau i gynyddu a chefnogi eu buddsoddiad mewn gweithgarwch o’r fath drwy’r Maes Gweithredu Ymchwil a Datblygu, Awtomeiddio a Digidoleiddio.

Ers ei lansio ym mis Mai 2018, drwy Gronfa Dyfodol yr Economi, rydym wedi cefnogi 159 o brosiectau gwerth dros £18.3m drwy’r Maes Gweithredu Ymchwil a Datblygu, Awtomeiddio a Digidoleiddio.

Bydd trawsnewid digidol yn chwarae rhan hollbwysig yn y ffordd y mae Cymru yn adfer ei hun ac yn ail-greu ei heconomi. Felly, rydym yn awyddus i gynnwys

digideiddio ym mhob rhaglen a maes cyflawni. O safbwynt dysgu seiliedig ar waith, rydym yn parhau i ehangu ein harlwy er mwyn cynnwys rolau digidol newydd, ac mae Prentisiaethau Gradd bellach i'w gweld mewn nifer o feysydd digidol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant i ddatblygu llwybrau pellach ac i gynnig cyfleoedd newydd i recriwtio drwy'r llwybr Prentisiaethau. Mae ein Cyfrifon Dysgu Personol (CDP) hefyd yn darparu llwybr i unigolion ddysgu sgiliau newydd mewn meysydd newydd; gan gynnig y dull hyblyg wedi'i deilwra a ragwelwyd gan adroddiad yr Athro Phil Brown Cyflawni trawsnewidiad economaidd ar gyfer gwell dyfodol gwaith. Caiff CDPau eu cefnogi gan y gwasanaethau gyrfaoedd a chyngor a ddarperir drwy Cymru'n Gweithio a Gyrfa Cymru.

Er mwyn ategu hyn, rydym hefyd yn cynnal amrywiaeth o raglenni cymorth sgiliau i ddiwallu anghenion uniongyrchol cyflogwyr, fel Rhaglen Sgiliau Hyblyg Cymru. Lle roeddem o'r farn bod angen ymateb annibynnol, cyflwynwyd ein prosiect cymorth Sgiliau Digidol Uwch ynghyd â'r rhaglen DigiTALent a lansiwyd yn ddiweddar, er mwyn rhoi cymorth i fusnesau sy'n awyddus i ddatblygu eu gallu a'u hadnoddau ym mhob maes o'r sbectrwm digidol. Mae rhaglen DigiTALent yn cynnig elfen newydd i'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg wedi'i hanelu at annog cyflogwyr i recriwtio unigolyn â gradd TG/Cyfrifiadureg/Digidol.

Yn ogystal â'r hyn y gall Llywodraeth Cymru ei ddarparu o fewn ei chyllidebau, rydym yn parhau i ddylanwadu ar y gwaith ar lefel y DU drwy sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol ym maes ymchwil ac arloesedd yn ategu cryfderau academia a chymunedau busnes Cymru. Mae hyn yn cynnwys y gefnogaeth sydd ei hangen gan gyllidwyr yn y DU ar gyfer y Cyflymydd Cenedl Ddata (DNA) arfaethedig; sef cynnig ar y cyd o dan arweiniad Prifysgolion Caerdydd, Abertawe, Aberystwyth a Bangor i gynyddu gallu Cymru i ymateb i heriau Deallusrwydd Artiffisial a Gwyddor Data yn y dyfodol i'r eithaf.

## 6.15 Gwariant Ataliol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae ein hymyriadau ar draws y portffolio Economi a Thrafnidiaeth yn defnyddio ymyrraeth sylfaenol, gan adeiladu cydnerthedd a chreu'r amodau i atal problemau yn y dyfodol. Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'r Cynllun Cyflogadwyedd yn seiliedig ar dystiolaeth mai gwaith â chyflog da yw'r llwybr gorau allan o dlodi a'r amddiffyniad mwyaf yn erbyn tlodi i'r rhai sy'n wynebu risg. Drwy gefnogi swyddi a thwf cynaliadwy a chymryd camau i geisio lliniaru rhai o'r heriau sy'n wynebu pobl wrth iddynt geisio cael swyddi, rydym yn ceisio lleihau'r tebygolrwydd y bydd teuluoedd yn profi tlodi ac osgoi costau hirdymor tlodi i'r gymdeithas. Rydym yn parhau i greu cyfleoedd i unigolion a theuluoedd drwy fentrau a buddsoddiad wedi'i dargedu ledled Cymru.

Rydym yn parhau i weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac arbenigwyr amrywiol i asesu'r ffordd rydym yn mynd i'r afael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn drawsgydweithredol ac wedi'i strwythuro ar sail saith o'r deuddeg amcan llesiant:

- Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant;
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg;
- Ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd;
- Meithrin uchelgais ac annog dysgu am oes;
- Grymuso pawb â'r sgiliau addas ar gyfer byd sy'n newid;
- Darparu seilwaith modern a chysylltiedig;

- Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd.

Mae hefyd yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio. Mae’r meysydd gweithredu a’r contract economaidd yn herio’r Llywodraeth a busnesau i edrych ar fuddsoddiadau yn y dyfodol yn nhermau’r cyfraniad y byddant yn ei wneud i arloesedd ac entrepreneuriaeth, ymchwil a datblygu ac awtomeiddio, allforion a masnach, cyflogaeth a sgiliau o ansawdd uchel, a datgarboneiddio. Dyma rai o’r heriau strategol allweddol y mae’n rhaid i ni fynd i’r afael â nhw er mwyn sicrhau twf heddiw, yn ogystal â diogelu’r twf hwnnw yn y dyfodol er mwyn sicrhau’r cyfleoedd gorau yn yr hirdymor.

## 7.0 TRAFNIDIAETH - CYLLIDO’R CAMAU GWEITHREDU

Er mwyn cefnogi'r uchelgais o seilwaith modern a chysylltiedig, ceir cyfanswm cyllid trafnidiaeth o £1.23bn yn 2021-22. Mae'r cyllid adnoddau, sef £535.127m, yn cynnwys cynnydd o £18.6m. Mae hyn yn cynrychioli cyllid COVID-19 penodol mewn perthynas â chymorth bysiau ar gyfer chwarter cyntaf 2021-22 er mwyn rhoi rhywfaint o sicrwydd i'r sector yn ystod y cyfnod lle mae cyfyngiadau yn debygol o barhau ac er mwyn rhoi hyder i'r sector.

Mae'r dyraniad cyfalaf o £694.981m yn cefnogi trefniadau i barhau â'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol presennol yn ogystal â gosod y sylfeini ar gyfer y ddogfen gyflenwi a fydd yn dilyn y cynllun hwnnw a gaiff ei llunio yng nghyd-destun Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru. Fodd bynnag, mae angen blaenoriaethu gweithgarwch a rheoli cyllidebau o hyd er mwyn sicrhau bod y cynlluniau sy’n rhan o’r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn fforddiadwy ac yn gyflawnadwy.

Ceir crynodeb o’r gyllideb trafnidiaeth yn y tabl isod:

| **Trafnidiaeth** | **Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22** | **Newid £’000** | **Newid %** |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Refeniw | 327,836 | 346,436 | 18,600 | 6% |
| Heb Fod yn Arian Parod | 188,691 | 188,691 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **516,527** | **535,127** | **18,600** | **3%** |

| **Trafnidiaeth** | **Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000** | **Cyllideb Llinell Sylfaen 2021-22 £’000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £’000** | **Newid £’000** | **Llinell Sylfaen Newid %** |
|---|---:|---:|---:|---:|---:|
| Cyfalaf Traddodiadol | 597,952 | 397,650 | 681,827 | 284,177 | 71% |
| Cyllid Trafodiadau Ariannol | 12,300 | 0 | 13,154 | 13,154 | 0% |
| **CYFANSWM** | **610,252** | **397,650** | **694,981** | **297,331** | **75%** |

Rhoddir esboniad o'r dadansoddiad manwl o'r Camau Gweithredu fesul BEL yn yr adrannau canlynol.

## 7.1 Camau Gweithredu Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd a Ffyrdd Domestig

| BEL | Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 | Newid £'000 | Newid % |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Asedau'r Rhwydwaith | 5,686 | 5,686 | 0 | 0% |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith | 65,298 | 65,298 | 0 | 0% |
| **Is-gyfanswm** | **70,984** | **70,984** | **0** | **0%** |
| **Heb Fod yn Arian Parod** | | | | |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith | 188,691 | 188,691 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **259,675** | **259,675** | **0** | **0%** |

| BEL | Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000 | Cyllideb Llinell Sylfaen 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000 | Newid £'000 | Llinell Sylfaen Newid % |
|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | | |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith | 81,579 | 82,000 | 96,497 | 14,918 | 18% |
| **CYFANSWM** | **81,579** | **82,000** | **96,497** | **14,918** | **18%** |

Mae dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ddarparu Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd diogel a dibynadwy yn erbyn ased gwerth £17 biliwn. Gan gydnabod pwysigrwydd gwaith rheoli, cynnal a chadw a gwella parhaus, ceir dyraniad cyfalaf ychwanegol o £14.918m. Caiff cyllidebau cynnal a chadw eu monitro'n gyson i sicrhau ein bod yn ymateb i waith adweithiol ac yn blaenoriaethu buddsoddiadau cyfalaf lle mae eu hangen fwyaf. Ceir rhagor o fanylion yn adran 8.7.

Yn ogystal â'r cyllid cyfalaf a ddarperir o dan y cam gweithredu hwn, caiff cyllid ar gyfer gwelliannau mawr i'r rhwydwaith presennol a chynlluniau ffyrdd mawr, sy'n ychwanegu at y rhwydwaith, ei ddarparu fel rhan o'r cyllid cyfalaf o dan y Cam Gweithredu Buddsoddi mewn Gwasanaethau Ffyrdd, Rheilffyrdd, Awyr a Môr, sy'n ymwneud â datblygu a darparu seilwaith ffyrdd.

## 7.2 Cam Gweithredu Buddsoddi mewn Gwasanaethau Ffyrdd, Rheilffyrdd, Awyr a Môr

| BEL | Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 | Newid £'000 | Newid % |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Hedfanaeth | 5,605 | 5,605 | 0 | 0% |
| Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol | 650 | 650 | 0 | 0% |
| Gwasanaethau Rheilffyrdd Ategol | 850 | 850 | 0 | 0% |
| Trafnidiaeth Cymru | 185,400 | 185,400 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **192,505** | **192,505** | **0** | **0%** |

| **BEL** | **Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000** | **Cyllideb Llinell Sylfaen 2021-22 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000** | **Newid £'000** | **Llinell Sylfaen Newid %** |
|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | | |
| Hedfanaeth | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 0 | 0% |
| Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol | 149,223 | 128,100 | 128,100 | 0 | 0% |
| Trafnidiaeth Cymru | 206,299 | 25,000 | 274,680 | 249,680 | 999% |
| **Is-gyfanswm** | **357,522** | **155,100** | **404,780** | **249,680** | **19%** |
| ***Trafodiadau Ariannol*** | | | | | |
| Hedfanaeth | 4,800 | 0 | 3,154 | 3,154 | 100% |
| **Is-gyfanswm** | **4,800** | **0** | **3,154** | **3,154** | **100%** |
| **CYFANSWM** | **362,322** | **155,100** | **407,934** | **252,834** | **163%** |

Mae'r gyllideb refeniw Hedfanaeth o £5.605m yn cynnwys gweithgareddau dros dro fel y Gwasanaeth Awyr o fewn Cymru, ystyried llwybrau Rhwymedigaethau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSO) eraill posibl a rheoli a chynnal a chadw Sain Tathan a'i faes awyr. Mae £2m o gyfalaf cyffredinol ar gael ar gyfer gwaith seilwaith ym Mro Tathan. Caiff proffil y gallu i dynnu arian ar gyfer y cyfleuster benthyciadau o ran buddsoddiadau parhaus ym Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig ei adlewyrchu yn y gyllideb – cyfalaf Trafodiadau Ariannol o £3.154m (2020-21 £4.8m).

Caiff cyfanswm cyllideb Trafnidiaeth Cymru, sef £460.080m, ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer prosiect y Metro a phrosiectau rheilffordd. Ceir gwybodaeth fanylach am y Fasnachfraint Rheilffyrdd, Rhaglen Trawsnewid Metro De Cymru a phrosiectau rheilffordd eraill yn adran 8.3 ac 8.4.

Mae'r gyllideb refeniw ar gyfer Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol, sef £0.650m, yn cefnogi gwaith cynllunio a gweithgareddau dichonoldeb ar gyfer prosiectau a ddaw'n brosiectau cyfalaf, ac mae £121.8m ar gael yn 2021-22. Ceir rhagor o fanylion ar gynlluniau cyfalaf sy'n bodoli eisoes yn adran 8.7.

## 7.3 Cam Gweithredu Teithio Cynaliadwy

| BEL | Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000 | Newid £'000 | Newid % |
|---|---|---|---|---|
| Cymorth Bysiau | 32,005 | 50,605 | 18,600 | 58% |
| Cardiau Clyfar | 1,466 | 1,466 | 0 | 0% |
| Tocynnau Teithio Rhatach | 23,482 | 23,482 | 0 | 0% |
| Cynllun Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc | 2,000 | 2,000 | 0 | 0% |
| Teithio Cynaliadwy a Llesol | 630 | 630 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **59,583** | **78,183** | **18,600** | **31%** |

| BEL | Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000 | Cyllideb Llinell Sylfaen 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000 | Newid £'000 | Llinell Sylfaen Newid % |
|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | | |
| Cardiau Clyfar | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 0 | 0% |
| Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol | 31,150 | 51,000 | 51,000 | 0 | 0% |
| Tocynnau Teithio Rhatach | 36,651 | 37,000 | 37,000 | 0 | 0% |
| Teithio Cynaliadwy a Llesol | 83,150 | 64,650 | 84,650 | 20,000 | 31% |
| **Is-gyfanswm** | **151,951** | **153,650** | **173,650** | **20,000** | **13%** |
| ***Trafodiadau Ariannol*** | | | | | |
| Teithio Cynaliadwy a Llesol | 7,500 | 0 | 10,000 | 10,000 | 100% |
| **Is-gyfanswm** | **7,500** | **0** | **10,000** | **10,000** | **100%** |
| **CYFANSWM** | **159,451** | **153,650** | **183,650** | **30,000** | **20%** |

Mae bysiau yn chwarae rhan ganolog wrth gysylltu pobl a chymunedau ledled Cymru a darparu mynediad i wasanaethau allweddol. Yn 2020-21, gwnaethom ddyrannu hyd at £140m gan gydnabod effaith mesurau cadw pellter cymdeithasol a'r gostyngiad amlwg yn nifer y bobl a oedd yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus o fewn y diwydiant bysiau. Yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd parhaus, bydd £18.6m ychwanegol yn rhoi sefydlogrwydd i weithredwyr bysiau barhau i weithredu gwasanaethau effeithlon yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y buddsoddiad hwn hefyd yn ariannu adolygiad i'r ffordd y mae gwasanaethau bysiau yn cael eu gweithredu er mwyn i ni allu diogelu ac yna ddiwygio'r diwydiant er mwyn diwallu anghenion pobl Cymru ac ymateb i'r heriau parhaus yn deillio o COVID-19.

Darparwyd £62m i ddiogelu cyllidebau'r cynlluniau tocynnau teithio rhatach a thocynnau teithio rhatach i bobl ifanc, gan gydnabod y rhan bwysig sydd gan drafnidiaeth gyhoeddus i'w chwarae. Ynghyd â chyfraniadau'r Awdurdodau Lleol eu hunain at y cynllun tocynnau teithio rhatach, ystyrir bod yr amlen gyllido gyffredinol (refeniw a chyfalaf) yn ddigonol i fodloni rhwymedigaethau'r Awdurdodau Lleol ar sail yr egwyddor 'dim gwell, dim gwaeth' a'r galw a ragwelir.

Mae'r dyraniad ar gyfer Teithio Llesol wedi cynyddu o £30m i £50m. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran 8.8 isod.

Er mwyn adeiladu ar y buddsoddiad a wnaed i ddatgarboneiddio ein fflyd trafnidiaeth gyhoeddus a gwella ein seilwaith gwefru, bydd dyraniad cyfalaf trafodiadau ariannol ychwanegol o £10m yn arwain at gyfanswm buddsoddiad o £38m yn 2021-22. Dylid nodi mai £29m a ddyrannwyd yn 2020-21 – cyfalaf trafodiadau ariannol o £7.5m a chyfalaf craidd o £21.5m.

## 7.4 Cam Gweithredu Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd

| BEL | Cyllideb 2020-21 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000 | Newid £'000 | Newid % |
|---|---|---|---|---|
| Diogelwch ar y Ffyrdd | 4,764 | 4,764 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **4,764** | **4,764** | **0** | **0%** |

| BEL | Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000 | Cyllideb Llinell Sylfaen 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000 | Newid £'000 | Llinell Sylfaen Newid % |
|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | | |
| Diogelwch ar y Ffyrdd | 6,900 | 6,900 | 6,900 | 0 | 0% |
| **CYFANSWM** | **6,900** | **6,900** | **6,900** | **0** | **0%** |

Mae'r cyllidebau diogelwch ar y ffyrdd wedi cael eu cadw ar y lefelau arfaethedig. Mae'r Fframwaith Diogelwch Ffyrdd ar gyfer Cymru yn nodi ein targedau diogelwch.

Mae cyllid refeniw yn ein helpu i gyllido partneriaid allanol yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ac ymgysylltu â nhw er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n cael eu hanafu a'u lladd, gan ddefnyddio'r strwythurau llywodraethu diogelwch ar y ffyrdd. Mae'r gyllideb gyfalaf yn cefnogi gwelliannau peirianneg i'r rhwydweithiau cefnffyrdd a ffyrdd lleol er mwyn hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd.

## 8.0 TRAFNIDIAETH - POLISÏAU ALLWEDDOL

Darperir gwybodaeth ychwanegol mewn ymateb i'r ceisiadau penodol a wnaed gan y Pwyllgor fel a ganlyn:

## 8.1 Ymateb i Bandemig y Coronafeirws

O ganlyniad i COVID-19 a'r cyfyngiadau symud dilynol, gwelwyd gostyngiad sydyn a difrifol digynsail yn nifer y bobl a oedd yn teithio ar fysiau gan ddefnyddio gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Yn ei dro, arweiniodd y gostyngiad hwn at golledion a oedd yn cyfateb, fwy neu lai, i'r holl refeniw tocynnau. Drwy'r flwyddyn gyfredol, bydd Llywodraeth Cymru wedi darparu hyd at ryw £200m o gyllid ychwanegol i gefnogi gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus (rheilffyrdd a bysiau),

yn gyntaf drwy gynnal rhwydwaith sgerbwd i gefnogi teithiau hanfodol yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf ac wedyn i gynyddu gwasanaethau er mwyn cefnogi'r trefniadau ar gyfer ailagor ysgolion a'r economi ehangach. Roedd angen rheoli'r holl drefniadau hyn gan fodloni gofynion caeth ar gyfer cadw pellter cymdeithasol a oedd yn cyfyngu ar gapasiti cerbydau o ran nifer y teithwyr. . Diwygiwyd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn adlewyrchu'r realiti masnachol newydd ac er mwyn sicrhau'r buddiannau a'r canlyniadau gorau posibl yn gyfnewid am y lefel uwch o gyllid a ddarparwyd gennym.

Yn ogystal â diwallu anghenion byrdymor brys, mae'r cytundeb sy'n sail i'r cynllun brys ar gyfer y sector bysiau (BES) yn cynnig cyfle i ddechrau partneriaeth barhaus rhwng gweithredwyr a chyrff cyhoeddus er mwyn gallu ail-lunio rhwydwaith bysiau Cymru, gan gefnogi'r broses reoli a rhyngweithio ar draws mathau o drafnidiaeth, gan gynnwys systemau tocynnau clyfar, rhwydwaith cyfeirio sy'n cyflawni amcanion ehangach, a threfniadau amserlennu cydgysylltiedig ar draws mathau o drafnidiaeth.

Yn y Gyllideb Ddrafft, caiff £18.6m ei ddyrannu i roi cymorth ychwanegol i'r diwydiant bysiau gan roi rhywfaint o sicrwydd ariannol yn ystod chwarter cyntaf 2021-22. Fodd bynnag, er mwyn cefnogi gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus hanfodol, mae'n bosibl y bydd angen cyllid ychwanegol er mwyn digolledu colledion refeniw wrth i fesurau cadw pellter cymdeithasol barhau, ond caiff y sefyllfa hon ei monitro wrth i 2021-22 fynd rhagddi. Mae rhagweld y gofyniad cyllido hwn yn heriol o ystyried yr ansicrwydd ynghylch cyfyngiadau yn y dyfodol, gofynion ar gyfer cadw pellter cymdeithasol ac awydd y cyhoedd i ddychwelyd i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

## 8.2 Dyraniadau Brexit

Daw'r rhan fwyaf o'r costau sy'n gysylltiedig â pharatoi ar gyfer diwedd Cyfnod Pontio'r UE  o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol. Fodd bynnag, gan ddibynnu a geir cytundeb masnach ai peidio, a faint o darfu a geir mewn porthladdoedd a chyfnod y tarfu hwn, mae'n bosibl y bydd costau pellach wrth symud i mewn i flwyddyn ariannol 2021-22. Rydym wrthi'n ystyried y costau hyn ar hyn o bryd a, lle y bo'n briodol, byddant yn rhan o drafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU ac yn rhan o ddyraniadau cyllidebol yn y dyfodol.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i roi mesurau priodol ar waith i baratoi ar gyfer canlyniadau diwedd y cyfnod pontio, gan gynnwys cynllunio ar gyfer yr effeithiau posibl y gallai gwiriadau tollau ym mhorthladdoedd Iweddon eu cael ar y rhwydwaith trafnidiaeth.

Rydym yn trafod â Llywodraeth y DU a fydd cyllid ychwanegol ar gael i gydnabod yr effeithiau anghymesur y mae Cymru yn eu hwynebu yn ein porthladdoedd ar ddiwedd y cyfnod pontio. Rydym eisoes wedi cyhoeddi bod amgylchiadau wedi ei gwneud yn ofynnol i ni weithredu gwrthlif ar yr A55 o 1 Ionawr. Er y byddwn yn adolygu'r ymyriad hwnnw yn barhaus ac yn ceisio sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl gan gadw costau mor isel â phosibl drwy gael gwared ar y system pan na fydd ei hangen mwyach, mae'n rhaid i ni baratoi ar gyfer y rhagdybiaethau achos gwaethaf rhesymol sydd gennym. Fodd bynnag, mae'n amhosibl asesu hyd a lled y tarfu y bydd diwedd y cyfnod pontio yn ei achosi, a bydd angen i ni reoli unrhyw effeithiau parhaus drwy gydol 2021 wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Rydym bob amser wedi nodi'n glir y bydd ein gallu i ddarparu'r un lefelau o fuddsoddiad seilwaith a welwyd yng Nghymru fel rhan o'r UE yn dibynnu ar gael cadarnhad y bydd Llywodraeth y DU yn cadw ei hymrwymiad i beidio â newid ei safbwynt ar ddatganoli ac na fydd Cymru geiniog yn dlotach ar ôl gadael yr UE. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r diffyg sicrwydd parhaus ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn peri pryder mawr o hyd, ac yn fygythiad sylweddol i Gymru.

## 8.3 Masnachfraint Rheilffyrdd a Gweithredu'r Metros

Yn gyffredinol, ceir buddsoddiad sylweddol mewn rheilffyrdd a darparwyd £250m ychwanegol uwchben y llinell sylfaen yn 2020-21.

### Masnachfraint Rheilffyrdd

Yng nghyhoeddiad mis Hydref, oherwydd effeithiau COVID-19, ac er mwyn diogelu gwasanaethau a swyddi a gweithredu'r Metro, nodwyd y byddai Masnachfraint rheilffyrdd bresennol Rhwydwaith Cymru a'r Gororau yn pontio drwy gytundeb wedi'i reoli i reolaeth gyhoeddus.
Nid yw'r gyllideb derfynol ar gyfer costau gweithredu gwasanaethau rheilffyrdd (o ystyried effaith barhaus COVID-19 ar refeniw teithwyr) wedi'i phennu eto. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd galw ychwanegol sylweddol ar gyllid refeniw, ond byddwn yn monitro'r sefyllfa wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Yn 2020-21, o dan y Cytundeb Rheoli Brys, rhyddhawyd £153m o gyllid refeniw ychwanegol yn ogystal â'r cymhorthdal llinell sylfaen o £167m.

O fis Chwefror 2021, is-gwmni newydd o Trafnidiaeth Cymru sydd o dan berchenogaeth gyhoeddus fydd yn gyfrifol am wasanaethau rheilffyrdd beunyddiol, gan alluogi'r llywodraeth i chwarae rhan hyd yn oed yn fwy yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru a'r gororau.

Ar hyn o bryd, mae'r gyllideb ddrafft yn cynnal cymorth refeniw ar gyfer gweithredu gweithrediadau rheilffordd a threfniadau Trafnidiaeth Cymru ar gyfer rheoli'r gweithrediadau hynny ar lefel o £185.4m, sef y lefel cyn y pandemig. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai fod effaith ddifrifol ar allu i weithredu gwasanaethau a/neu lefel y cymhorthdal sydd ei hangen, gan ddibynnu i ba raddau y bydd niferoedd teithwyr yn cynyddu yn ystod y misoedd nesaf.

Mae Trafnidiaeth Cymru a swyddogion yn ymgymryd ag ymarfer i ddatblygu opsiynau i sicrhau mesurau arbedion costau er mwyn ceisio lleihau'r gost weithredu llinell sylfaen os daw'r pwysau refeniw hwn i'r amlwg. Bydd yr ymarfer hwn yn destun adolygiad annibynnol a bydd canlyniad y gwaith hwnnw ar gael y gwanwyn nesaf er mwyn llywio penderfyniadau ar y gyllideb ar gyfer y dyfodol.

Bydd cynnal gwasanaethau rheilffyrdd o fudd i'r rheini sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn parhau i gynnig mynediad at swyddi, gwasanaethau iechyd, addysg a hamdden. Mae trafnidiaeth gyhoeddus hefyd yn hanfodol i lawer o weithwyr allweddol sydd wedi'u cyflogi yn y sectorau hyn.

### Metro Gogledd-ddwyrain Cymru

Mae gwaith yn mynd rhagddo gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid i roi'r weledigaeth ar gyfer Metro Gogledd Cymru ar waith. Mae'r gyllideb o £25m wedi'i chynnwys yn y llinell sylfaen fel y gellir parhau i fuddsoddi ym mhob math o drafnidiaeth i ddarparu'r system drafnidiaeth integredig, fodern o ansawdd uchel sydd ei hangen er mwyn cyflawni amcanion o ran cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd a sicrhau twf economaidd ledled y rhanbarth, gan gysylltu pobl â swyddi a gwasanaethau a chysylltu busnesau â marchnadoedd. Atodir dolen i'r datganiad diweddaraf ar Fetro Gogledd Cymru: https://llyw.cymru/cynlluniau-metror-gogledd-yn-elwa-ar-ragor-na-11-miliwn

### Metro De-orllewin Cymru

O ran y rhaglen rheilffyrdd, mae'r ymyriadau canlynol yn mynd rhagddynt:

- **Gwelliannau i Brif Linell Reilffordd y De** – Yn gryno, mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar wella amlder ar y llinell hon, gan ganolbwyntio'n benodol ar wasanaethau rhwng Caerdydd, Abertawe a Chaerfyrddin. Rydym hefyd yn ystyried gwelliannau i'r gwasanaeth i Aberdaugleddau.

- **Gwasanaethau a Gwelliannau Lleol** – Gwella gorsafoedd; cynigion ar gyfer Parcffordd a gwelliannau tactegol i Brif Linell Reilffordd y De er mwyn hwyluso gwasanaethau rheilffordd lleol.

- **Metro Ardal Bae Abertawe –** Yn ei hanfod, mae'r gwaith hwn yn cynnwys dau faes ar hyn o bryd, ond mae mwy o flaenoriaethau yr ystyrir eu bod yn flaenoriaethau is i'w profi yn ystod y blynyddoedd nesaf:
  - Llinell Dosbarth Abertawe – cyfres o orsafoedd newydd i'w sefydlu ar Linell Dosbarth Abertawe rhwng Pontarddulais, Castell-nedd a Stryd Fawr Abertawe er mwyn darparu gwasanaeth cymudo lleol ar gyfer gogledd Abertawe; gan gynnwys ystyried ailagor gorsaf Glandŵr. Tybir y bydd tri thrên yr awr.
  - Porth Tywyn i Abertawe – Tybir y bydd tri thrên yr awr rhwng Porth Tywyn a phob gorsaf i Orsaf Stryd Fawr Abertawe (gan gynnwys ystyried ailagor gorsaf Cocyd).

Mae bysiau hefyd yn rhan annatod o'r ateb. Mae cynllun Ailddylunio'r Rhwydwaith Bysiau yn mynd rhagddo mewn partneriaeth â Llywodraeth Leol i ddechrau, ond gan ehangu i'r Gweithredwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus yn ystod y misoedd nesaf. Bydd yr ymarfer hwn yn defnyddio dull egwyddorion cyntaf wrth gynllunio'r rhwydwaith ar gyfer bysiau sy'n cynnig trafnidiaeth gyhoeddus. Y nod yn y pen draw fydd cyflawni gwell effeithlonrwydd, amseroedd teithio cyflymach ac amlderau uchel. Mae Treial Bysiau Fflecsi Sir Benfro yn gweithredu ar hyn o bryd yng Ngogledd Sir Benfro fel treial gwasanaeth Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw.

### Metro De-ddwyrain Cymru

Mae rhaglen Trawsnewid Metro Llinell Graidd Cymoedd De-ddwyrain Cymru yn mynd rhagddi ar ôl trosglwyddo Llinellau Craidd y Cymoedd o Network Rail i Trafnidiaeth Cymru yn llwyddiannus ar ddiwedd mis Mawrth 2020. Dechreuodd y gwaith cyfalaf cyntaf ym mis Awst 2020 gan ganolbwyntio ar glirio llystyfiant a chwblhawyd y cam cyntaf o waith ailalinio'r cledrau yn llwyddiannus ym mis Tachwedd i ymgymryd â gwaith clirio er mwyn gosod cyfarpar trydaneiddio.

Yn 2021-22, bydd y rhaglen yn cyflymu a chynhelir gwaith cyfalaf sylweddol ar Linellau Treherbert, Aberdâr a Merthyr yn benodol. Bydd angen trefniadau rheoledig ar gyfer atal rhannau o'r llinell er mwyn ymgymryd â'r gwaith hwn.

### 8.4 Blaenoriaethau ar gyfer y Seilwaith Rheilffyrdd

Ar gyfer 2021-22, bydd y prif ffocws ar weithredu a pharhau i ddatblygu amrywiol gynlluniau'r Metro. Yn ogystal â'r ffocws hwn, byddwn hefyd yn anelu at weithio gyda Llywodraeth y DU ac at ddylanwadu arni i fuddsoddi yn y rhwydwaith rheilffyrdd ehangach drwy Network Rail. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo gwelliannau i orsafoedd ledled rhwydwaith Cymru a'r Gororau, gorsafoedd newydd a gwelliannau seilwaith eraill er mwyn helpu i redeg gwasanaethau mewn ffordd ddidrafferth a dibynadwy.

### 8.5 Trafnidiaeth Cymru

Mae cyllidebau corfforaethol Trafnidiaeth Cymru yn gymhleth oherwydd natur ddatblygiadol ei rôl gan gynnwys y cynigion diweddar ar sut y caiff gwasanaethau rheilffyrdd eu darparu yng Nghymru yn y dyfodol. Ni chytunwyd ar gylch gwaith a chyllideb lawn Trafnidiaeth Cymru ar gyfer 2021-22 eto, ond unwaith y ceir cytundeb yn hynny o beth, dyna fydd sail ei Gynllun Busnes Terfynol ar gyfer 2021-22.

Mae'r gyllideb ddrafft hon yn dangos dyraniadau penodol ar gyfer Trafnidiaeth Cymru o ran refeniw a chyfalaf. Mae'r dyraniadau hyn yn adlewyrchu ei gyllid 'craidd' ar gyfer cyflawni ei brif swyddogaethau mewn perthynas â gwasanaethau rheilffyrdd a phrosiectau seilwaith rheilffyrdd, gan gynnwys y taliadau 'pasio drwodd' y mae'n eu gwneud ar ran Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y costau corfforaethol hynny na all eu dyrannu allan yn rhesymol yn erbyn gweithgarwch prosiectau/rhaglenni penodol. Caiff y mwyafrif o'r costau hyn eu dyrannu allan gan Trafnidiaeth Cymru yn erbyn llinellau cyllideb/prosiect penodol ar sail costio gorbenion/amsugno.

Yn ogystal â'r cyllid 'craidd' hwn, bydd Trafnidiaeth Cymru hefyd yn derbyn dyraniadau o linellau eraill yn y gyllideb gan ddibynnu ar yr hyn a gaiff ei gynnwys yn y pen draw yn ei gylch gwaith a'r cyllid a fydd ar gael i gyflawni'r gweithgareddau hynny. Er enghraifft, mae Trafnidiaeth Cymru yn chwarae rhan sylweddol ar hyn o bryd yn y rhaglen diwygio bysiau a'r bwriad yw y bydd yn gyfrifol am reoli cyllid grant teithio llesol i drydydd partïon. Bydd angen adlewyrchu pob un ohonynt yn y llythyr cylch gwaith terfynol a'r dyraniad cyllid.

Yn 2020-21, rhagwelir y bydd costau corfforaethol amcangyfrifedig Trafnidiaeth Cymru oddeutu £16m.

Gellir gweld rhagor o fanylion am Trafnidiaeth Cymru ar ei wefan yn https://trc.cymru/.

### 8.6 Comisiwn Trafnidiaeth De Cymru

Cyhoeddwyd adroddiad terfynol Arglwydd Burns ar 26 Tachwedd, gan nodi cyfres uchelgeisiol o gynigion ar gyfer rhwydwaith o fesurau Trafnidiaeth Gyhoeddus a Theithio Llesol ar gyfer y rhanbarth. Ymatebodd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru i Adroddiad y Comisiwn.

Mae cynigion y Comisiwn yn gydnaws â'r drafft o Llwybr Newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sef Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru, a gallent greu dewisiadau amgen cystadleuol i geir preifat, yn enwedig i gymudwyr, a chael effaith sylweddol ar dagfeydd ar draffyrdd.

Mae rhai o'r cynigion hyn o fewn ein cymhwysedd datganoledig, ond nid yw eraill. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Network Rail a'r Adran Drafnidiaeth i drafod y ffordd orau o weithredu'r argymhellion ar gyfer gwella Prif Linell De Cymru ac agor gorsafoedd newydd arni. Yn lleol, mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol lle mae argymhellion y Comisiwn yn gofyn am drefniadau cydweithio er mwyn rhoi newidiadau ar waith mewn trefi a dinasoedd a fydd o fudd i breswylwyr lleol a defnyddwyr y rhwydwaith ffyrdd strategol.

Lle bo angen cyllid gan Lywodraeth Cymru, bydd angen dyraniadau cyllidebol ychwanegol, a bydd yn rhaid i'r argymhellion wrth gwrs fodloni'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) a dangos gwerth am arian cyn y gwneir penderfyniadau buddsoddi. Mae swyddogion bellach wrthi'n ystyried yr argymhellion er mwyn llywio'r camau nesaf.

## 8.7 Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd

### Rheoli'r Rhwydwaith

Mae gan asedau cefnffyrdd, priffyrdd a thraffyrdd gost adnewyddu dibrisiedig o ryw £17 biliwn, sef yr ased unigol mwyaf ar fantolen Llywodraeth Cymru, a chânt eu harolygu, eu cynnal a'u cadw a'u gwella'n barhaus. Cafodd £161.795m ei ddyrannu at y diben hwn yn 2021-22. Mae'r gyllideb refeniw yn ariannu rhaglen o waith cynnal a chadw ac arolygu cyffredin flynyddol sy'n sicrhau diogelwch y rhwydwaith o ddydd i ddydd, ac mae cyllideb gyfalaf yn ariannu rhaglenni cynnal a chadw mawr blynyddol i ddiogelu i uniondeb hirdymor a gwelliannau bach a chanolig eu maint. Mae cynaliadwyedd yn egwyddor allweddol.

Mae'r gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig â gweithredu, cynnal a chadw a gwella'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn cefnogi tua 800 o gyflogeion yn y sector adeiladu. Lle bynnag y bo'n bosibl, caiff rhaglenni cynnal a chadw eu datblygu yn unol â'r egwyddor o ddewis yr "ymyriad cywir ar yr adeg gywir" er mwyn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar oes gwasanaeth asedau a lleihau amlder a maint gweithrediadau cynnal a chadw. Mae hyn yn lleihau ôl troed carbon y rhwydwaith ac achosion o darfu ar brofiad defnyddwyr ffyrdd ac yn darparu'r gwerth gorau. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu'r ffocws ar ehangu gwasanaetholdeb deunydd gosod wyneb presennol gan ddefnyddio triniaethau wyneb arloesol a'u hadnewyddu lle y bo angen gan ddefnyddio deunyddiau newydd ag oes gwasanaeth hwy, o ffynonellau lleol er mwyn lleihau eu heffaith garbon yn sylweddol.

Caiff deunyddiau gosod wyneb tawelach, ynghyd â rhwystrau sy'n ystyriol o'r amgylchedd, hefyd eu defnyddio er mwyn lleihau sŵn i bobl sy'n byw yn agos at y rhwydwaith.  Nododd Cynllun Gweithredu ynghylch Sŵn a Seinwedd Cymru 2018-23 200 o Ddarpar Ardaloedd â Blaenoriaeth â lefelau sŵn dros 73db lle roedd angen camau lliniaru sŵn o'r fath. Rydym yn llwyddo i gydymffurfio â lefelau terfyn yr UE ar gyfer $NO_2$ ar safleoedd ledled y rhwydwaith lle ceir gormodiant drwy gyflwyno

terfynau cyflymder o 50mya wedi'u hategu gan seilwaith gorfodi cyflymder cyfartalog.

Mae'r ymylon a'r ardaloedd wedi'u plannu gerllaw'r rhwydwaith yn darparu cynefinoedd gwerthfawr i blanhigion a bywyd gwyllt a chânt eu rheoli mewn ffordd sensitif sy'n hyrwyddo bioamrywiaeth. Mae "Coridorau Gwyrdd" wedi'u hanelu at wella gwaith plannu ar hyd llwybrau sy'n gweithredu fel pyrth i mewn i Gymru. Ceir coed ynn brodorol ar hyd y rhwydwaith a bydd ymdrin â chlefyd (Chalara) coed ynn, gan blannu rhywogaethau amgen iach yn eu lle, yn her sylweddol dros y cyfnod o 5 i 10 mlynedd nesaf a bydd yn costio £50m.

Mae astudiaethau Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) ar goridorau pwysig ar draws y rhwydwaith wedi nodi piblinell o ymyriadau penodol hynod o gosteffeithiol i fynd i'r afael ag ardaloedd lle ceir problemau tagfeydd yn y Gogledd a'r De a chyfleoedd goddiweddyd diogel er mwyn gwella cysylltedd a chefnogi datblygiad economaidd yn y Canolbarth.

Dechreuodd y gwaith i adeiladu'r cynllun mannau cul cyntaf, ar gyffordd yr A470 â'r A55 yng Nglan Conwy yn ystod yr haf a bydd gwelliannau i gyffordd 48 Hendy yr M4 yn dechrau y mis Ionawr hwn. Bydd gwaith adeiladu ar y cynlluniau cyfleoedd goddiweddyd cyntaf yn dechrau yn 2021-22 ar hyd coridorau'r A470 a'r A487. Mae prosiect cydnerthedd yr A55 eisoes wedi sicrhau manteision cyflym a mesurau byrdymor sydd eu mawr angen, yn enwedig ym maes diogelwch, gan gynnwys camerâu cyflymder cyfartalog ar Allt Rhuallt. Mae mwy o fesurau tymor canolig a hirdymor yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a chânt eu rhoi ar waith o ddiwedd 2020-21 ymlaen.

Cwblhawyd yr adolygiad diweddaraf o Derfynau Cyflymder a diogelwch y rhwydwaith ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019-20. Yn seiliedig ar y canlyniadau, caiff rhaglen o welliannau wedi'u blaenoriaethu ei rhoi ar waith yn ystod 2020-21 gyda'r nod o wella diogelwch yn ogystal â lleihau achosion lle y caiff cymunedau eu hollti a hyrwyddo teithio llesol.

## Gwaith Seilwaith

Mae gwaith yn parhau ar nifer o gynlluniau eraill o bwysigrwydd strategol, gan gynnwys:

- Ffordd yr A465 Blaenau'r Cymoedd rhwng Gilwern a Brynmawr
- Disgwylir i'r gwaith adeiladu ar Adran 2 gael ei gwblhau yn ystod 2021-22.

- Adran 5 a 6 – Dyfarnwyd y contract ym mis Hydref 2020 ac mae'r arolygon ecolegol cyn-dechrau yn mynd rhagddynt.

- A487 Caernarfon Bontnewydd – Disgwylir i'r gwaith ar y ffordd osgoi newydd gael ei gwblhau yn ystod hydref 2021.

- Cyffordd 15 ac 16 yr A55 – bydd gosod trefniadau newydd yn lle'r cylchfannau ar y cyffyrdd yn hwyluso llif traffig ar yr A55 ac yn gwella cydnerthedd y llwybr strategol allweddol hwn. Disgwylir i'r Gorchmynion Drafft gael eu cyhoeddi erbyn mis Rhagfyr 2020.

- A55 Abergwyngregyn i Dai'r Meibion – mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau a bydd yn parhau drwy gydol 2021-22.

- A55/A494 Gwella Coridor Sir y Fflint – Y bwriad yw penodi ymgynghorwyr yn ystod gwanwyn 2021. Wedyn, bydd y prosiect yn symud i'r cam datblygu dyluniad drwy ymgynghori â rhanddeiliaid a chynhelir amrywiaeth o arolygon amgylcheddol ac ymchwiliadau tir. .

- A40 Gorllewin Cymru – daeth ymchwiliadau cyhoeddus ar gyfer gwella'r ddau gynllun i ben yn 2020-21. Disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau yn ystod 2021-22.

- Pont Dyfi – Gall y gwaith adeiladu ddechrau ar unwaith pan gaiff y contract ei ddyfarnu. Disgwylir i hynny ddigwydd yn fuan.

Mae'r holl weithgareddau hyn wedi'u rhaglennu a chânt eu rheoli o fewn y cyllidebau sydd ar gael er mwyn cyflawni'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol. Mae'r holl wariant yn destun pwysau a risgiau chwyddiant a reolir gennym drwy gynnwys tuedd risg ac optimistiaeth a rhagdybiaethau/adolygiadau rhagamcanu clir fel rhan o bob prosiect. Yn achos prosiectau adeiladu, gwneir hyn yn aml yn ystod y camau datblygu a chyflawni allweddol. Mae'r contractau hefyd yn cynnwys mynegeion chwyddiant adeiladu (sy'n cynnwys cost deunyddiau a llafur).

### 8.8 Cyflawni'r Polisi Teithio Llesol

Mae parhau â'r Gronfa Teithio Llesol y tu hwnt i'w chyfnod cychwynnol o dair blynedd yn rhoi blaenoriaeth i drefniadau i alluogi teithiau cerdded a beicio byr fel mathau o deithio â buddiannau iechyd sylweddol nad ydynt yn creu unrhyw allyriadau carbon. Mae hyn yn cydnabod bod cynyddu teithio llesol yn rhan bwysig o'n hymdrechion i symud o ddefnyddio ceir preifat fel yr unig fodd ar gyfer teithiau byrrach a chanolig ac ar y cyd â thrafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer teithiau hirach. .

Bydd awdurdodau lleol yn diweddaru ac yn diwygio eu mapiau o'r rhwydwaith teithio llesol yn 2021-22, gyda rhestrau o gynlluniau â blaenoriaeth. Y mapiau newydd fydd y mapiau cyntaf ers cyhoeddi Polisi Cynllunio Cymru 10 a Strategaeth Drafnidiaeth newydd ddrafft Cymru y mae'r ddau yn cynnwys yr hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy fel rhan greiddiol, gyda cherdded a beicio ar frig yr hierarchaeth honno. Bydd y cynlluniau newydd yn cyd-fynd yn agos â gwaith cynllunio defnydd tir a gyda'i gilydd, byddant yn anelu at greu cyfleoedd i leihau'r angen i deithio, pellterau teithio ac amodau da ar gyfer cerdded a beicio.

Ers cyflwyno'r Gronfa Teithio Llesol, rhyddhawyd cyfran sylweddol o'r cyllid (£9m allan o £30m yn ystod y flwyddyn ariannol hon) i bob awdurdod lleol fel dyraniad craidd i ymgymryd â gwelliannau bach ar eu rhwydweithiau heb fod angen cystadlu am gyllid a chynnal cam cyn-gwaith ar gynlluniau mwy cymhleth. Yn ystod y ddwy flynedd ers cyflwyno'r gronfa, cafwyd piblinell cynyddol o gynlluniau uchelgeisiol sydd bellach naill ai'n barod i'w hadeiladu neu'n agos ati. Bydd llawer ohonynt yn gallu trawsnewid dewisiadau teithio llawer o bobl a'u galluogi i gerdded a beicio'n ddiogel lle na fu'n bosibl gwneud hynny o'r blaen.

Nodir y cyllid teithio llesol ar gyfer grantiau trafnidiaeth leol yn y tabl canlynol. Dylid nodi nad yw'r cyllid hwn yn cynnwys gwariant ar gyfer cynlluniau teithio llesol ar gefnffyrdd, na chyllid refeniw:

| **TABL 5 – Dyraniadau Teithio Llesol – Pob grant cyfalaf ALl 2016-17 i 2020-21** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** |
| Amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn Cymru | 3,113,150 | 3,125,165 | 3,138,631 | 3,152,879 | 3,164,215 |
| Y Gronfa Teithio Llesol | 0 | 0 | £9,031,092 | £31,850,943 | £28,999,750 |
| Y Gronfa Trafnidiaeth Leol | £3,985,303 | £13,006,475 | £11,267,202 | £7,303,259 | Dd/G |
| Ffyrdd Diogel mewn Cymunedau | £4,871,388 | £6,535,478 | £5,048,314 | £5,362,121 | £4,141,501 |
| Mesurau Trafnidiaeth Cynaliadwy Lleol (i.r.t.Covid) | | | | | £16,205,917 |
| **Cyfanswm** | **£8,856,691** | **£19,541,953** | **£25,346,608** | **£44,516,323** | **£49,347,168** |
| **Cyfanswm y pen** | **£2.84** | **£6.25** | **£8.08** | **£14.12** | **£15.60** |

## 8.9 Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Trafnidiaeth Cymunedol a Bysiau, Tocynnau Teithio Rhatach a'r Cynllun Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc

### Cymorth i wasanaethau trafnidiaeth cymunedol a bysiau

Mae gwasanaethau bysiau lleol yn chwarae rhan hollbwysig wrth alluogi pobl i ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau allweddol ledled Cymru, ac mae ein dyraniadau drwy'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau yn ffynhonnell ategol werthfawr o gyllid sy'n ychwanegol at y cyllid a ddyfernir i awdurdodau lleol drwy setliad blynyddol y Grant Cynnal Refeniw. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gadarnhau'r dyraniadau y maent wedi'u gwneud gan ddefnyddio dyfarniadau'r Grant Cynnal Refeniw i gefnogi'r rhwydwaith bysiau er mwyn helpu i lywio fy mhenderfyniadau yn y dyfodol o ran cymorth ar gyfer bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yng Nghymru.Gwneir cyhoeddiad maes o law.

Mae cyllideb ddrafft 2021-22 yn cynnwys swm amodol o £25m ar ffurf ein cynllun Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau a gaiff ei ddyrannu i awdurdodau lleol ar sail fformiwla y cytunwyd arni â'r Gymdeithas Swyddogion Cydlynu Trafnidiaeth (awdurdodau lleol) er mwyn eu helpu i gefnogi'r rhwydweithiau bysiau craidd, strategol yn eu hardaloedd. Rydym wrth ein bodd ein bod wedi gallu cynnal swm y Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau; er gwaethaf rhaglen cyni Llywodraeth y DU ac effaith ein hymateb i COVID-19 ar gyllidebau.

Rydym yn gwerthfawrogi'r penderfyniadau anodd sy'n wynebu awdurdodau lleol o ganlyniad i raglen cyni Llywodraeth y DU. Serch hynny, rydym yn annog awdurdodau lleol i amddiffyn y dyfarniadau dangosol a gânt drwy'r Grant Cynnal

Refeniw er mwyn cefnogi gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yn eu hardaloedd.

### Teithiau bws am ddim

Mae ein cynllun teithiau bws am ddim i bobl hŷn a phobl anabl yn sicrhau bod deiliaid cardiau yn gallu teithio i weithio, gweld ffrindiau a pherthnasau, mynd i'r siop, mynd i apwyntiadau meddygol neu fynd am ddiwrnod allan heb boeni am y gost.

Mae gan awdurdodau lleol rwymedigaeth statudol i ad-dalu gweithredwyr bysiau am y teithiau hynny er mwyn sicrhau nad yw'r gweithredwyr hynny ar eu colled nac ar eu hennill. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid sylweddol i'w helpu i gyflawni'r rhwymedigaeth hon.

Ers i ni gyflwyno'r fenter allweddol hon yn 2002, mae wedi dod yn fwyfwy poblogaidd ac mae tua 610,000 o gardiau byw heddiw, 120,000 yn llai na 2019-20 yn dilyn ymarfer adnewyddu cynhwysfawr.

Mae cyllideb ddrafft 2021-22 yn cynnwys swm amodol o £60m er mwyn helpu awdurdodau lleol i ad-dalu gweithredwyr bysiau am gludo deiliaid cardiau teithio hŷn neu anabl am ddim, gan gynnwys cost weinyddu, yn seiliedig ar deithiau hanesyddol. Gyda llai o deithiau eleni, dargyfeiriwyd elfen o'r gyllideb tuag at y cynllun brys ar gyfer y sector bysiau. Mae hyn yn debygol o fod yn wir ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ond mae'n anodd rhagamcanu'r newid hwn. Caiff y gyllideb amodol ar gyfer 2021-22 ei dyrannu i awdurdodau lleol mewn ymateb i ddata a gesglir sy'n dangos nifer y teithiau am ddim a gaiff eu cwblhau mewn gwirionedd a'r costau gweinyddol cysylltiedig. Dylid nodi y dyrannwyd £18.6m ychwanegol i'r diwydiant ar gyfer 2021-22 er mwyn ystyried effaith COVID-19.

### FyNgherdynTeithio

Mae cyllideb ddrafft 2021-22 ar gyfer FyNgherdynTeithio (MTP) yn cynnwys swm amodol o £2m i ddigolledu gweithedwyr bysiau am gludo pobl ifanc 16 i 21 oed am ddisgownt o draean a'r costau gweinyddol cysylltiedig ar gyfer gweithredu'r cynllun. Roedd tua 32,000 o gardiau MTP gweithredol mewn cylchrediad ar ddiwedd mis Hydref 2020.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi cynllun MTP gan ei fod yn galluogi pobl ifanc i deithio ar fysiau am bris rhatach, yn ogystal ag annog pobl ifanc i roi cynnig ar ddefnyddio'r bws ar gyfer mwy o'u teithiau. Y gobaith yw y bydd hyn yn golygu y byddant yn parhau i ddefnyddio bysiau ar gyfer mwy o'u teithiau yn y dyfodol.

Rydym yn adolygu'r potensial i ymestyn cynllun MTP i grwpiau eraill ond mae'n rhaid cofio mai cynllun gwirfoddol yw hwn o hyd gan nad oes deddfwriaeth yn bodoli a fyddai'n ein galluogi i orfodi cwmnïau bysiau i gymryd rhan. Mae'n wir hefyd fod gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch cyllid cyhoeddus ychwanegol yn heriol o hyd oherwydd costau cynyddol mewn meysydd eraill wrth ddarparu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.

## 8.10 Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol

O dan y llinell yn y gyllideb ar gyfer blaenoriaethau trafnidiaeth lleol, mae cyllid ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth lleol sy'n cefnogi'r economi, yn gwella diogelwch ar y ffyrdd ac yn galluogi ac yn gwella dulliau teithio cynaliadwy a llesol.  Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a sefydliadau allweddol eraill i sicrhau bod y blaenoriaethau allweddol yn cael eu cyflawni a nodi ffynonellau addas eraill o gyllid a fydd yn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hynny.

Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn cynnwys £51m ar gyfer Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol (gan gynnwys y Gronfa Trafnidiaeth Leol). Bydd y cyllid hwn yn galluogi Awdurdodau Lleol i wneud cais am gyllid ar gyfer cynlluniau sy'n annog dulliau teithio cynaliadwy ac yn lleihau tagfeydd, yn enwedig ar lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus.

## 8.11 Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Cyhoeddwyd Strategaeth Drafnidiaeth ddiwethaf Cymru (Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl 2008) yn 2008 ac mae llawer wedi newid dros y degawd diwethaf, gan gynnwys datganoli mwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol; cyhoeddi deddfwriaeth sy'n gorgyffwrdd tra bod disgwyl y bydd mwy o newidiadau'n digwydd o ganlyniad i Ffyniant i Bawb a diwygiadau i Lywodraeth Leol; cyllid a chydberthnasau ar ôl Brexit; masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau; a datganoli mwy o gyfrifoldebau'n ymwneud â thrafnidiaeth.

Yn y cyd-destun hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Strategaeth Drafnidiaeth newydd ddrafft Cymru er mwyn ymgynghori arni, sy'n cydnabod y newidiadau diweddar hyn ac yn ceisio mynd i'r afael â chyfleoedd a heriau'r dyfodol. Mae'r Strategaeth yn ymdrin â dwy her allweddol, sef ymateb i'r argyfwng o ran newid yn yr hinsawdd a sut gall y system drafnidiaeth wella yn sgil effaith COVID-19.

Mae'r Strategaeth ddrafft yn cynnwys Trafnidiaeth Gynaliadwy ac yn cydnabod bod gan Gerbydau Isel Iawn eu Hallyriadau rôl bwysig i'w chwarae wrth ddatgarboneiddio trafnidiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle ceir prinder gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Caiff y Strategaeth ei rhoi ar waith drwy gyfrwng Cynllun Cyflawni Cenedlaethol pum mlynedd newydd ar gyfer Trafnidiaeth a Chynlluniau Trafnidiaeth Lleol/Rhanbarthol.

Byddwn yn blaenoriaethu cyllid i gefnogi'r fframwaith polisi yn y strategaeth a byddwn yn datblygu targedau modd er mwyn lleihau ein hôl troed carbon. Bydd angen cyllid ychwanegol sylweddol i wneud hynny, yn ychwanegol at y lefelau presennol. Er mwyn cyflawni newid modd uchelgeisiol o 5% o ddefnyddio ceir preifat i ddefnyddio mathau eraill o drafnidiaeth, bydd angen buddsoddiad ychwanegol o £1.8bn ac roedd hynny cyn effaith argyfwng COVID-19.

Mae trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru yn derbyn lefel uchel iawn o gymorthdaliadau ar hyn o bryd ac mae lefel y cymorthdaliadau – yn gyfunol ac yn arbennig fesul taith gan deithwyr – wedi cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i COVID-19. Er enghraifft, o ran gwasanaethau rheilffyrdd, dyrannwyd £168m ychwanegol yn 2020-21 er mwyn helpu gwasanaethau rheilffyrdd o ystyried y gostyngiad yn y refeniw sy'n gysylltiedig â'r tocynnau a werthir. Felly bydd cyfanswm y buddsoddiad refeniw mewn rheilffyrdd yn 2020-21 oddeutu £335m. Yn seiliedig ar ragamcan 'isel' parhaus o ran nifer y teithwyr, gallai costau gwasanaethau rheilffyrdd yn unig y

flwyddyn nesaf gyrraedd oddeutu £330-340m eto. Mae'r Gyllideb ddrafft yn cydnabod y bydd rhywfaint o bwysau gwario ar bortffolios penodol a byddwn yn parhau i fonitro effaith y pandemig ar wasanaethau rheilffyrdd.

Yn ogystal â chynnydd o ran costau cymorthdaliadau, bydd angen buddsoddiad sylweddol hefyd mewn cyfalaf fel datblygu seilwaith mwy diogel ar gyfer y mathau dewisol o drafnidiaeth a gwella trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn sicrhau bod ganddi'r gallu a'r adnoddau priodol a'i bod yn ddeniadol i'r rheini y byddai'n well ganddynt deithio yn y car ar hyn o bryd.

## 8.12 Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol

Cafodd y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2015. Mae'n amlinellu'r buddsoddiad sylweddol y mae angen ei wneud i gyrraedd y targedau uchelgeisiol: y fasnachfraint rheilffyrdd gan gynnwys buddsoddiad gwerth bron £5bn dros y 15 mlynedd nesaf i drawsnewid gwasanaethau rheilffyrdd ledled Cymru, diwygiadau deddfwriaethol mawr i'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus a datblygu system drafnidiaeth aml-ddull, integredig ledled Cymru. Mae'n nodi'n fanylach sut rydym yn cynnig cyflawni'r canlyniadau a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru o 2015 ymlaen.

Mae'r Cynllun yn cynnwys pob ymyriad trafnidiaeth a gyllidir gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y Cynllun ei ddiweddaru yn 2017 ac yn 2018.

Nid dogfen bolisi yw'r Cynllun hwn ac nid yw'n blaenoriaethu'r cynlluniau i'w cyflawni chwaith. Mae rhai o'n prosiectau yn cael eu cyflawni, mae rhai ar y cam adeiladu ac mae eraill yn cael eu datblygu. Byddwn yn parhau i gyflawni'r ymrwymiadau sy'n weddill yn y Cynllun, wrth i ni ddatblygu'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth a fydd yn nodi ein rhaglen fuddsoddi ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd o fis Ebrill 2022.

## 8.13 Datgarboneiddio

Nodir ein dull ar gyfer dileu allyriadau carbon o'r sector trafnidiaeth yn 'Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019.

Mae'r camau gweithredu allweddol ar lefel Cymru yn cynnwys annog newid i ddefnyddio mathau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth fel teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ac annog newid yn y galw i deithio drwy alluogi trefniadau gweithio gartref a chynllunio defnydd tir yn well. Mae'r cyllid ar gyfer y polisïau hyn wedi'i gynnwys o dan y dyraniadau sectoraidd uchod.

Cam gweithredu allweddol arall yw cyflymu'r defnydd o gerbydau allyriadau sero yng Nghymru drwy ddarparu cyllid ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydan a chefnogi ymdrechion i sicrhau bod bysiau, tacsis a cherbydau hurio preifat yn gerbydau allyriadau sero erbyn 2028 yn unol â'r uchelgais polisi a ddatganwyd gennym. Yn 2021-22, ceir dyraniad o £38m (gan gynnwys £10m o gyfalaf trafodiadau ariannol) ar gyfer y Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn a fydd yn cefnogi'r gwaith hwn. Mae'r buddsoddiad hwn yn adeiladu ar y cyllid cyfalaf ychwanegol o £29m (£21.5m craidd a £7.5m trafodiadau ariannol) yn 2020-21.

Bydd cyllid hefyd yn helpu i ddatblygu'r bennod ar y sector trafnidiaeth yn yr ail Gynllun Cyflawni Carbon Isel sy'n ymdrin â chyfnod 2021-2025 y gyllideb carbon ac yn hanfodol, i asesu'r arbedion carbon posibl o fuddsoddiadau trafnidiaeth yn y dyfodol.

## 8.14 Gwariant Ataliol

Yn ogystal ag ystyried anghenion trafnidiaeth yr oes sydd ohoni, mae ein strategaeth yn ystyried anghenion hirdymor cymdeithas a chenedlaethau'r dyfodol. Felly, mae'r gyllideb hon yn canolbwyntio i raddau helaeth ar gynnal a chadw seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus sy'n bodoli eisoes gyda'r nod y gall ddarparu sylfaen gref ar gyfer yr anghenion tymor hwy hynny. Yn arbennig, rydym yn gobeithio hyrwyddo a chynnig cyfleoedd teithio iachach i deithwyr drwy deithio llesol, hyrwyddo newid o ran mathau o drafnidiaeth yn arbennig (er enghraifft, drwy barhau i ddarparu cymorthdaliadau ar gyfer tocynnau teithio i ieuenctid/pobl ifanc) ac rydym yn anelu at ddiogelu iechyd cenedlaethau'r dyfodol drwy ddatgarboneiddio'r fflyd trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd y dyraniadau cyllid yn adlewyrchu ein blaenoriaethau fel y'u nodwyd yn y strategaeth ddrafft ac yn ysgogi newidiadau sy'n rhoi mwy o bwyslais ar fathau cynaliadwy o drafnidiaeth ac sy'n lleihau'r angen i deithio mewn ceir.

Mae elfen sylweddol o'r gwariant naill ai'n ymwneud â rhwymedigaethau statudol neu rwymedigaethau cytundebol sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, mae pob ymyriad arfaethedig newydd yn ddarostyngedig i astudiaethau WelTAG sy'n sicrhau mai'r ymyriad mwyaf priodol a ddewisir a, lle y bo'n briodol, y caiff achosion busnes neu gyfiawnhad busnes eu llunio. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo gyda Trafnidiaeth Cymru i lunio cyfres o fetrigau allweddol er mwyn dangos effeithiolrwydd ein hymyriadau ac effeithiolrwydd Trafnidiaeth Cymru o ran eu rhoi ar waith.

## 9.0 CYLLIDO SGILIAU AR GYFER Y CAMAU GWEITHREDU

| Sgiliau | Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000 | Newid £'000 | Newid % |
|---|---|---|---|---|
| Refeniw | 173,541 | 177,941 | 4,400 | 3% |
| Heb Fod yn Arian Parod | 1,400 | 1,436 | 36 | 3% |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **174,941** | **179,377** | **4,436** | **3%** |

## 9.1 Cam Gweithredu Dysgu Seiliedig ar Waith

| BEL | Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000 | Newid £'000 | Newid % |
|---|---|---|---|---|
| Dysgu Seiliedig ar Waith | 97,033 | 97,033 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **97,033** | **97,033** | **0** | **0%** |

Mae'r gyllideb net hon yn helpu i gyflwyno'r rhaglen prentisiaethau i gyflogwyr a'u cyflogeion, gan roi blaenoriaeth benodol i recriwtiaid newydd, ledled Cymru. Cyrhaeddwyd y targed o 100,000 o brentisiaethau gan greu cyfleoedd o ansawdd uchel i bawb. Caiff dangosfyrddau a gwybodaeth eu cyhoeddi gan Ystadegau Cymru.

## 9.2 Cymorth Cyflawni – Cam Gweithredu Sgiliau

| BEL | Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000 | Newid £'000 | Newid % |
|---|---|---|---|---|
| Sgiliau Marchnata | 648 | 648 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **648** | **648** | **0** | **0%** |

Mae Is-adran Marchnata a Chyfathrebu SHELL yn datblygu negeseuon allweddol a deunydd cyfathrebu diddorol a gyflwynir drwy gyhoeddiadau a digwyddiadau proffil uchel, cyhoeddusrwydd i gerrig milltir pwysig ar y cyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu digidol, ymgyrchoedd penodol proffil uchel a gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid.

## 9.3 Cam Gweithredu Polisïau Sgiliau

| BEL | Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000 | Newid £'000 | Newid % |
|---|---|---|---|---|
| Ymgysylltu Polisïau Sgiliau | 1,556 | 1,556 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **1,556** | **1,556** | **0** | **0%** |

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn cyflawni rhaglenni Ymgysylltu â Chyflogwyr, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a Gweithredu Sgiliau.

## 9.4 Cam Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau

| BEL | Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd | Newid £'000 | Newid % |
|---|---|---|---|---|

| | | 2021-22<br>£'000 | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogadwyedd a Sgiliau | 51,322 | 49,722 | (1,600) | (3%) |
| Cymunedau am Waith | 3,972 | 9,972 | 6,000 | 151% |
| **Is-gyfanswm** | **55,294** | **59,694** | **4,400** | **148%** |
| **Adnoddau Anghyllidol** | | | | |
| Cymunedau am Waith – Heb fod yn arian parod | 0 | 36 | 36 | 100% |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **55,294** | **59,730** | **4,436** | **7%** |

Mae'r gyllideb Cyflogadwyedd a Sgiliau yn cyllido'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaethau, polisïau a rhaglenni sy'n helpu pobl i ddod o hyd i waith, dychwelyd i waith, parhau mewn gwaith a datblygu mewn gwaith drwy gymorth sgiliau a hyfforddiant. Mae hefyd yn hwyluso ymateb uniongyrchol er mwyn helpu busnesau unigol i dyfu drwy ddatblygu'r gweithlu ac mae'n darparu datrysiadau ehangach a arweinir gan gyflogwyr ac sy'n seiliedig ar sectorau er mwyn ymateb i anghenion sgiliau a nodwyd ym meysydd â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru sy'n bwysig i economi Cymru. Mae'r newid yn y gyllideb yn adlewyrchu'r cyllid afreolaidd mewn perthynas â'r cyfnod pontio o'r UE ar gyfer gweithgynhyrchwyr.

Mae cyllideb y Rhaglen Cymunedau am Waith, sy'n £9.972m, yn darparu cymorth cynghori arbenigol ym maes cyflogaeth a gwasanaeth mentora dwys i bobl sydd naill ai mewn tlodi neu'n wynebu risg o dlodi ac sy'n wynebu rhwystrau cymhleth o ran cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Drwy helpu pobl ddi-waith i gael profiad gwaith, dysgu sgiliau newydd neu gael cyngor arbenigol ar gyflogaeth, mae'r dyraniad ychwanegol o £6m ar gyfer Cymunedau am Waith a Mwy yn galluogi pobl i feithrin hyder a datgloi eu potensial. Rhyddhawyd y cyllid hwn er mwyn lliniaru effaith y pandemig.

## 9.5 Cam Gweithredu Dewisiadau Addysg a Gyrfa

| BEL | Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000 | Newid £'000 | Newid % |
|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | | |
| Gyrfa Cymru | 19,010 | 19,010 | 0 | 0% |
| **Is-gyfanswm** | **19,010** | **19,010** | **0** | **0%** |
| **Heb Fod yn Arian Parod** | | | | |
| Gyrfa Cymru - Heb fod yn arian parod | 1,400 | 1,400 | 0 | 0% |
| **Is-gyfanswm** | **1,400** | **1,400** | **0** | **0%** |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **20,410** | **20,410** | **0** | **0%** |

Cynhelir y gyllideb ar gyfer Gyrfa Cymru (is-gwmni y mae Llywodraeth Cymru yn berchen yn llwyr arno). Mae'n darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad

ar yrfaoedd cenedlaethol sydd ar gael i bob oedran, sy'n ddiduedd ac sydd ar gael yn ddwyieithog. Mae'r ddarpariaeth heb fod yn arian parod o £1.4m yn ystyried dibrisiant.

## 10.0 SGILIAU - POLISÏAU ALLWEDDOL

Darperir gwybodaeth ychwanegol mewn ymateb i'r ceisiadau penodol a wnaed gan y Pwyllgor fel a ganlyn:

Trosolwg cyffredinol o'r cymorth parhaus ar gyfer y sector sgiliau drwy gydol y pandemig ac unrhyw gymorth a roddir iddo er mwyn adfer.

- Cyhoeddodd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru £40m i gefnogi Ymrwymiad COVID-19 Llywodraeth Cymru yn 2020-21.

- Ymrwymiad COVID-19 ar gyfer sgiliau a swyddi: rydym wedi ymrwymo i gynnig cyngor a chymorth er mwyn i bobl 16 oed a throsodd ddod o hyd i waith, dod yn hunangyflogedig neu ddod o hyd i le yn y sector addysg neu hyfforddiant, gyda chymhellion cyflogi i gyflogwyr recriwtio'r unigolion yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan COVID-19. Rhoddir blaenoriaeth i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed, pobl anabl, BAME, menywod ac eraill yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan bandemig COVID-19.

- Ymrwymiad COVID-19 ar gyfer sgiliau a swyddi: rydym wedi ymrwymo i gynnig cyngor a chymorth er mwyn i bobl 16 oed a throsodd ddod o hyd i waith, dod yn hunangyflogedig neu ddod o hyd i le yn y sector addysg neu hyfforddiant, gyda chymhellion cyflogi i gyflogwyr recriwtio'r unigolion yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan COVID-19. Rhoddir blaenoriaeth i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed, pobl anabl, BAME, menywod a'r rheini yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan bandemig COVID-19.

- Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein rhaglenni Cyflogadwyedd a Sgiliau yn 2021-22, gan barhau i gynnig cymorth i unigolion a busnesau. Gan weithio ar draws y Llywodraeth, rydym yn parhau'n gwbl ymrwymedig i helpu pobl i ddod o hyd i waith neu ddod yn hunangyflogedig, gan sicrhau parhad a chynnydd dysgwyr yn y farchnad lafur drwy gydol y pandemig hwn.

- Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw helpu i sefydlogi Cymru wrth i ni barhau i fyw gyda'r coronafeirws, atal difrod tymor hwy a chynllunio ar gyfer adeiladu dyfodol newydd.

- Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i leihau diweithdra a rhoi'r cyfleoedd gorau i bawb ddod o hyd i waith boddhaol â rhagolygon hirdymor a chadw'r gwaith hwnnw, gan ychwanegu gwerth at raglen Kickstart Llywodraeth y DU. Byddwn yn gweithio gydag undebau llafur, cyflogwyr, ysgolion a cholegau i gynnig cyfleoedd i bobl ddatblygu eu sgiliau a meithrin sgiliau newydd.

- Byddwn yn gwneud yn siŵr na fydd ein pobl ifanc ar eu colled yn addysgol nac yn economaidd o ganlyniad i effeithiau'r coronafeirws nac o ganlyniad i unrhyw ddirwasgiad economaidd nad oeddent yn gyfrifol amdano. Byddwn yn helpu pob un o'n pobl ifanc i aros mewn addysg ac i ddal i fyny yn yr ysgol ac

mewn colegau. Yn ogystal, byddwn yn gwneud yn siŵr bod grwpiau sy'n wynebu anfantais benodol, gan gynnwys aelodau o gymunedau BAME, yn cael yr help ychwanegol sydd ei angen arnynt.

- Rydym yn canolbwyntio ar gefnogi cynlluniau Adfer ar Sail Gwerthoedd, adfywio pobl a lleoedd ledled Cymru, ac yn anelu at adfer mewn ffordd gyfiawn yn seiliedig ar degwch a chynwysoldeb, sy'n anelu at helpu'r rheini yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan yr argyfwng er mwyn osgoi anghydraddoldeb economaidd cynyddol.

- Rydym yn parhau'n ymrwymedig i gynnal dull polisi tair gwlad mewn perthynas â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol y DU er mwyn ategu Cymwysterau Galwedigaethol i Oedolion a fframweithiau prentisiaeth yng Nghymru. Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn cefnogi symudedd cymdeithasol ac yn caniatáu i sgiliau gael eu trosglwyddo a'u symud ar draws cwmnïau, sectorau a ffiniau. Mae'r gallu i drosglwyddo sgiliau yn hanfodol i'r economi yn ystod argyfwng; bydd angen ymyriadau hyfforddiant newydd. Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a'r gallu i drosglwyddo a gynigir ganddynt yn hanfodol i'r rhaglenni hyn (e.e. cymwyseddau y gellir eu trosglwyddo o sector lletygarwch sy'n wynebu anawsterau i sector manwerthu llewyrchus).

## 10.1 Dysgu Seiliedig ar Waith

### Cyflwyno Prentisiaethau – Caffael

Lansiwyd y tendr ar gyfer prentisiaethau ar 17 Awst 2020 a'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion oedd 12 Hydref 2020. Fel yr amlinellwyd yn y Gwahoddiad i Dendro, rydym yn bwriadu hysbysu'r ymgeiswyr am ganlyniadau'r tendr ym mis Mawrth 2021. Rydym wedi cael gwybod na allwn ddarparu ymatebion i gwestiynau sy'n ymwneud â chaffael tra bod y broses yn mynd rhagddi o hyd. Ond gweler isod.

Rydym yn caffael darpariaeth prentisiaethau i'w cynnig o 1 Awst 2021 ar hyn o bryd. Cyhoeddwyd prisiau uned diwygiedig sy'n dangos cynnydd cyfartalog o 12.3% mewn gwerth. Rydym wrthi'n ystyried o hyd pa gyllid y bydd ei angen er mwyn darparu lefel y ddarpariaeth rydym am ei gweld, yn enwedig yn sgil y pandemig. Byddwn yn ystyried hyn ymhellach wrth i'r broses gaffael fynd rhagddi.

Darperir y dogfennau caffael ar gyfer caffael rhaglen Prentisiaethau 2021 isod:

### Manyleb y Rhaglen:

ACP - Progra

Gwahoddiad i Dendro:

ACP - Invitati

## Cefnogi Swyddi Cymru – Y Gwersi Caffael a Ddysgwyd

Mae'r broses gaffael ar gyfer y ddarpariaeth prentisiaethau o 1 Awst 2021 yn broses fyw y disgwylir iddi gael ei chwblhau yn ystod mis Mawrth 2021. Gall Gwasanaeth Caffael Corfforaethol Llywodraeth Cymru gadarnhau bod canlyniadau perthnasol y gwersi a ddysgwyd wedi'u rhoi ar waith a'u gweithredu ar gyfer pob caffaeliad cymwys. Tra bydd y broses hon yn mynd rhagddi o hyd, ni allwn ddarparu ymatebion pellach i gwestiynau sy'n ymwneud â chaffael. Fodd bynnag, byddwn yn fwy na pharod i rannu gwybodaeth am y gwersi a ddysgwyd unwaith y daw'r broses gaffael i ben.

## Prentisiaethau Gradd

Nid yw'r BEL Dysgu Seiliedig ar Waith arfaethedig ar gyfer 2021-22 yn cynnwys £5m i'w drosglwyddo i CCAUC er mwyn cefnogi Prentisiaethau Gradd. Rhagwelir y caiff cyllid pellach ei drosglwyddo yn ystod y flwyddyn fel rhan o'r gyllideb atodol er mwyn cefnogi cost Prentisiaethau Gradd newydd a pharhaus yn 2021-22. Nid yw'r gost wedi'i chadarnhau ar hyn o bryd.

Alldro gwirioneddol 2019-20 ar gyfer y rhaglen Hyfforddeiaethau yw £29.6m. Yr alldro disgwyliedig ar gyfer y rhaglen hon ar gyfer 2020-21 yw £30.5m.
Alldro gwirioneddol 2019-20 ar gyfer y rhaglen Prentisiaethau yw £113.6m (sy'n cynnwys incwm ESF). Yr alldro disgwyliedig ar gyfer y rhaglen hon ar gyfer 2020-21 (gan gynnwys incwm ESF) yw £137m.

## Strwythur Rhaglenni Prentisiaethau yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu fframweithiau prentisiaethau newydd a diwygiedig drwy drefniadau contractio â Skills Development Scotland (SDS). SDS sy'n rheoli'r broses tendro a rheoli contractau ar ran y gwledydd datganoledig.

Er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth prentisiaethau yn parhau'n gyfredol ac yn berthnasol i anghenion cyflogwyr yng Nghymru, dyrannwyd £140,000 i ddatblygu fframweithiau prentisiaethau ar gyfer 2020-21. Mae'r swm hwn yn seiliedig ar wariant yn ystod blynyddoedd blaenorol ac mae'n cynnwys y canlynol:

- £125,000 i'w ryddhau i ddatblygwyr fframweithiau prentisiaeth drwy broses gomisiynu SDS er mwyn datblygu fframweithiau prentisiaethau newydd a diwygio fframweithiau prentisiaethau sy'n bodoli eisoes; sy'n cynnwys comisiynu adolygiadau o'r fframweithiau Bwyd a Diod, Gwasanaethau Cyfreithiol ac Ariannol, Deintyddol, Lletygarwch ac Arlwyo, Amaethyddiaeth a'r Amgylchedd, Creadigol a Dylunio, y Cyfryngau a Thrafnidiaeth a Logisteg (gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion am y llwybrau a gaiff eu hadolygu o fewn y fframweithiau hyn)

- £15,000 ar gyfer adolygu'r Fframweithiau Prentisiaethau Gradd Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch a Digidol. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau ansawdd cymwysterau gradd ychwanegol ar gyfer y fframweithiau hyn;

Yn ogystal, gall Partneriaid Datblygu cydnabyddedig hefyd ddatblygu ac adolygu fframweithiau. Adolygiadau nas comisiynwyd yw'r adolygiadau hyn ond rhaid i

Lywodraeth Cymru gytuno arnynt cyn y gellir dechrau arnynt. Yn 2020-21, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i drefniadau nas comisiynwyd ar gyfer datblygu ac adolygu ffrramweithiau yn y sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant, Gofal Iechyd ac Adeiladu.

Ein bwriad yw parhau i ddatblygu ac adolygu'r fframweithiau hyn yn 2021-22 ac i gomisiynu trefniadau ar gyfer datblygu ac adolygu fframweithiau yn y sectorau canlynol: Digidol, Busnes a Rheoli, Adeiladu a Gwasanaethau Eiddo a Gwasanaethau Cyhoeddus. Disgwylir y caiff £140,000 ei ymrwymo at y diben hwn yn 2021-22.

## Prentisiaethau Rheoli Galw

Roedd ein Cynllun Gweithredu Prentisiaethau (2017) yn arwydd o'n bwriad i symud y rhaglen Prentisiaethau tuag at gefnogi newydd-ddyfodiaid a chyflogeion sy'n gymharol newydd yn eu swyddi. Nododd hefyd yr angen i symud oddi wrth brentisiaethau cyffredinol tuag at brentisiaethau ar gyfer sectorau penodol. Adlewyrchwyd y newid cyfeiriad hwn yn y newidiadau a wnaed i'r meini prawf cymhwysedd gwreiddiol ar gyfer 2020-21. Rydym yn adolygu effaith COVID-19 ar y galw yn y dyfodol.

Er ein bod yn parhau o'r farn bod angen symud y rhaglen prentisiaethau yn agosach at nodau'r Cynllun Gweithredu, rydym yn cydnabod bod angen rhywfaint o hyblygrwydd yn ystod y cyfnod anodd hwn. Felly, rydym wedi llacio rhai o'r meini prawf cymhwysedd.

- Yn gyntaf, er mwyn cydnabod bod y dirwasgiad economaidd yn cael effaith anghymesur ar bobl ifanc, nid ystyrir bod cyflogeion rhwng 16 a 24 oed yn anghymwys i ymgymryd â phrentisiaeth ar sail hyd eu cyflogaeth yn eu swydd bresennol. Yr unig eithriad i hyn fydd y prentisiaethau Lefel 2/3 hynny a nodwyd fel rhai cyffredinol (e.e. Gweinyddu Busnes, Manwerthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid, Arwain Timau a Defnyddwyr TG) gan mai dim ond i recriwtiaid newydd y caiff y prentisiaethau hyn eu cynnig. Bydd y newidiadau llacio hyn yn destun adolygiadau pellach ond byddant yn gymwys tan o leiaf fis Chwefror 2021.

- Yn ail, er mwyn cydnabod y ffaith y bydd rhai cyflogwyr wedi oedi eu penderfyniadau recriwtio o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud, gwnaethom ohirio'r gofynion cymhwysedd newydd i bob cyflogwr a oedd wedi bwriadu recriwtio prentisiaid pan oedd y rheolau cymhwysedd blaenorol mewn grym. Roedd y gohiriad hwn yn weithredol tan 31 Hydref 2020.

- Yn ogystal, ar gyfer y flwyddyn hon, rydym hefyd wedi uno'r holl gyllid prentisiaethau er mwyn sicrhau bod darparwyr mewn gwell sefyllfa i ymateb i'r galw gan gyflogwyr. Mae hyn yn wahanol i'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol lle y dyfarnwyd gwerthoedd contract ar wahân i gefnogi sectorau galwedigaethol penodol.

Lansiwyd y Cynllun Cymell i Gyflogwyr yn ddiweddar er mwyn annog cyflogwyr i recriwtio prentisiaid newydd. Llwyddwyd i sicrhau cyllid i gefnogi'r cymhelliant hwn tan fis Chwefror 2021. Ar hyn o bryd, mae'n rhy gynnar i allu nodi effeithiolrwydd y cymhelliant hwn o ran cynyddu nifer yr unigolion a gaiff eu recriwtio i ymgymryd â Phrentisiaethau.

## 10.2 Cymorth Cyflogadwyedd

### Rhaglenni Cyflogadwyedd

Mae rhaglenni cyflogadwyedd a ariennir gan y BEL Cyflogadwyedd a Sgiliau ac y trefnir contractau ar eu cyfer drwy ymarferion tendro yn cynnwys Hyfforddeiaethau, y Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd a Twf Swyddi Cymru.

- **Hyfforddeiaethau –** yn targedu'r (grŵp NEET) ac yn cynnig amrywiaeth o sgiliau bywyd, cymorth cyflogadwyedd a hyfforddiant i bobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed mewn canolfannau neu drwy leoedd profiad gwaith. Fe'u hariennir yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Caiff gwerthoedd contract ar gyfer 2021-22 eu pennu gan ddibynnu ar berfformiad yn ystod 2020-21 a'r gyllideb sydd ar gael.

- **Y Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd** – yn cefnogi oedolion sy'n ddi-waith i ddod o hyd i swydd ac i barhau mewn swydd drwy wella eu sgiliau cyflogadwyedd. Mae'r Rhaglen yn cynnig lleoliad gwaith o ansawdd uchel neu hyfforddiant sy'n gysylltiedig â chyflogwr penodol. Caiff hyn ei gyfuno â hyfforddiant paratoi at waith a darpariaeth sgiliau hanfodol. Caiff gwerthoedd contract ar gyfer 2021-22 eu pennu gan ddibynnu ar berfformiad yn ystod 2020-21 a'r gyllideb sydd ar gael.

- **Twf Swyddi Cymru** – wedi'i anelu at bobl ifanc ddi-waith rhwng 16 a 24 oed, gan roi profiad gwaith gwerthfawr o 25-40 awr yr wythnos iddynt am gyfnod o 6 mis, gyda thâl sy'n cyfateb i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'n uwch**.** Mae'r Llywodraeth yn darparu cymhorthdal cyflog o 50%. Caiff gwerthoedd contract ar gyfer 2021-22 eu pennu gan ddibynnu ar berfformiad a'r gyllideb sydd ar gael.

Mae nifer o'n rhaglenni cyflogadwyedd eraill, fel ReAct, yn seiliedig ar alw ac mae'r darparwyr yn amrywio gan ddibynnu ar anghenion y dinesydd.

### Cyllid Ewropeaidd

Fel rhan o'r Cam Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau, rydym yn gweithredu tri phrosiect ESF o dan raglenni Ewropeaidd 2014-2020, gan gynnwys ReAct, a Hyfforddeiaethau. Mae'r gweithrediadau hyn yn sail i nifer o ymrwymiadau Ffyniant i Bawb, gan gynnwys yr ymrwymiad i ail-lunio cymorth cyflogadwyedd. Ar hyn o bryd, cymeradwywyd £109m o gyllid ESF hyd at fis Rhagfyr 2023 o dan y gweithrediadau hyn.

## 10.3 Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol/Ymgysylltu â Chyflogwyr

### Cyllid Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

Rydym yn bwriadu rhoi grant o £165k yr un i'r tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol drwy CLlLC ar gyfer 2021-22, gan gadw'r cyllid ar yr un lefel â 2020-21.

Os na fydd unrhyw gynnydd yn llinell y gyllideb ar gyfer Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, bydd hyn yn golygu na ellir gwneud y canlynol:

- Cyflwyno 4ydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i Ganolbarth Cymru,

- Ehangu cylch gwaith y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor EIS ym mis Hydref 2019,

- Cynyddu gweithgarwch LMI (caffael Pecynnau Cymorth LMI 2021-22 neu Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2021 a fydd yn cynnwys gwybodaeth sy'n gysylltiedig â COVID-19 i Gymru).

**Cyllid arall y bwriedir iddo helpu Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i weithredu, ond na chaiff ei ddyrannu'n uniongyrchol iddynt**

- Nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw gyllid arall i helpu Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i weithredu.

- Bwriedir cynnal gwerthusiad o broses y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer 2021.

## 10.4 Brexit

Mae'r effaith ar y farchnad lafur yn ddigynsail a chafwyd cryn darfu arni. Mae hynny wedi arwain at ostyngiadau sylweddol yn nifer y bobl gyflogedig, nifer yr oriau y maent yn eu gweithio a nifer y swyddi gwag sydd ar gael. Mae effaith y pandemig yn bygwth gwyrdroi'r cynnydd a wnaed wrth leihau diweithdra ac anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn ystod y degawd diwethaf. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i symud ymlaen gan ganolbwyntio o'r newydd ar ein nodau er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd a ragwelir mewn diweithdra (ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau), ymdrin â'r gyfradd pobl ifanc nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET), gwella lefelau cymwysterau yng Nghymru ac ail-lunio sgiliau'r gweithlu presennol a hyrwyddo cyfleoedd gwaith teg yng Nghymru.

Er mwyn i'r economi adfer yn gryfach ac yn fwy cynhyrchiol nag o'r blaen, bydd angen cymorth ar unigolion a busnesau i ymdopi â'r argyfwng. Bydd cynnig cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yn greiddiol i'n hadferiad economaidd a'n huchelgeisiau i Ailgodi'n Gryfach, ac yn hanfodol er mwyn cefnogi'r rheini y mae'r argyfwng fwyaf tebygol o fod wedi effeithio'n andwyol arnynt yn y farchnad lafur yng Nghymru.

Rydym yn ehangu gwasanaethau rheng flaen drwy Ganolfannau Cyflogaeth (Addysg Bellach), Cymru'n Gweithio a seilwaith cynghorwyr a mentoriaid Cymunedau am Waith a Mwy. Er mwyn helpu pobl i ddychwelyd i weithio, rydym yn cyfeirio pobl at Cymru'n Gweithio fel y porth tuag at ein harlwy cyflogadwyedd ehangach.

Ein nod yw helpu'r gweithlu presennol i 'Ailgydio' ac i'w 'Cadw', 'Ailddechrau' taith gyflogaeth unigolion yn dilyn cyfnod o ddiweithdra neu gyfnod ar ffyrlo, a pharatoi ac 'Ailsgilio' pobl ledled Cymru ar gyfer byd gwaith y dyfodol.

Gan weithio ar draws y Llywodraeth, rydym yn parhau'n gwbl ymrwymedig i helpu pobl i ddod o hyd i waith neu ddod yn hunangyflogedig, gan sicrhau parhad a chynnydd dysgwyr yn y farchnad lafur drwy gydol y pandemig hwn.

Bu Llywodraeth Cymru yn glir ac yn gyson yn ei blaenoriaeth i sicrhau na wnaiff Cymru golli ceiniog o gyllid oherwydd Brexit; fel yr addawyd yn ystod y refferendwm.

Rydym wedi cael sicrwydd y bydd y DU yn parhau i gymryd rhan yn rhaglenni'r UE a ariannwyd drwy Fframwaith Ariannol Amlflwydd 2014-20 o dan delerau'r Cytundeb Ymadael, sy'n golygu y byddwn yn gallu parhau i weithredu ein rhaglenni hyd at fis Rhagfyr 2023.

Ers y Refferendwm yn 2016, rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid ledled Cymru ar bolisi buddsoddi newydd sy'n ein rhoi mewn sefyllfa gref i fwrw ati'n syth pan fydd cyllid Strwythurol a chyllid Buddsoddi'r UE yn dechrau lleihau tua diwedd y flwyddyn.

Mae'r Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar 18 Tachwedd 2020, yn nodi ein strategaeth lefel uchel ar gyfer sicrhau ffyniant ac economi gynhwysol y bydd ymyriadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol (h.y. ledled Cymru gyfan) yn cyfrannu atynt.

## 11.0 SAIL DYSTIOLAETH / GWERTHUSIADAU AC ADOLYGIADAU

Mae ein penderfyniadau ariannol yn seiliedig ar dystiolaeth o ystod eang o ffynonellau megis gwaith ymchwil cyhoeddedig, gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwerthusiadau polisi blaenorol ac ystadegau. Mae hyn yn rhan o'r penderfyniadau a wneir fel y gwelir yn yr enghreifftiau isod.

Fel Llywodraeth, rydym wedi helpu i sefydlu sefydliadau er mwyn helpu i ddatblygu'r dystiolaeth rydym yn ei defnyddio i lywio ein gweithgareddau. Er enghraifft, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd, a gyllidwyd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru ac sy'n aelod o Rwydwaith 'What Works' y DU. Mae'r Ganolfan yn cydweithio ag arbenigwyr polisi arweiniol i roi tystiolaeth o ansawdd a chyngor annibynnol i Weinidogion Cymru a swyddogion, sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisïau. Mae'r Ganolfan a'i rhagflaenydd, y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, wedi cyhoeddi sawl adroddiad sy'n gysylltiedig â'r portffolio Economi a Thrafnidiaeth.

Mae Dirnad Economi Cymru, sef cydweithrediad rhwng Banc Datblygu Cymru, Ysgol Fusnes Caerdydd a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn rhoi sail dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau polisi, gan alluogi Llywodraeth Cymru, Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru i herio ac addasu'r cymorth a gynigir i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Cyhoeddodd Dirnad Economi Cymru adroddiad yn ddiweddar: Ymyriadau ariannol Llywodraeth Cymru COVID-19: Dadansoddiad o fuddiolwyr Cymru, Rhagfyr 2020. Mae'r adroddiad hwn, a gomisiynwyd ar y cyd gan Dirnad Economi Cymru, Banc Datblygu Cymru a Llywodraeth Cymru, yn dadansoddi buddiolwyr Cymru ac yn ffurfio cam cyntaf rhaglen ymchwil barhaus. Yn ogystal, mae Dirnad Economi Cymru yn cyhoeddi adroddiadau chwarterol ac adroddiadau pwrpasol ar economi Cymru a chyllido cwmnïau.

Darparodd y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol gyngor annibynnol ar ddatblygiadau seilwaith digidol gan gynnig hyfforddiant, rhannu arferion da a help arbenigol o ran trawsnewid gwasanaethau.

Caiff y dystiolaeth a hyd a lled y gwaith arfarnu a wneir wrth ddatblygu polisïau a rhaglenni eu hasesu ar sail risg, maint a graddfa, y sail dystiolaeth bresennol a ffactorau eraill.  Cynhelir astudiaethau dichonoldeb cyn dechrau prosiectau allweddol er mwyn asesu pa mor addas ydynt i gyflawni ein nodau, a chaiff adolygiadau 'Gateway' eu cwblhau ar gyfer prosiectau mawr er mwyn herio pob agwedd ar achos busnes, gan gynnwys yr asesiad sylfaenol o werth am arian. Er bod yr adolygiadau yn ymwneud â phrosiectau penodol, maent yn helpu i greu ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth i'w defnyddio wrth ystyried prosiectau eraill. Yn yr un modd, gall adroddiadau archwilio mewnol ac allanol fod yn ddefnyddiol hefyd.

Mae Cymru'n Gweithio yn chwarae rhan hanfodol wrth werthuso a deall anghenion unigolyn a'r rhwystrau cymhleth sy'n gysylltiedig â nhw. Wrth wneud hynny, gall benderfynu pa ddarpariaeth fyddai fwyaf priodol o ran diwallu anghenion yr unigolyn hwnnw. Mae'r gwasanaeth yn darparu pwynt mynediad cenedlaethol i gymorth cyflogadwyedd, sy'n cefnogi ac yn ategu sianelau sy'n bodoli eisoes; a thrwy hynny osgoi achosion o ddyblygu gwaith a sicrhau gwerth am arian.

Rydym yn datblygu rhaglen cyflogadwyedd newydd i oedolion, y dechreuir ei rhoi ar waith ddiwedd 2021-2022. Bydd y Rhaglen Cyflogadwyedd newydd i Oedolion yn seiliedig ar y llwyddiannau amlwg, y cysyniad a'r brand er mwyn cyfuno ReAct (gweithwyr sydd wedi'u diswyddo ledled Cymru gyfan) a Mynediad (pobl ddi-waith) a darparu'r arlwy cyflogadwyedd lawn hon i oedolion di-waith yng Nghymru. Bydd y rhaglen yn darparu cymorth unigoledig i'r rheini sy'n awyddus i ymuno â'r farchnad lafur drwy ddileu rhwystrau a chynnig cymorth grant fel hyfforddiant galwedigaethol, gofal plant, costau teithio a chymorthdaliadau cyflog. Prif nod y rhaglen yw galluogi cynnydd i mewn i swydd barhaus.

Bydd y rhaglen newydd yn defnyddio fformat profedig a bydd yn cynnig rhaglen o gymorth er mwyn cyflawni nodau Symud Cymru Ymlaen a'r Cynllun Cyflogadwyedd. Mae trefniadau datblygu, gwerthuso ac archwilio ReAct yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf wedi helpu'r rhaglen i ddod yn fwy effeithlon ac effeithiol wrth helpu pobl i ddod o hyd i swyddi.

Mae adolygiad o'r Cynllun Grant ABC yn y sector TGCh yn cael ei gynnal gan gynghorwyr allanol ar hyn o bryd. Bydd yr adolygiad hwn yn canfod gwerth am arian y grant ac yn nodi datrysiadau technegol posibl.

Rydym wedi cyllido Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru, drwy broses dendro gystadleuol, i ddarparu gwasanaethau ymgysylltu rhwng Partneriaid Cymdeithasol a Llywodraeth Cymru yng Nghymru. Gwnaeth hyn helpu i sicrhau y caiff safbwyntiau rhai o'n rhanddeiliaid allweddol eu hymgorffori wrth ddatblygu polisïau a'u rhoi ar waith. Cynhaliwyd gwerthusiad annibynnol ar y maes gwariant hwn. Mae adnoddau'r sefydliad bellach wedi'u lleoli o fewn cyfarwyddiaeth y Bartneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg Llywodraeth Cymru.

Mae Bwrdd Cynghori Gweinidogol yr Economi a Thrafnidiaeth yn rhoi cyngor rheolaidd, creadigol o ansawdd uchel i mi er mwyn helpu i wella datblygiad economaidd yng Nghymru yn unol â'r blaenoriaethau a'r weledigaeth a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

O safbwynt trafnidiaeth, rydym yn cyllido Bus Users Cymru i gynrychioli buddiannau teithwyr a chyfrannu at waith datblygu polisïau. Mae hyn yn cynnwys cyfrannu at ymgyngoriadau ar bolisïau, monitro gwasanaethau bysiau, ymdrin â chwynion a chynnal cymhorthfeydd bysiau ledled Cymru.

Cynhaliwyd adolygiad o PBSA yn 2019 gan gynghorwyr allanol er mwyn cadarnhau a ddylid trefnu estyniad i'r contract. Daeth y cynghorwyr i'r casgliad pe byddai'r contract yn dirwyn i ben yn 2021, fod y costau ar gyfer caffael staff a chreu rhwydweithiau sector cyhoeddus unigol yn debygol o fod o leiaf 48% yn uwch na chostau parhau â'r contract.

Yn 2018, comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad ymchwil: "Eiddo Masnachol: Dadansoddiad o'r Farchnad ac Ymyriadau Posibl" er mwyn gwerthuso'r cyflenwad o safleoedd ac eiddo modern yng Nghymru a'r galw amdanynt. Defnyddiwyd adroddiad SQW i gefnogi'r broses o roi'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi: Cynllun Cyflawni Eiddo Llywodraeth Cymru ar waith. Lluniwyd nodyn ychwanegol ochr yn ochr â'r adroddiad terfynol er mwyn ystyried goblygiadau posibl pandemig COVID-19, o gofio mai ar ddechrau'r argyfwng y cyhoeddwyd yr adroddiad. Caiff y maes hwn ei adolygu er mwyn sicrhau bod tystiolaeth yn adlewyrchu'r amgylchiadau sydd ohonynt ac amgylchiadau'r dyfodol.

Er mwyn cyflwyno tystiolaeth o wahanol feysydd o fewn Llywodraeth Cymru, bu dadansoddwyr o wahanol broffesiynau yn cydweithio er mwyn gwella'r sail dystiolaeth ac asesu effeithiau er mwyn llywio polisïau, trefniadau cyflwyno a phenderfyniadau cyllido mewn perthynas â phandemig COVID-19.

## 12.0 MONITRO CYLLIDEBAU

Mae prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y cyllidebau y pleidleiswyd arnynt yn ystod y flwyddyn i MEG yr Economi a Thrafnidiaeth yn cael eu rheoli mewn ffordd fanwl ac effeithiol. Mae elfen bwysig o'r gweithgarwch arfaethedig yn y MEG yn seiliedig ar alw, megis Cronfa Dyfodol yr Economi ac, fel arfer, yn brosiectau seilwaith mawr a gaiff eu cyflawni gan gontractwyr trydydd parti. O ganlyniad, gall ffactorau y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru, fel tywydd garw, effeithio ar wariant. Caiff cynlluniau eu monitro'n agos gan y tîm uwch-reolwyr er mwyn cytuno ar opsiynau a chynigion ar gyfer camau gweithredu cywirol er mwyn rheoli gwariant net ar lefelau'r gyllideb.

Cynhelir adolygiadau her cadarn yng nghanol y flwyddyn er mwyn nodi unrhyw broblemau sylweddol a llywio opsiynau i'w hystyried gan y Cyfarwyddwyr, y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog a chaiff yr adnoddau sydd ar gael eu hailflaenoriaethu er mwyn gallu ymateb o hyd i ddatblygiadau economaidd.

## 13.0 DEDDFWRIAETH

Tynnodd y Prif Weinidog y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn ôl o'r rhaglen ddeddfwriaethol ar 15 Gorffennaf 2020. Gwnaed hyn er mwyn gallu rhoi blaenoriaeth i'r rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer ymdrin â phandemig COVID-19 a pharatoadau Brexit.

Mae tîm y rhaglen Diwygio Bysiau yn parhau i gydweithio â'r sector er mwyn penderfynu ar y dull gweithredu gorau ar gyfer y dyfodol ac er mwyn helpu'r sector i adfer.

## 14.0 LLEIHAU EFFAITH AMDDIFADEDD A THLODI

Ein hamcanion allweddol yw trechu effaith y Coronafeirws a cheisio atal a lliniaru unrhyw ddifrod pellach yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r ddau yn bygwth gwyrdroi'r cynnydd a wnaed gennym wrth leihau diweithdra ac anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn ystod y degawd diwethaf. Ond, caiff hyd yn oed y llwyddiant hwn ei lesteirio gan y cynnydd o ran tlodi mewn gwaith yn ystod yr un cyfnod.

Bellach ceir cyfle digyffelyb i feddwl am yr hirdymor ac i edrych i'r dyfodol – er mwyn mynd i'r afael o'r newydd â llawer o'r heriau dwfn y mae Cymru yn eu hwynebu a helpu ein pobl, ein busnesau a'n cymunedau i adfer ac i ffynnu. Nid dim ond achub y cynnydd a wnaed gennym o ran diweithdra ac anweithgarwch economaidd y byddwn yn anelu at ei wneud. Rydym yn benderfynol o ystyried yr economi mewn ffordd wahanol, er mwyn sicrhau bod unrhyw fuddsoddiadau yn talu ar eu canfed i weithwyr ac yn ein symud o sefyllfa o lefelau cyflogaeth a thlodi mewn gwaith ansefydlog. Rhaid i'r dull gweithredu hefyd ystyried yr heriau sylfaenol rydym yn eu hwynebu wrth fynd i'r afael â'r argyfwng newid yn yr hinsawdd ac argyfyngau natur. Nid yw mesur cyfoeth cyffredinol gwlad gan ddiystyru anghydraddoldeb neu ddiraddiant amgylcheddol canlyniadol yn ddigon.
Caiff ein dull o ystyried yr economi ei dywys gan y saith nod llesiant cenedlaethol. Mae ein gweledigaeth yn anelu at **economi llesiant** sy'n ysgogi ffyniant, sy'n amgylcheddol gadarn ac sy'n helpu pawb i wireddu eu potensial Caiff y broses o gyflawni'r weledigaeth hon ei hategu gan **dri chanlyniad**:

- **Economi fwy ffyniannus** sy'n gofyn am ffocws cyson ar gydnerthedd, a'r gallu i drawsnewid. Byddwn yn cymryd camau i gefnogi'r Economi Sylfaenol a sail economaidd amrywiol a rhyng-gysylltiedig o gwmnïau sy'n edrych tuag allan â pherfformiad arloesedd cadarnhaol, lefelau cynhyrchiant da a gweithlu ymroddedig wedi'i rymuso sy'n meddu ar y sgiliau priodol ar gyfer byd cyfnewidiol.
- **Economi wyrddach** sy'n gofyn am lefelau cylchogrwydd uchel, lle y caiff adnoddau eu defnyddio'n gyson gan ychwanegu gwerth economaidd a lle y caiff gwastraff ei osgoi. Gall hyn greu swyddi a chyfleoedd swyddi mewn diwydiannau newydd o ynni adnewyddadwy i atgyweirio. Mae'r economi hon yn rhan annatod o gymdeithas carbon isel, felly byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith carbon isel a all ddygymod â'r newid yn yr hinsawdd, datrysiadau sy'n seiliedig ar natur, prosiectau ynni adnewyddadwy a chartrefi cynaliadwy.

- **Economi fwy cyfartal** sy'n *golygu* buddsoddi ym mhotensial cynhyrchiol pawb o fewn cymunedau gan sicrhau na chaiff unrhyw un ei adael ar ôl. Byddwn yn creu uchelgais, yn annog dysgu am oes ac yn helpu pobl i fanteisio i'r eithaf ar eu potensial lle bydd gwaith yn cael ei wobrwyo ac yn rhoi boddhad. Bydd ein dull rhanbarthol yn sicrhau y caiff cyfleoedd eu dosbarthu'n deg er mwyn cyflawni canlyniadau tecach a byddwn yn parhau i fynnu a hyrwyddo cyfleoedd gwaith teg.